Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
Chief Executive,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD IAU 9FED O FEHEFIN 2016

AT: HOLL AELODAU'R **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT** SYDD I'W GYNNAL YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10:00YB** AR **DDYDD GWENER 17EG O FEHEFIN 2016,** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

Mark James

PRIF WEITHREDWR

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democrataidd:	**Matthew Hughes**
Ffôn (Llinell Uniongyrchol):	**01267 224029**
Ffacs:	**01267 224911**
E-bost:	**mahughes@sirgar.gov.uk**
Cyf:	**AD016-001**

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

13 AELOD O'R CYNGOR, 2 AELOD ANETHOLEDIG SYDD Â PHLEIDLAIS A 3 RHIANT-LYWODRAETHWYR ETHOLEDIG SYDD Â PHLEIDLAIS

GRŴP PLAID CYMRU – 6 AELOD

1.	Cynghorydd	C.A. Campbell
2.	Cynghorydd	J.M. Charles
3.	Cynghorydd	W.G. Hopkins
4.	Cynghorydd	P. Hughes Griffiths
5.	Cynghorydd	M.J.A. Lewis
6.	Cynghorydd	J.E. Williams (Cadeirydd)

GRŴP ANNIBYNNOL – 3 AELOD

1.	Cynghorydd	I.W. Davies
2.	Cynghorydd	D.W.H. Richards
3.	Cynghorydd	T. Theophilus

GRŴP LLAFUR – 4 AELOD

1.	Cynghorydd	D.J.R. Bartlett (Is-Gadeirydd)
2.	Cynghorydd	J.D. James
3.	Cynghorydd	P.E.M. Jones
4.	Cynghorydd	J. Williams

AELODAU ANETHOLEDIG SYDD Â PHLEIDLAIS (2)

1.	Mrs. V. Kenny	Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig
2.	Canon B. Witt	Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

RHIANT LYWODRAETHWYR ETHOLEDIG SYDD Â PHLEIDLAIS (3)

Cyfnod yn y swydd yn dod i ben ar y 31/03/2018

1.	Mrs. E. Heyes	Ardal 3 – Llanelli
2.	Mrs. K. Hill	Ardal 1 – Dinefwr
3.	Mrs. A. Pickles	Ardal 2 – Caerfyrddin

AGENDA

1.	YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB	
2.	DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL	
3.	DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD	
4.	CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)	
5.	EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL	5 - 6
6.	Y DIWEDDARAF AM Y RHWYDWAITH DYSGU 11-19	7 - 72
7.	ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2015/16	73 - 88
8.	CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG – YMATEB YMGYNGHORIAD 2016/17	89 - 166
9.	Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG – BWRIAD I NEWID CATEGORI IAITH YSGOL BRO MYRDDIN O DDWYIEITHOG (2A) I'R GYFRWNG GYMRAEG (CC)	167 - 242
10.	ADRODDIAD BLYNYDDOL (2015/16) A CHYNLLUN GWELLA (2016/17) – DRAFFT	243 - 320
11.	ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN AR REOLI PERFFORMIAD – 1AF O EBRILL 2015 HYD AT 31AIN O FAWRTH 2016	321 - 424
12.	DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT	425 - 432

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

EDUCATION & CHILDREN SCRUTINY COMMITTEE 17th JUNE 2016

Forthcoming items for next meeting – Thursday 22nd September 2016

Discussion Topic	Background
Youth Support Service Business Plan 2016/17	There is a statutory requirement for the Local Authority to submit a business plan to the Youth Justice Board on an annual basis outlining the delivery of the youth justice services. This item will provide the Committee with an opportunity to consider and comment on the business plan.
Budget Monitoring 2016/17	This is a standard quarterly item which enables members to undertake their monitoring role of revenue and capital budgets in relation to the Education & Children Department.
MEP Proposals for Age Categories – Pwll, Bynea , Pembrey & Betws	This report will outline the proposal to seek permission to implement the amendment of the age categories of Pwll, Pembrey, Bynea and Betws CP Schools, as part of the next stage of this process. The Committee received the post-consultation reports on these proposals at its meeting in March 2016.

MEP Proposal – Laugharne, Llanmiloe & Tremoilet	At its meeting on the 9th March 2016, the Committee agreed to recommend to the Executive Board that a formal consultation process on the proposal to discontinue Llanmiloe CP, Tremoilet VCP and Laugharne VCP Schools and to create a new area school, be initiated during the summer term of 2016. However, at its meeting on the 21st March 2016, the Executive Board decided to defer consideration of initiating formal consultation on the proposal, to allow further information to be gathered and evaluated, and for officers to bring a subsequent report to the Education & Children Scrutiny Committee and Executive Board as soon as practicable thereafter. At its forward work programme planning session in April 2016, the Committee also requested that it visit these schools, before considering the proposal to consult on the future of the schools once more. These visits are scheduled for June 2016. This item will provide the Committee with another opportunity to consider the proposal to consult on the future of the schools.
MEP Proposal – Bancffosfelen	At its meeting on the 9th March 2016, the Committee decided to defer making recommendations on this proposal until it had visited the school (scheduled for June 2016). This item will provide the Committee with another opportunity to consider the proposal to consult on the future of the school.
MEP Proposal – Llanedi	At its meeting on the 9th March 2016, the Committee decided to defer making recommendations on this proposal until it had visited the school (visit undertaken in May 2016). This item will provide the Committee with another opportunity to consider the proposal to consult on the future of the school.
E&C Scrutiny Committee Annual Report 2015/16	In accordance with Article 6.2 of the County Council's Constitution, each scrutiny committee must "prepare an annual report giving an account of its activities over the previous year." This report will provide members with an overview of the Committee's work during the 2015/16 municipal year.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT
17eg O FEHEFIN 2016

Y Diweddaraf am y Rhwydwaith Dysgu 11-19

Ystyried y materion canlynol a chyflwyno sylwadau arnynt:

- Datblygiad cwricwlwm a rennir ar gyfer pobl ifanc 11-19 oed mewn ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin, Coleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant lleol;
- Gweithredu'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr Adolygiad Cwricwlwm 11-19 .

Rhesymau:

- Er mwyn galluogi aelodau i ymarfer eu dyletswyddau craffu mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau addysg a chefnogi ieuenctid fel y nodir yn y Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.
- I ddatblygu barn i'w gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried.

Angen cyfeirio'r mater at y Bwrdd Gweithredol er mwyn gwneud penderfyniad: OES

Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Portffolio:
Cyng. Gareth.O. Jones (Addysg a Phlant)

Y Gyfarwyddiaeth: Addysg a Phlant	**Swyddi:**	**Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-bost:**
Enw Pennaeth y Gwasanaeth: J.Aeron Rees	Pennaeth Rhaglennu Dysgwyr	01267 246532 jarees@sirgar.gov.uk
Awdur yr adroddiad: Matt Morden	Rheolwr Trawsnewid Dysgu	01267 246648 msmorden@sirgar.gov.uk

EXECUTIVE SUMMARY

EDUCATION & CHILDREN SCRUTINY COMMITTEE 17th JUNE 2016

11-19 Learning Network Update

The Carmarthenshire 11-19 Review highlights how the 11-19 curriculum in Carmarthenshire has evolved since 2000 and how this provision has been affected by national, regional and local factors.

Informed by this contextual information, the 11-19 Review sets out 20 recommendations that will enable young people educated in secondary schools, Coleg Sir Gâr and training providers to gain the skills and experiences needed to progress to further learning and employment.

DETAILED REPORT ATTACHED?	**YES**

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.

Signed: **J. Aeron Rees** **Head of Learner Programmes**

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	**YES**	**YES**	**YES**	**NONE**	**YES**	**NONE**

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

Support services linked to 11-19 Curriculum and the Welsh Government's Youth Engagement and Progression Framework for young people aged 11-25 in Carmarthenshire play an important role in promoting social inclusion via Welsh and English medium provision including:

- The identification of young people at risk of not succeeding in formal education via a Vulnerability Assessment Profile (VAP) of all pupils on school roll;
- Tracking of young people when they leave school via the Careers Wales IO Database;
- The follow up and use of targeted interventions to engage with young people know to be not in employment, education or training after leaving school;
- A wide range of youth work projects in schools, FE colleges, youth settings and local communities;

2. Legal

All secondary schools are required to be compliant with the Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009.

Secondary schools and further education colleges are required to be compliant with the Education (local Curriculum for Students 16 to 18) (Wales) Regulations.

These regulations set out the minimum curriculum offer requirements for young people in the 14-16 and 16-19 age cohorts. The details of these regulations are available in the documents accessible via the links below:

- Learning and Skills (Wales) Measure 2009:
http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2009/mwa_20090001_en_1

- Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009:
https://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2009/wsi_20093256_en_1

- Learning and Skills (Wales) Measure 2009: Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4 Guidance:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/learningandskillsmeasure/?lang=en

3. Finance

The Welsh Government (WG) funds 11-16 education via allocations per pupil to each local authority which are then passed on to schools. Post 16 education in School Sixth Forms and Further Education colleges is funded via the Welsh Government's National Planning and Reporting System. The 2015-2016 allocation for Carmarthenshire Sixth Form provision and related planning systems is £6.18M.

Additionally, Carmarthenshire receives the Welsh Government's Education Improvement Grant (EIG) via the ERW consortium and approximately £220k of this funding is allocated to support collaborative learning activities linked to the 14-19 Network structures in the county.

4. ICT

Funding from the 14-19 Network grant is supporting implementation of the Welsh Government's *hwb* Information and Communication Technology initiative – see:

https://hwb.wales.gov.uk/Home/Pages/Home.aspx?lang=en

This ICT development has very significant implications for changing the way in which teaching and learning is delivered for young people in the County and across Wales.

6. Staffing Implications

The Post 16 grant and EIG allocation currently funds a number of posts hosted by partner organisations, related local authority central administration and the teaching of collaborative courses run by schools, Coleg Sir Gâr and private training providers.

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

Signed: **J. Aeron Rees** **Head of Learner Programmes**

1. Local Member(s) – N/A

2. Community / Town Council – N/A

3. Relevant Partners – The 11-19 Review has been circulated for consultation to relevant partners including school and local authority staff, governors, Coleg Sir Gâr management and training providers.

4. Staff Side Representatives and other Organisations – N/A

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information
List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No. / Locations that the papers are available for public inspection
Learning Pathways II Guidance (2006)	http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090302lpguidanceiien.pdf
WG Learning and Skills (Wales) Measure 16-19 (2009)	http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140514-learning-and-skills-measure-2009-local-curriculum-for-students-16-18-en.pdf
WG Learning and Skills (Wales) Measure Key Stage 4 (2009)	http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140507-learning-and-skills-measure-2009-local-curriculum-for-pupils-key-stage-4-en.pdf
Learning and Skills (Wales) Measure 2009: Learner Support Services and Learning Pathway Document Guidance	http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/110224learneren.pdf
Guide to the Post 16 Planning and Funding Framework (2015-2016)	http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/post-16-planning-and-funding/planning-and-funding-arrangements-2015-2016/?lang=en
Youth Engagement and Progression Framework Implementation Plan (2013)	http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-en.pdf

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Adolygiad Cwricwlwm 11-19 Sir Gaerfyrddin

Copi Ymgynghoriad - Mawrth 2016

Awdur yr Adroddiad: Matt Morden, Rheolwr Trawsnewid Dysgu, Cyngor Sir Caerfyrddin

“O ystyried yr heriau a wynebwn, y ffaith yw nad angen diwygio addysg sydd – mae angen ei thrawsnewid.

Yr allwedd i’r trawsnewid hwn yw peidio â safoni addysg, ond ei gwneud yn bersonol, adeiladu ar ddarganfod doniau unigol pob plentyn, rhoi myfyrwyr mewn amgylchedd lle maent eisiau dysgu a lle gallant ddarganfod yn naturiol yr hyn y mae ganddynt wir angerdd tuag ato.”

Ken Robinson, wedi’i gyfieithu o
The Element: How Finding Your Passion Changes Everything.

Adolygiad Cwricwlwm 11-19 Sir Gaerfyrddin

Cynnwys

Pennod / Adran	**Rhif Tudalen**
1.0 Cyd-destun a Diben	6
2.0 Methodoleg	7
2.1 Gwaith Ymchwil Cefndirol	7
2.2 Sefydlu Cyd	7
2.3 Y Broses Ymgynghori	8
2.4 Datblygu'r Weledigaeth	8
2.5 Argymhellion	8
3.0 Crynodeb Gweithredol	8
4.0 Cefndir Adolygiad 11-19	9
4.1 Yr achos dros newid	9
5.0 Cyd-destun Strategol – Cyflwyniad	10
6.0 Cyd-destun Polisi Cenedlaethol	10
6.1 Llwybrau Dysgu 14-19	10
6.2 Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant – Cyflenwi Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru	11
6.3 Mesur Dysgu a Sgiliau	13
6.4 Cwricwlwm i Bob Dysgwr	13
6.5 Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif	13
6.6 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	14
6.7 Creu Cymunedau Cryf – Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi	15
6.8 Teuluoedd yn Gyntaf	15
6.9 Y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol ar gyfer Addysg Ôl-16	16
6.10 Adolygiad Cymwysterau 14-19	17
6.11 Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid	18

6.12 Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg 18
6.13 Cymwys am Oes 19
6.14 Cynllun Gweithredu Sgiliau 19
6.15 Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig 2015 20
6.16 System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion 21
6.17 Dyfodol Llwyddiannus – Adroddiad Donaldson 22
6.18 Ysgolion Creadigol Arweiniol 23
6.19 Blaenoriaethau Gweinidogol Blynyddol Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol 24
6.20 Rhwydwaith Seren 24
6.21 Adroddiad Blynyddol Estyn 2015 25
6.22 Strategaethau Cenedlaethol - Crynodeb 25
7.0 Y Cyd-destun Rhanbarthol 26
7.1 Y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol 26
7.2 Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 28
7.3 Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Consortiwm ERW 29
7.4 Ceisiadau Rhanbarthol Cynnydd a Cham Nesa i Gronfa Gymdeithasol Ewrop 29
7.5 Y Cyd-destun Rhanbarthol – Casgliadau 30
8.0 Y Cyd-destun Lleol – Trosolwg o Sir Gaerfyrddin 30
8.1 Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin 32
8.2 Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2015-2020 32
8.3 Strategaeth Gorfforaethol Coleg Sir Gâr 2014-2017 33
8.4 Y Ddarpariaeth Addysgol a Gwaith Partneriaeth Presennol 34
8.5 Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i Ddysgwyr 14-19 yn Sir Gaerfyrddin 35
8.6 Data Cyrchfannau Disgyblion – Cyd-destun Sir Gaerfyrddin 36
9.0 Sail Resymegol ar gyfer Trawsnewid Cwricwlwm 11-19 39

10.0 Ffactorau sy'n cyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin 40

10.1 Polisi Llywodraeth Cymru 40

10.2 Profiadau Ehangach 42

10.3 Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith 42

10.4 Cymorth wedi'i Dargedu 43

10.5 Symud Ymlaen i Addysg Uwch a Chyflogaeth 43

10.6 Cyfranogiad Pobl Ifanc 44

11.0 Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2020 44

12.0 Y Manteision i Ddysgwyr 47

13.0 Y Manteision i'r Economi yn Sir Gaerfyrddin 48

14.0 Casgliadau Adolygiad 11-19 48

15.0 Argymhellion Adolygiad 11-19 49

16.0 Cyfeirnodau 52

17.0 Rhestr o acronymau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad 54

18.0 Atodiadau 1-5 56

1.0 Cyd-destun a Diben

Mae addysg yng Nghymru mewn cyfnod o drawsnewid mawr. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y cwricwlwm a gynigir i blant a phobl ifanc yn newid yn sylweddol. Caiff cymwysterau newydd eu gweithredu ynghyd ag argymhellion Adroddiad Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*. Cred Llywodraeth Cymru y bydd y newidiadau hyn yn galluogi i bobl ifanc gael eu haddysgu'n dda mewn ysgolion a cholegau ac wedi'u paratoi'n dda at y gweithle modern. Ond bydd y newidiadau hyn yn digwydd mewn cyfnod o ostyngiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg ar bob lefel a phan fo'r model ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru i'r dyfodol yn ansicr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn gostwng yn sylweddol. Mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn cael eu troi i fod yn rhanbarthol, gyda swyddogaethau gwella ysgolion eisoes yn cael eu cyflawni drwy bedwar consortiwm rhanbarthol. Caiff holl sefydliadau'r sector cyhoeddus eu herio i gydweithio mewn ffyrdd mwy arloesol, gyda'r disgwyl y bydd eu cyllidebau yn gostwng flwyddyn wrth flwyddyn hyd y gellir rhagweld.

I'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg yn Sir Gaerfyrddin, nid peth newydd yw'r dulliau hyn o gydweithio. Bu'r Cyngor Sir (yr Awdurdod Lleol), yr ysgolion uwchradd a Choleg Sir Gâr (y Coleg) yn cydweithio mewn partneriaeth ers 2000 i ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o fentrau addysgol strategol a fu'n diwallu gofynion polisïau olynol Llywodraeth Cymru, polisïau sydd yn aml yn gymhleth. Sicrhaodd y datblygiadau partneriaeth hyn fanteision sylweddol i bobl ifanc, drwy raglenni cyfalaf mawr a darpariaeth well o ansawdd uchel i ddysgwyr. Ceir cydnabyddiaeth eang i gryfder gwaith partneriaeth addysgol Sir Gaerfyrddin ac ystyrir bod y gwaith hwn yn arwain yn y sector, gan gyferbynnu'n fawr â'r gystadleuaeth agored am ddysgwyr ôl-16 sy'n bodoli yn rhai rhannau o Gymru a ledled Lloegr.

Bu cydweithio agos yn ganolog i'r newid addysgol strategol a welwyd dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae'r cydweithio hwn wedi cynnwys Rhaglen Moderneiddio Addysg lwyddiannus yr awdurdod lleol a'r camau hanesyddol a dorrai dir newydd wrth uno Coleg Sir Gâr yn rhan o strwythur Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r ddau ddatblygiad yn enghreifftiau o'r newidiadau arloesol a wnaed i wella cyfleoedd i ddysgwyr ar bob lefel ar draws Sir Gaerfyrddin.

Bu'r gwaith o gydgynllunio a chydgomisiynu dulliau i gyflawni Llwybrau Dysgu 14-19 ledled Sir Gaerfyrddin yn weithredol ers 2005. Caiff y ddarpariaeth hon ei rheoli drwy bedwar clwstwr-bartneriaeth o ysgolion, y coleg, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau cysylltiedig. Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyrsiau ar y cyd yn Gymraeg, Saesneg a dwyieithog i ragor na 900 o ddisgyblion bob blwyddyn. Bu datblygu llwybrau hyfforddiant galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ffocws penodol yn y gwaith hwn.

Ond mae'r Awdurdod Lleol a'r Coleg yn cydnabod bod angen cynllun sydd â mwy o weledigaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant er mwyn wynebu'r heriau ariannol, cymdeithasol ac economaidd sydd i ddod. Bydd y cynllun hwn yn nodi'r camau fydd angen eu cymryd i gyflenwi cwricwlwm arloesol a chynaliadwy i'r holl bobl ifanc 11-19 oed yn Sir Gaerfyrddin yn y cyfnod hyd at 2020 a thu hwnt. Caiff y cwricwlwm hwn ei gyfarwyddo gan ofynion Llywodraeth Cymru a'r economi rhanbarthol a lleol. Caiff hefyd ei gyfarwyddo gan anghenion pobl ifanc, p'un a ydynt yn dymuno gweithio'n lleol neu ddatblygu eu gyrfaoedd rywle arall ym Mhrydain neu dramor.

Yn dilyn trafodaethau rhwng Cyfarwyddwr Addysg a Phlant yr Awdurdod Lleol a Phrifathro Coleg Sir Gâr, ac yn unol ag Agenda Drawsnewid barhaus Llywodraeth Cymru, cytunwyd y dylid cynnal adolygiad strategol ar y cyd i ddatblygu ymhellach a chyflenwi addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin.

Bydd yr adolygiad hwn yn cynnig tystiolaeth i gyfarwyddo gweledigaeth strategol o ddyfodol addysg yn y sir. Bydd yn nodi'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad i gwricwlwm hygyrch a deniadol mewn cyfleusterau sy'n addas i'r 21ain. Bydd y gwaith hwn yn sylfaenol i gyflawni un o amcanion strategol allweddol strategaeth "Cymwys am Oes", Llywodraeth Cymru, sef sicrhau bod *"arweinwyr addysg yn cydweithio ar bob lefel o fewn system hunanwella, lle mae pawb yn helpu ac yn herio ei gilydd er mwyn codi safonau yn ein holl ysgolion (a cholegau)."*

Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn:

- Darparu tystiolaeth i gyfarwyddo 'cydweddiad strategol' addysg a hyfforddiant i'r dyfodol;
- Nodi a gweithredu cwricwlwm Sir Gaerfyrddin a fydd yn gwella safonau addysgol;
- Sicrhau gwelliannau i ddysgwyr;
- Rhoi i bobl ifanc yr offer sydd eu hangen arnynt ar gyfer astudio pellach a gwaith;
- Cynorthwyo cyflogwyr a'r economi lleol.

Ym mis Mawrth 2014, cytunwyd y byddai Rheolwr Trawsnewid Gydol Oes y Cyngor Sir yn cynnal yr adolygiad. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig yn agos ag adolygiad strategol perthnasol sy'n cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol o gwricwlwm 3-19 yn Sir Gaerfyrddin, ac a chamau i weithredu argymhellion Adroddiad Donaldson.

2.0 Y Fethodoleg

Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar bum elfen a ddatblygwyd i nodi sut ddylai'r cwricwlwm gael ei ddatblygu yn Sir Gaerfyrddin.

2.1 Gwaith Ymchwil Cefndirol

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil i bolisïau perthnasol Llywodraeth Cymru sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer gweledigaeth strategol i addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys dadansoddi amrywiaeth o bolisïau a strategaethau sy'n effeithio ar addysg uwchradd a thrydyddol dros gyfnod 2000-2015, i ba raddau y gweithredwyd y datblygiadau hyn yn Sir Gaerfyrddin a chyd-destun cymdeithasol ac economaidd y sir gan gyfeirio'n benodol at y sectorau cyflogaeth allweddol yn awr ac yn y dyfodol.

2.2 Sefydlu Cydweithgor

Goruchwyliwyd yr Adolygiad gan Gydweithgor a sefydlwyf fel rhan o'r broses i lywio'r Adolygiad ac arwain ar ddatblygu'r canlyniadau. Roedd y Cydweithgor yn cynnwys Prif Swyddog Addysg a Phennaeth Rhaglenni Dysgwyr yr Awdurdod Lleol, y Prifathro Cynorthwyol o Goleg Sir Gâr a chynrychiolwyr ysgolion.

2.3 Y Broses Ymgynghori

Ymgysylltwyd ag amrywiaeth o randdeiliaid drwy gyfarfodydd un-i-un ac ymgynghoriadau grŵp. Ceisiwyd eu barn ar agweddau ar gryfderau a gwendidau presennol y system addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin a gofynnwyd iddynt awgrymu sut gallai'r hyn sydd gan gwricwlwm Sir Gaerfyrddin i'w gynnig gael ei ddatblygu.

Drwy ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol, fe'n galluogwyd i gasglu eu barn a'u safbwyntiau, asesu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau i'r dyfodol, a sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r dewis ehangaf posibl ar gyfer addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin.

2.4 Datblygu'r Weledigaeth

Yn dilyn gwaith ymchwil ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid, tynnodd y Rheolwr Trawsnewid Gydol Oes yr amryw elfennau at ei gilydd, gan grynhoi'r safbwyntiau a darparu modelau o'r opsiynau posibl i ddatblygu'r cwricwlwm.

Cysylltodd y Rheolwr Trawsnewid Gydol Oes gydag aelodau'r Cydweithgor i ddiffinio'r weledigaeth i'r dyfodol, nodi'r blaenoriaethau strategol a'r anghenion i'r dyfodol i sicrhau y gall y newidiadau a nodwyd gael eu cyflawni'n lleol.

2.5 Argymhellion

Yn dilyn datblygu modelau'r cwricwlwm, nodwyd amrywiaeth o argymhellion cysylltiedig. Gwerthuswyd yr opsiynau hyn yn erbyn y meini prawf a osodwyd yn 'Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' (2008) a llythyr Blaenoriaethau Gweinidogol 2015-2016, i asesu i ba raddau y maent bellach yn ateb gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer newid. Bydd yr adroddiad drafft yn destun ymgynghoriad pellach yn y cyfnod Ionawr-Mawrth 2016 i sicrhau bod y newidiadau a'r argymhellion a nodwyd yn realistig ac yn diwallu anghenion pobl ifanc Sir Gaerfyrddin, yr economi a'r gymuned ehangach.

3.0 Crynodeb Gweithredol

Cydgomisiynwyd yr Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin gan yr Awdurdod Lleol a'r Coleg. Ystyria'r ddau sefydliad bod angen dull strategol cyffredin i gyflenwi addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol. Y dull hwn sy'n cyfarwyddo'r cynllun i gyflawni'r cwricwlwm yn y sir yn y dyfodol.

Yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, nid yw'r newidiadau sydd eu hangen yn awr yn ymwneud â 'brics a morter', boed hynny drwy leihau nifer yr ysgolion neu drwy adeiladu rhagor o gyfleusterau. Y newid sydd ei angen yw llunio a chyflawni cwricwlwm arloesol o ansawdd uchel yn Sir Gaerfyrddin i holl bobl ifanc y sir yn Gymraeg a Saesneg, lle bynnag y cânt eu haddysgu. Er y caiff y cwricwlwm hwn ei gyfarwyddo gan amrywiaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru, bydd yn dwyn ynghyd yr anghenion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn gosod allan yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael i bob person ifanc yn y sir. Bydd hyn yn galluogi pob dysgwr i wneud eu haddysg yn bersonol fel ei bod yn diwallu eu hanghenion eu hunain o ran datblygu gyrfa, ac wedi'i chyfarwyddo gan gefndir cymdeithasol ac economaidd y sir.

Mae'r cwricwlwm hefyd wedi'i gyfarwyddo gan anghenion yr economi lleol, gan flaenoriaethu llwybrau hyfforddiant galwedigaethol sy'n diwallu anghenion y sectorau twf allweddol ynghyd â chynorthwyo'r disgyblion mwyaf galluog i fynd ymlaen i brifysgol. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn nodi'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd a sicrhau y caiff pobl ifanc addysg dda a'u bod yn briodol o barod at y cyfnod nesaf yn eu bywydau.

4.0 Cefndir Adolygiad 11-19

Mae'r ysgolion uwchradd, Coleg Sir Gâr, yr awdurdod lleol, darparwyr hyfforddiant a Gyrfa Cymru eisoes yn cydweithio'n agos ar draws y sir drwy gyfrwng pedwar clwstwr, ac mae i bob un ei strwythur llywodraethu cyffredin i'w gynorthwyo. Mae'r clystyrau hyn yn goruchwylio'r gwaith o gynllunio a chyfenwi cyd-ddarpariaeth 14-19. Ond mae pob un sydd ynghlwm wrth hyn yn cydnabod bod angen dull mwy strategol o weithredu ar draws Sir Gaerfyrddin er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau lleol. Bydd datblygu'r dull strategol hwn hefyd yn cynorthwyo i wneud defnydd effeithiol o adnoddau ar adeg pan fo'r cyllidebau sydd ar gael i ysgolion, colegau a'r awdurdod lleol yn lleihau.

Dros y blynyddoedd diwethaf, ceisiodd polisi Llywodraeth Cymru drawsnewid addysg ôl-16 drwy gyfrwng cydweithio. Nod hyn oedd sicrhau y caiff adnoddau eu canolbwyntio fwy ar y dysgwr yn ogystal â lleihau dyblygu gwaith a chystadleuaeth ddi-fudd rhwng darparwyr. Anogwyd awdurdodau lleol i fynd i'r afael â gostyngiad mewn niferoedd disgyblion drwy resymoli nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael, yn aml drwy gau ysgolion bach.

Ers 2009, bu gofyn i ysgolion uwchradd a cholegau gydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) i sicrhau bod gan bob person ifanc yng Nghymru lefel sylfaenol o ddewis eang o bynciau academaidd a galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16. Cyflwynodd y cyfeiriadau polisi a'r bwriadau hyn gyfres unigryw o heriau i awdurdodau lleol a cholegau dros y degawd diwethaf. Hyd yma, ymatebodd y sefydliadau a'r ysgolion uwchradd yn rhagweithiol i'r newidiadau hyn a gellir dangos tystiolaeth o fanteision go iawn a ddaeth i ran dysgwyr yn sgil y gwaith hwn. Ond yn awr mae gofyn gweithredu ymhellach er mwyn i'r awdurdod lleol, ysgolion a Choleg Sir Gâr ymateb yn rhagweithiol i'r heriau presennol sy'n eu hwynebu yn sgil polisïau Llywodraeth Cymru, gostyngiadau cyllido, blaenoriaethau economaidd lleol ac anghenion pobl ifanc.

4.1 Yr Achos dros Newid

Mae angen adolygu system bresennol addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau bod anghenion newidiol dysgwyr, cymunedau a chyflogwyr yn cael eu diwallu. Mae strategaethau datblygu economaidd lleol a chenedlaethol yn canolbwyntio ar yr angen i ddatblygu sgiliau lefel uwch er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleodd swyddi. Caiff sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch eu herio gan Lywodraeth Cymru i gynnig hyfforddiant a chymorth hyblyg sy'n diwallu anghenion cyflogwyr a'r sectorau twf allweddol yn yr economi lleol.

Ar hyn o bryd, mae'r 12 o ysgolion uwchradd yn cynnig cyrsiau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn partneriaeth â Choleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant. Mae chweched dosbarth mewn wyth o'r ysgolion uwchradd sy'n cynnig cyrsiau Safon Uwch a

chyrsiau galwedigaethol. Mae tair o'r ysgolion hyn yn cyflwyno'r cyrsiau yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda rhywfaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y pum ysgol arall. Ceir system drydyddol yn ardal Llanelli, gyda darpariaeth Safon Uwch cyfrwng Saesneg yn cael ei chyflenwi gan Goleg Sir Gâr ar Gampws y Graig. Mae'r coleg hefyd yn cynnig rhaglen eang o gyrsiau addysg bellach ac uwch ar gampysau yn Llanelli, Caerfyrddin, Rhydaman a Gelli Aur. Mae gan sectorau'r ysgolion uwchradd ac addysg bellach yn Sir Gaerfyrddin hanes llwyddiannus o baratoi pobl ifanc at symud ymlaen i brifysgol, er nad yw llawer o'r rhai sy'n symud ymlaen i addysg uwch y tu allan i Sir Gaerfyrddin yn dychwelyd i weithio.

Yn ychwanegol, mae daearyddiaeth a natur wasgar y boblogaeth mewn rhai ardaloedd o Sir Gaerfyrddin yn heriol i gyflenwi cwricwlwm teg yn llwyddiannus i bob person ifanc sydd mewn addysg 11-19 yn y sir. Er ei bod yn amlwg bod angen model cynaliadwy ar gyfer addysg 11-19 yn Sir Gaerfyrddin, bydd cyflawni hyn ar adeg o ostyngiad mewn adnoddau ariannol yn galw am fwy o ymddiriedaeth a gwaith partneriaeth arloesol rhwng pob un o'r partïon perthnasol.

5.0 Cyd-destun Strategol – Cyflwyniad

Mae adran y cyd-destun strategol yn nodi sut mae'r adolygiad yn cydweddu â pholisi cenedlaethol a rhanbarthol presennol. Mae'n rhoi trosolwg o Sir Gaerfyrddin a chyd-destunau lleol. Mae'n diffinio'r trefniadau presennol ar gyfer cyflenwi addysg 11-19 ac yn pwysleisio'r arferion gorau presennol a'r meysydd sydd i'w datblygu ymhellach.

6.0 Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

Mae amrywiaeth eang o fentrau polisi Llywodraeth Cymru wedi ffurfio'r cwricwlwm lleol ac adnoddau cysylltiedig yn ymwneud â chyflenwi addysg yn ysgolion Sir Gaerfyrddin, Coleg Sir Gâr darparwyr hyfforddiant dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r mentrau hyn yn aml yn gymhleth, ac mewn rhai achosion heb fod yn ategu'i gilydd. Ond mae gan ddarparwyr addysg yn Sir Gaerfyrddin brofiad da o ymateb ac addasu i'r newidiadau sy'n ofynnol gan y polisïau hyn, ac mae hynny i'w weld yn y gwell cyfleoedd dysgu a ddatblygwyd yn y sir. Isod rhoddir y polisïau allweddol a luniodd y polisi presennol dros y deng mlynedd diwethaf ac sy'n cyfarwyddo datblygiadau i'r dyfodol.

6.1 Llwybr Dysgu 14-19 (2006)

Mae cryfder presennol gwaith partneriaeth addysgol yn Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar weithredu rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru. Llwybrau Dysgu 14-19 oedd y dull nodedig a ddefnyddiwyd yng Nghymru i drawsnewid y ffordd y caiff pobl ifanc eu haddysgu**.** Hyrwyddwyd y dull arloesol hwn gan Jane Davidson, y Gweinidog Addysg ar y pryd. Canolbwyntiai ar anghenion dysgwyr unigol, eu profiad dysgu mewn addysg ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol, a datblygu sgiliau sy'n eu helpu i gyflawni eu potensial.

Chwe elfen sydd i fframwaith llwybrau dysgu, a'r rheiny mewn dau gategori penodol: darpariaeth i ddysgwyr a chymorth i ddysgwyr. Tair elfen darpariaeth i ddysgwyr yw:

- llwybr dysgu unigol – i ddiwallu anghenion pob unigolyn, gan gynnwys ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol;

- dewis ehangach o gyrsiau a'u hyblygrwydd – yn arwain at gymwysterau o gwricwlwm lleol;
- dysgu ehangach o'r craidd dysgu – gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth, agweddau, gwerthoedd a phrofiadau y bydd eu hangen ar bob un 14-19 oed waeth beth fydd eu llwybr.

Tair elfen cymorth i ddysgwyr yw:

- mynediad at hyfforddwr dysgu – cymorth dysgu ar gael yn fwy dwys i'r rhai sydd â'r angen mwyaf;
- mynediad at gymorth personol – i helpu i oresgyn rhwystrau personol i ddysgu;
- cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd.

Cafodd addysg a hyfforddiant ei drawsnewid yn Sir Gaerfyrddin yn sgil gweithredu rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19. Roedd y trawsnewid hwn yn cynnwys mwy o ffocws ar lwybrau hyfforddi galwedigaethol yn gysylltiedig â blaenoriaethau economaidd lleol a gwell cymorth personol i ddysgwyr i'w helpu i lwyddo. Roedd yr arferion cydweithio rhwng ysgolion uwchradd, Coleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant yn canolbwyntio ar wella'r dewisiadau galwedigaethol sydd ar gael i ddysgwyr, ynghyd ag asesu ansawdd cyflenwi'r ddarpariaeth ar y cyd. Yn sgil y gwaith hwn, sefydlwyd diwylliant cadarn o ymddiriedaeth rhwng darparwyr addysg nad yw'n bodoli unrhyw le arall yng Nghymru. Mae'r diwylliant hwn yn galluogi i anghenion y dysgwyr gael eu blaenoriaethu yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm.

Er bod polisi Llywodraeth Cymru bellach wedi symud ymlaen o fodel Llwybrau Dysgu 14-19, y mae'n hanfodol bod Sir Gaerfyrddin yn cadw'r ethos o ganolbwyntio ar y dysgwr a'r llwybrau dysgu lleol sydd wedi ennill eu plwyf drwy'r ysgolion a Choleg Sir Gâr ac i mewn i'r sectorau cyflogaeth allweddol fel adeiladu a gofal. Mae'r egwyddorion hyn yn sylfaen i ddatblygu cwricwlwm Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol.

6.2 Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – Cyflenwi Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru (2009)

Prif flaenoriaeth y strategaeth hon gan Lywodraeth Cymru oedd sicrhau gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar gyfleoedd swyddi lefel uchel yn y dyfodol. Nodai'r adroddiad yr angen i integreiddio gwaith ysgolion, sefydliadau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch a darparwyr ôl-16 eraill er mwyn trawsnewid y ffyrdd y caiff addysg a hyfforddiant eu cyflenwi ledled y rhanbarth daearyddol.

O ganlyniad, roedd disgwyl i ddarparwyr addysg ffurfio partneriaethau dysgu sectorol. Byddai gofyn i'r partneriaethau hyn gynllunio a gweithredu'r gwelliannau a amlinellwyd ym mholisi Llywodraeth Cymru. Roedd gofyn trawsnewid y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn ehangu'r opsiynau sydd ar gael i rai 14-19 oed, lleihau achosion diangen o ddyblygu darpariaeth, a symud tuag at ragoriaeth ar draws rhwydweithiau o ddarparwyr. Roedd gofyn i bob awdurdod lleol gyflwyno Achos Deilliant Strategol i amlinellu sut byddai'r newidiadau angenrheidiol yn cael eu gweithredu.

Nododd yr adroddiad amrywiaeth o opsiynau posibl i ddarparwyr gydweithio. Byddai gofyn ystyried yr opsiynau hyn i sicrhau gwelliannau sylweddol o ran cyflenwi addysg a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16, a gallent gynnwys cydweithio anffurfiol, cydlywodraethu partneriaethau dysgu lleol, cyfuno'r hyn a gyflenwir gan ysgolion a cholegau, a gwaredu achosion o drosglwyddo darpariaeth bresennol am resymau dyblygu neu aneffeithlonrwydd ariannol.

Disgwyliad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r partneriaethau dysgu lleol yn canolbwyntio ar feysydd i'w datblygu lle mae'r angen mwyaf o welliant yn neilliannau'r dysgwyr.

Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y dylai pawb sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant ôl-14 gydweithio i fynd i'r afael â'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

- gwelliant mewn lefelau sgiliau sylfaenol;
- cynnydd yng nghyfradd y rhai 16-18 ac 19-24 sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth;
- cynnydd yng nghyfraddau llwyddiant dysgwyr yn gyffredinol, gan adlewyrchu lefelau uwch o gwblhau ymhlith dysgwyr yn ogystal â chyrraedd nodau cymwysterau;
- cynnydd mewn cymwysterau Lefel 2, 3 a 4;
- cynnydd yn y gyfradd sy'n symud ymlaen i ddysgu lefel uwch neu gyflogaeth lefel uwch.

Disgwyliad Llywodraeth Cymru oedd y byddai cynigion i gydweithio yn rhoi ystyriaeth i achosion o aneffeithlonrwydd perthnasol mewn darpariaeth ôl-16. Credai Llywodraeth Cymru fod aneffeithlonrwydd yn fwy tebygol pan fo ysgol chweched dosbarth yn gweithredu â llai na 150 o fyfyrwyr (ar sail ymchwil y Comisiwn Archwilio) ond yr oedd hefyd yn cydnabod bod angen rhoi ystyriaeth i ardaloedd gwledig a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Roedd ymateb Sir Gaerfyrddin i'r agenda drawsnewid yn seiliedig ar gryfderau presennol gwaith partneriaeth yn gysylltiedig â gweithredu rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19. Ers 2009, gall y bartneriaeth gynnig tystiolaeth o amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn gysylltiedig â'r rhaglen hon, gan gynnwys gwell perfformiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4, gwell cyfraddau aros ymlaen, a gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r gwaith hwn yn parhau yn Sir Gaerfyrddin a bydd yn parhau i fod yn egwyddor sylfaenol wrth ddatblygu cwricwlwm lleol a amlinellir yn argymhellion yr adroddiad hwn.

Fel ymateb i'r Agenda Drawsnewid ehangach, lansiodd Llywodraeth Cymru amrywiaeth o adolygiadau, strategaethau a pholisïau gan gynnwys:

- Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru (Thomas 2011) a oedd yn argymell rhesymoli Sefydliadau Addysg Bellach o 19, i sefydlu rhwng 8 a 12 endid corfforaethol Addysg Bellach erbyn Awst 2013, a daethpwyd i'r casgliad mai'r farn oedd y byddai datblygu consortia rhanbarthol yn ffordd gadarnhaol ymlaen. Nodwyd bod angen cydweithio a gwaith partneriaeth pellach i sicrhau y caiff dysgwyr yn ystodau oedran 14-16 ac 16-19 gynnig cyfleoedd a dewis go iawn.
- Yn adolygiad Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol (Hill 2013), pwysleisiwyd canfyddiad Estyn o ddiffygion yng ngwaith awdurdodau addysg lleol. Canolbwyntiai'r Adolygiad ar effeithiolrwydd dulliau cyflenwi presennol awdurdodau lleol ac ystyriai beth ddylid gwneud ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Arweiniodd Adolygiad Hill at sefydlu pedwar consortia gwella ysgolion rhanbarthol gan ganolbwyntio ar:

- godi safonau a gwella deilliannau i ddysgwyr o bob oed;
- gwell cymorth a her i ysgolion i wella safonau;
- datblygu a chryfhau arweinyddiaeth ysgolion ac ansawdd y dysgu a'r addysgu;

- sicrhau gwerth am arian a defnydd effeithiol o adnoddau;
- sicrhau cydlyniad a chysylltiadau cryf rhwng holl feysydd y system addysg, gan gynnwys darpariaeth ôl-16 ac agenda ehangach gwasanaethau plant.

Mae manylion gwaith consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru (*ERW*) wedi'u cynnwys yn adran ranbarthol yr adolygiad hwn.

6.3 Mesur Dysgu a Sgiliau (2009)

Roedd Mesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth (Cymru) 2009 yn sylfaen statudol i raglen Llwybrau Dysgu 14-19. Trawsnewidiwyd darpariaeth cwricwla a chymorth i ddysgwyr gan bolisi Llwybrau Dysgu 14-19, gan helpu i wella cyrhaeddiad a chyflawniad, a pharatoi pobl ifanc at gyflogaeth sgiliau uchel neu addysg uwch. Bwriad y polisi hwn oedd galluogi Cymru i gystadlu'n economaidd yn Ewrop yr 21ain Ganrif. Credai Llywodraeth Cymru y byddai cynnwys egwyddorion sylfaenol y polisi hwn mewn fframwaith cyfreithiol yn sicrhau y câi'r polisi ei weithredu mewn ffordd gyson er budd dysgwyr 14-19 oed ledled Cymru.

Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar holl awdurdodau lleol Cymru i ffurfio cwricwla lleol i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ac mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Y mae hefyd yn darparu pwerau llunio rheoliadau i Weinidogion Cymru i bennu isafswm nifer y cyrsiau astudio i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol, ac isafswm nifer y cyrsiau astudio galwedigaethol i sicrhau bod cwricwla ardaloedd lleol yn cynnwys amrywiaeth eang o opsiynau astudio sy'n academaidd a galwedigaethol eu natur.

Roedd y Mesur yn cefnogi'r gwaith o weithredu Llwybrau Dysgu 14-19. Roedd yn sicrhau bod pob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4 yng Nghymru yn gallu dewis o blith lleiafswm o 25 o gyrsiau a bod yn rhaid i dri ohonynt fod yn alwedigaethol, a bod 30 o opsiynau ar gael i ddysgwyr 16-18 oed, a bod yn rhaid i 5 ohonynt fod yn alwedigaethol. Mae pob ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin a Choleg Sir Gâr yn cyflawni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ar hyn o bryd. Ond gallai toriadau i'r gyllideb a llai o arian i gefnogi cydweithio ym maes addysg 14-19 olygu na fyddai'n bosibl cynnal y cwricwlwm a gynigir ar hyn o bryd, yn arbennig mewn ysgolion llai mewn ardaloedd gwledig.

6.4 Cwricwlwm i Bob Dysgwr (2010)

Darparai'r ddogfen hon ganllawiau i athrawon/ymarferwyr dysgwyr sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau/ysgolion prif ffrwd ac arbennig. Mae'n cefnogi addysgu a dysgu yn erbyn cwricwlwm ysgol 2008. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio'n benodol ar Gyfnod Allweddol 2 a 3, ond byddant yn ddefnyddiol i staff sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen a chyda dysgwyr 14-19 oed mewn amrywiaeth o leoliadau. Y mae'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae iddo saith o nodau craidd sy'n ceisio sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn datblygu i'w botensial llawn. Mae'r ddogfen hon bellach wedi'i disodli gan y Cwricwlwm am Oes (2015) ac argymhellion Adroddiad Donaldson.

6.5 Rhaglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif (2010-presennol)

Mae'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen allweddol, strategol a hirdymor ar gyfer buddsoddi cyfalaf. Nod y rhaglen yw creu cymunedau addysgol sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif yng Nghymru sy'n darparu:

- Amgylcheddau dysgu a fydd yn ei gwneud yn haws gweithredu strategaethau gwella a gwell deilliannau addysgol
- Amgylcheddau dysgu sy'n ddarbodus ac effeithlon drwy ddefnyddio adnoddau yn well
- System addysg gynaliadwy sy'n cyrraedd safonau adeiladu cenedlaethol a lleihau costau rheolaidd ac ôl troed carbon adeiladu addysg.

Ym mis Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fuddsoddiad o £1.4 biliwn ar gyfer y cyfnod cyntaf o brosiectau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Caiff yr arian ei roi ar sail arian cyfatebol 50:50 gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. Diben y cyllid hwn yw creu amgylcheddau ysgol sy'n diwallu anghenion y gymuned a chynnig y ddarpariaeth ddysgu orau i'r ardal.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol i gyflawni'r cyfnod cyntaf o brosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif erbyn 2019. Ond awdurdodau lleol sy'n pennu ar ba gyflymder y caiff eu prosiectau unigol eu cyflawni. Cafwyd amserlen o 7 mlynedd ar gyfer y cyfnod cyntaf hwn o brosiectau. Mae gweithredu Menter Benthyca Llywodraeth Leol fel rhan o raglen yr 21ain Ganrif yn galluogi awdurdodau lleol i gyflymu gwariant ar eu rhaglenni a chyflawni eu prosiectau mewn 5 mlynedd yn hytrach na 7 mlynedd.

Mae Sir Gaerfyrddin ar flaen y gad yng Nghymru o ran datblygiadau ysgolion fel rhan o Raglen Moderneiddio Addysg. Mae cyllid y rhaglen hon wedi trawsnewid addysg yn ardal Dinefwr, gyda gwaith sylweddol wedi'i wneud i uwchraddio safleoedd Dyffryn Aman a Maes y Gwendraeth, ac adeilad ysgol newydd Sbon yn Ffairfach (Ysgol Bro Dinefwr). Galluogodd y datblygiadau hyn i nifer fawr o leoedd ysgol gwag i gael eu gwaredu, a chaniatáu i bobl ifanc gael eu haddysgu mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf. Gwnaed gwaith adnewyddu sylweddol hefyd yn Ysgol y Strade, Coedcae a Bryngwyn, ac mewn amrywiaeth eang o leoliadau ysgolion cynradd ledled y sir.

6.6 Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2011 hyd y presennol)

Ar lefel awdurdod lleol, caiff deilliannau a thargedau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru eu cyflawni drwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Y nod yw hwyluso cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gyfrwng allweddol i greu gwell system gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Sir Gaerfyrddin, yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru fonitro'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymateb ac yn cyfrannu at weithredu amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy:

- Sicrhau bod pob cam yn mhrosesau addysg awdurdod lleol yn cynnwys ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Cymraeg;
- Ymestyn y ddarpariaeth pan fo angen wedi'i nodi ar sail gwell cynllunio;
- Symud gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg yn raddol oddi wrth rolau traddodiadol *Athrawon Bro* a thuag at wasanaeth hyfforddiant a mentora newydd;
- Sicrhau cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg ar sail consortia yn y dyfodol agos;
- Gwella safonau a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc;

- Dangos cynnydd tuag at dargedau penodol yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir, gan gynnwys darpariaeth alwedigaethol, yn sylfaenol i'r adolygiad hwn. Mae manylion yr argymhellion hyn wedi'u cynnwys yn adran cwricwlwm yr adroddiad hwn.

6.7 Creu Cymunedau Cryf: Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2013 hyd y presennol)

Mae'r fenter hon gan Lywodraeth Cymru yn gosod nifer o dargedau mewn perthynas â thlodi a chyrhaeddiad addysgol. Nod y targedau yw:

- Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan 10 y cant erbyn 2017.
- Gwella cyfradd y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg i 37 y cant erbyn 2017.
- Lleihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i 9 y cant erbyn 2017. Ar ddiwedd 2012, y ffigwr oedd 10.2.
- Lleihau cyfran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yng Nghymru o gymharu â'r Deyrnas Unedig gyfan erbyn 2017.

Mae ***Strategaeth Tlodi Plant*** Llywodraeth Cymru a dogfen gysylltiedig ***Ailysgrifennu'r Dyfodol*** (2015) yn pwysleisio pwysigrwydd tri amcan strategol:

- Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio, gan fod plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio mewn risg penodol o fod yn byw mewn tlodi.
- Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel fel y gallant gael cyflogaeth sy'n talu cyflog da a symud ymlaen yn eu gwaith gan fod tlodi mewn gwaith yn fater sydd ar gynnydd.
- Lleihau'r anghydraddoldeb sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Mae atal tlodi yn sylfaenol i weledigaeth Llywodraeth Cymru o gynorthwyo aelwydydd incwm isel. O'r herwydd, mae mentrau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi wedi'u cysylltu'n agos â strategaethau'r llywodraeth i wella cyrhaeddiad addysgol ar lefel awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r gwaith i fynd i'r afael â thlodi plant yn Sir Gaerfyrddin wedi'i gysylltu'n agos â'r adolygiad hwn o'r cwricwlwm. Mae gweithgareddau wedi'u targedu a ariennir gan grantiau Teuluoedd yn Gyntaf ac Amddifadedd Disgyblion yn chwarae rôl bwysig wrth gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n dioddef o dlodi. Mae lleihau effeithiau tlodi hefyd yn nodwedd bwysig ar y cylch nesaf o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan ganolbwyntio'n bennaf ar leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Caiff y gweithgareddau hyn eu hymgorffori yn yr amrywiaeth o gymorth sy'n ategu datblygiadau Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â'r cwricwlwm.

6.8 Teuluoedd yn Gyntaf (2012)

Yn 2012, lluniodd Llywodraeth Cymru ddull integredig, ar sail y teulu cyfan, i gynorthwyo teuluoedd yng Nghymru. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella'r ffordd y mae

asiantaethau'n cydweithio, ac mae'n rhoi pwyslais clir ar ymyrraeth gynnar i deuluoedd, yn arbennig i'r rhai sy'n byw mewn tlodi, i helpu i atal problemau rhag datblygu i fod yn argyfwng. Fel rhan o Deuluoedd yn Gyntaf, Cymru yw'r unig wlad lle mae gofyn i bob awdurdod lleol weithredu model "tîm o amgylch y teulu", sy'n annog sefydliadau i gydweithio i gynorthwyo teuluoedd a'u helpu i fynd i'r afael â'r ystod eang o heriau y gallant wynebu.

Cred Llywodraeth Cymru bod y problemau y mae teuluoedd yn eu hwynebu yn gynyddol heriol ac mae gwasanaethau yn wynebu dewisiadau anodd wrth i ymwybyddiaeth o wasanaethau a'r galw amdanynt gynyddu. Yr egwyddor sy'n arwain drwy gydol y gwaith hwn yw gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ddiwallu anghenion pobl yn effeithiol, yn gynaliadwy ac ar y cyfle cyntaf posibl. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn dwyn sefydliadau ynghyd i gydweithio â'r teulu cyfan, nid â'r unigolyn yn unig. Golyga hyn fod asiantaethau yn addasu'r ffordd y maent yn gweithio er mwyn diwallu anghenion y teulu yn well. Mae'n golygu adeiladu ar gryfderau craidd yr uned deuluol ac adeiladu dull 'tîm o amgylch y teulu' sy'n dwyn asiantaethau a gwasanaethau ynghyd mewn ffordd gydlynol, gan ei gwneud yn llai cymhleth i deuluoedd gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae dull Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i ymwreiddio yng ngwaith yr Adran Addysg a Phlant drwy gyfuniad o wasanaethau cymorth i deuluoedd wedi'u creu a'u comisiynu. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc sydd wedi'u nodi gan y Proffil Asesu Bregusrwydd yn rhai sydd mewn risg o beidio â llwyddo yn yr ysgol. Mae'r cymorth ychwanegol hwn yn hanfodol i sicrhau goresgyn amrywiaeth o rwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag cyflawni'u llawn botensial, a'u bod yn cael eu cynnal fel rhan o fodel datblygol Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin.

6.9 Fframwaith Cynllunio ac Ariannu Ôl-16 (2014)

Ym mis Medi 2014, rhoddodd Llywodraeth Cymru system gynllunio ac ariannu newydd yn ei lle ar gyfer addysg ôl-16 yn chweched dosbarth ysgolion gan ddisodli'r fethodoleg ariannu reolaidd a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae'r system newydd yn dod â dyraniadau ariannu newydd i chweched dosbarth mewn ysgolion yn unol â'r trefniadau ar gyfer colegau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Mae'r trefniadau cynllunio ac adrodd ôl-16 ar gyfer awdurdodau lleol yn ceisio:

- gwella pa mor effeithlon, effeithiol a thryloyw yw dulliau cynllunio ac ariannu ôl-16 er mwyn canolbwyntio ar well canlyniadau a dilyniant i ddysgwyr;
- safoni'r gwaith o gynllunio darpariaeth ar draws sectorau'r ysgolion a cholegau i wella gwybodaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwell a chytbwys;
- canolbwyntio'r sylw ar y canlyniadau ehangach i ddysgwyr unigol.

O fis Medi 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y bydd cyllid yn seiliedig ar raglenni dysgu yn hytrach na chymwysterau, a bydd gan bob rhaglen ddiben wedi'i diffinio a chanlyniad er mwyn monitro yn ei erbyn.

Mae rôl gynllunio'r awdurdod lleol wedi'i chryfhau'n sylweddol yn y system newydd, gyda chyfrifoldeb ychwanegol am gydlynu'r gwaith o gyflenwi darpariaeth chweched dosbarth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod achosion o ddyblygu darpariaeth yn cael eu hosgoi a bod y cyrsiau a gynigir yn cyflawni blaenoriaethau economaidd lleol a rhanbarthol. Mewn sefydliadau addysg bellach, mae'r system newydd wedi arwain at gwricwlwm sy'n cael ei arwain i raddau llawer mwy gan fyfyrwyr, a gwaredwyd y rhaglenni hynny a oedd yn cael eu cynnal yn bennaf i ddenu cyllid ychwanegol. Canlyniad hyn yw cwricwlwm sydd yn

seiliedig i raddau mwy ar gyflogadwyedd ac anghenion cyflogwyr, gyda'r agweddau cynllunio wedi'u cysylltu'n agos â gwybodaeth ac anghenion y farchnad lafur yn lleol.

Braenarwyd y tir er mwyn paratoi ysgolion uwchradd at y system ariannu ôl-16 newydd. Fel rhan o'r gwaith hwn, casglwyd data ynglŷn â nifer bresennol y disgyblion sydd yn astudio ar bob un o'r rhaglenni dysgu a ariennir fel rhan o'r fethodoleg ariannu newydd. Yn ystod y cyfnod pontio, mae'r awdurdod yn defnyddio model ariannu sy'n seiliedig ar nifer y disgyblion ac ymgodiadau cyllido ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, teneurwydd poblogaeth a natur wledig yr ardal, a gytunwyd gyda phenaethiaid yr ysgolion uwchradd.

Bydd gofyn i Gynllun Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill bob blwyddyn a bydd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Darparu addysg o ansawdd uchel i bob dysgwr;
- Sicrhau ansawdd ac amrywiaeth;
- Sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau drwy ddatblygu modelau cydweithio a rhannu;
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn fforddiadwy a chynaliadwy;
- Hyrwyddo'r arfer o gyflenwi a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth uchod, y mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru bod gan yr awdurdod lleol lawer mwy o rôl i'w chwarae wrth roi arweiniad i gyflenwi darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion. I gefnogi'r rôl hon yn Sir Gaerfyrddin, mae potensial sylweddol i ddatblygu model comisiynu ar gyfer ariannu chweched dosbarth. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â strwythur llywodraethu presennol y clystyrau, a chynnwys arian yn cael ei ddyrannu i gyrsiau a gyflenwir gan ysgolion gyda'i gilydd a/neu gyda Choleg Sir Gâr mewn cydweithrediad. Byddai angen i fodel comisiynu newydd fod wedi'i gysylltu'n agos â blaenoriaethau'r economi a'r sectorau lleol a dylai gynnwys cyfleoedd i ehangu darpariaeth galwedigaethol cyfrwng Cymraeg.

6.10 Adolygiad Cymwysterau 14–19 (2012)

Lansiwyd Adolygiad Cymwysterau 14-19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2012) ym mis Medi 2011, gan osod gweledigaeth o "gymwysterau gwerthfawr a dealladwy sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru." Argymhelliad yr adolygiad oedd bod angen datblygu system gymwysterau genedlaethol o ansawdd uchel sy'n gadarn a nodedig ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. Ystyrir bod rhoi cydnabyddiaeth briodol i werth cymwysterau galwedigaethol yn golygu sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr ac economi modern Cymru. Yn ogystal a'u gwerth cynhenid, ystyrir bod cymwysterau galwedigaethol yn ysgogol a deniadol i'r dysgwyr hynny a allai golli diddordeb mewn addysg fel arall.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylai cymwysterau galwedigaethol i rai 14-16 oed anelu at ddarparu cyflwyniad cyffredinol i sector o ddiwydiant yn hytrach nag arwain at gymhwysedd galwedigaethol, a ffurfio rhan o gwricwlwm cyffredinol eang a chytbwys. Dylai'r rhain fod yn gymwysterau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET), nad ydynt yn arwain at gymhwysedd galwedigaethol a dylent fod ar gael i ddysgwyr 14 oed yn unig; neu'n gymwysterau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVET) lefel 2 sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Dylai'r naill gategori neu'r llall fod ar gael i rai ôl-16. Dylai'r newid hwn wella cydlyniad llwybrau'r cwricwlwm.

Os yw cymwysterau yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion cyflogwyr a bod iddynt sail alwedigaethol, bydd galw cynyddol ar iddynt gael eu cyflenwi gan ymarferwyr

galwedigaethol sydd â phrofiad priodol, boed mewn ysgol, coleg neu leoliad darparwr hyfforddiant.

6.11 Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (2013)

Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru. Mae'r cynllun anstatudol hwn yn nodi cyfrifoldebau'r awdurdod lleol i ddwyn partneriaeth ynghyd i oruchwylio'r gwaith o gyflenwi'r fframwaith yn lleol.

Mae'r strategaeth yn nodi chwe elfen allweddol sy'n cyfuno i alluogi gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n datblygu i fod yn NEET mewn ardal leol:

- Nodi pobl ifanc sydd â'r risg mwyaf o ymddieithrio drwy gyfrwng Proffil Asesu Bregusrwydd;
- Broceru a chydlynu cymorth i bobl ifanc yn well;
- Dulliau cryfach ar gyfer dilyn trywydd pobl ifanc wrth iddynt bontio o un cam i'r nesaf drwy'r system;
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc;
- Cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael swydd;
- Mwy o atebolrwydd am well deilliannau i bobl ifanc.

Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â gweithredu'r System Gynllunio ac Ariannu Ôl-16 yn 2014, argymhellion Adolygiad Cymwysterau 14-19 yng Nghymru 2012 yn ogystal â gwaith ehangach Llywodraeth Cymru i hybu cyflogaeth ieuenctid drwy Dwf Swyddi Cymru, hyfforddiaethau a phrentisiaethau.

Datblygodd Sir Gaerfyrddin ddull ar y cyd o weithredu'r Fframwaith hwn, gan gydweithio'n agos â Sir Benfro, gyda Grŵp Gweithredol ar y cyd rhwng y ddwy sir yn goruchwylio. Mae'r Proffil Asesu Bregusrwydd bellach yn weithredol ym mhob ysgol. Mae'r offeryn hwn yn nodi'r bobl ifanc hynny sydd arnynt angen cymorth ychwanegol, sydd wedyn yn cael ei ddarparu drwy gyfuniad o wasanaethau prif ffrwd ac ymyriadau Teuluoedd yn Gyntaf, dan oruchwyliaeth dull gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu. Bydd y Proffil Asesu Bregusrwydd yn cael ei ddefnyddio i dargedu ymyriadau a ariennir gan gynnig rhanbarthol Cynnydd i Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae arian o'r cynnig hwn yn debygol o fod ar gael yn gynnar yn 2016 a chaiff ei oruchwylio gan gyd-grŵp rheoli sy'n cynnwys staff o'r awdurdod lleol a Choleg Sir Gâr.

6.12 Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg (2014)

Dyma fargen newydd, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Mehefin 2014, i gynorthwyo athrawon, arweinwyr a staff cymorth gyda'i datblygiad proffesiynol drwy gydol eu gyrfaoedd, yn ogystal â chynyddu'r parch i'r proffesiwn. Mae'r fargen newydd yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr gael mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar bob cam yn eu gyrfa. Nod y datblygiad hwn yw gwella perfformiad cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth a gwella lefelau cyrhaeddiad dysgwyr Cymru.

Caiff y fargen newydd ei chefnogi gan Fodel Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, a luniwyd i wella ansawdd ymarfer proffesiynol tra'n cynyddu'r parch sydd at y gweithlu. Yn gyfnewid am y gefnogaeth hon, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i athrawon, arweinwyr a staff cymorth gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain a rhannu eu gwybodaeth ac arferion da gydag eraill, sy'n nodwedd o unrhyw broffesiwn uchel ei statws.

Bydd y fenter hon hefyd yn golygu y bydd consortia gwella ysgolion rhanbarthol, drwy'r Model Cenedlaethol o Weithio Rhanbarthol, yn cydweithio i ddarparu rhaglen genedlaethol o gyfleoedd datblygu proffesiynol i staff byd addysg. Mae'r gwaith o lunio'r rhaglen hyfforddiant leol lawn sy'n gysylltiedig â'r Fargen Newydd yn tynnu at ei derfyn yn awr.

6.13 Cymwys am Oes (2014 hyd y presennol)

Cymwys am Oes yw cynllun Llywodraeth Cymru i wella addysg. Nod y cynllun 5 mlynedd (2015-2020) yw gwella cyrhaeddiad addysgol dysgwyr 3 i 19 oed. Mae gweithgareddau allweddol y cynllun wedi'u gosod o dan 4 amcan strategol:

- Datblygu gweithlu proffesiynol rhagorol ac iddo addysgeg gref sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio yn ymarferol (gan gysylltu'n gryf â'r Fargen Newydd, fel a ddisgrifir uchod).
- Darparu cwricwlwm diddorol a deniadol i blant a phobl ifanc, sy'n meithrin eu gallu i fynd ati'n annibynnol i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau.
- Sicrhau bod y cymwysterau mae pobl ifanc yn eu hennill yn cael eu parchu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a'u bod yn basbort i ddysgu pellach a chyflogaeth yn y dyfodol.
- Sicrhau bod arweinwyr addysg yn cydweithio ar bob lefel o fewn system hunanwella, lle mae pawb yn helpu ac yn herio ei gilydd er mwyn codi safonau ein holl ysgolion.

Yn rhannol, ymateb Sir Gaerfyrddin i gynllun Cymwys am Oes yw Adolygiad 11-19 Sir Gaerfyrddin, o ystyried y ffocws a nodwyd ar ddatblygu staff, datblygu cwricwlwm, cymwysterau buddiol ac arweinwyr yn cydweithio ar draws sectorau mewn system o hunanwella. Bydd y camau a nodir yn yr adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r themâu hyn ac yn darparu amrywiaeth o strategaethau i sicrhau y caiff Cymwys am Oes ei weithredu'n effeithiol yn y sir.

6.14 Cynllun Gweithredu Sgiliau (2014)

Diben y cynllun hwn oedd pennu sut i weithredu blaenoriaethau lefel uchel yn natganiadau polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn nodi camau polisi allweddol a gâi eu cymryd yn y cyfnod hyd at 2016-17. Mae'r camau hyn yn rhoi'r sylfaen ar gyfer ymyriadau polisi cyflogaeth a sgiliau dros y degawd nesaf.

Mae cwmpas y cynllun hwn yn cydweddu â'r datganiad polisi ar sgiliau ac yn canolbwyntio ar bolisi cyflogaeth a sgiliau ôl-19 yng Nghymru. Ond mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen am gysylltiadau agos â'r system addysg orfodol ac ôl-orfodol. Diben hyn yw sicrhau bod y gweithlu yn y dyfodol yn adlewyrchu uchelgeisiau'r llywodraeth i sicrhau cymdeithas fedrus iawn. Mae hyn yn cynnwys datblygu staff sydd â Lefel 3 yn y meysydd sgiliau hynny y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi ac sy'n bwysig yn rhanbarthol fel meincnod allweddol.

Caiff y targed hwn o gyrhaeddiad ei osod ochr yn ochr â'r angen i wella sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh ymysg oedolion sy'n gweithio i o leiaf Lefel 2 lle bynnag y bo'n bosibl. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried yr angen i ddarparu sgiliau ôl-19 cyfrwng Cymraeg yn unol ag anghenion cyflogwyr. Yn sail i'r cynllun y mae cyfres o Fesurau Perfformiad Sgiliau i'w defnyddio fel pwynt cyfeirio parhaus wrth werthuso polisïau a rhaglenni i sicrhau eu bod yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i'r dyfodol.

Maent yn canolbwyntio ar y pedwar maes allweddol canlynol:

- Swyddi a thwf – Gwelliannau mewn lefelau cyflogaeth a chynhyrchiant.
- Cynaliadwyedd ariannol – Sicrhau bod cydbwysedd priodol a chynaliadwy o arian ar gael i gynorthwyo'r system sgiliau drwy gyllid llywodraeth, cyflogaeth, unigolion a ffynonellau Ewropeaidd.
- Cydraddoldeb a thegwch – Darparu cyfleoedd cyfartal i unigolion wrth dderbyn cymorth cyflogaeth a sgiliau ôl-19.
- Meincnodi sgiliau yn rhyngwladol – gwella'r proffil sgiliau i sicrhau bod Cymru yn parhau'n gystadleuol fel cenedl.

Dyma'r pedwar maes sydd yn ganolbwynt i Lythyron Gweinidogol 2015-2016 i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach. O ystyried hyn, mae'r camau a nodir yn yr adolygiad hwn yn cysylltu'n agos â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau dysgu fel a nodwyd yn y llythyron hyn.

6.15 Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig (2015)

Caiff Bagloriaeth Cymru ei chyflwyno gan ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae'r Fagloriaeth yn rhoi profiadau ehangach na rhaglenni dysgu traddodiadol, sy'n addas i anghenion amrywiol pobl ifanc. Yn adroddiad Estyn ar Fagloriaeth Cymru, 2012, barnwyd bod mwyafrif y myfyrwyr sy'n astudio craidd y Fagloriaeth yn cael eu cyflwyno i amrywiaeth eang o bynciau a chyfleoedd sy'n eu helpu i wella eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau rhyngbersonol. Cred Llywodraeth Cymru bod myfyrwyr sy'n astudio'r Fagloriaeth yn datblygu i fod yn fwy hyderus, yn gwella eu sgiliau hanfodol a chymdeithasol ac yn meithrin gwell dealltwriaeth o amrywiaeth o bynciau, o fenter i wleidyddiaeth a materion cyfoes.

Ar bob lefel, caiff y craidd ei astudio yn ogystal ag amrywiaeth o gymwysterau dewisol academaidd a/neu alwedigaethol. Caiff Diploma Sylfaenol, Canolradd neu Uwch Bagloriaeth Cymru ei ddyfarnu, fel sy'n briodol, i'r ymgeiswyr hynny sy'n cyflawni gofynion y Craidd a'r Dewisiadau sy'n berthnasol i bob lefel o'r cymhwyster.

O fis Medi 2015, bydd y Fagloriaeth yn cychwyn ar gyfnod o gyflwyno'r cymhwyster dros gyfnod o 4 blynedd (2015-2020). Bwriad y cyflwyno fesul cam hwn yw galluogi ysgolion a cholegau i reoli'r newid, datblygu staff a sicrhau y caiff y cymhwyster ei gyflwyno ag ansawdd uchel. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau fesul cam dros y cyfnod hwn, gyda'r bwriad bod y Fagloriaeth yn llwyr weithredol erbyn 2020.

Mae'r Fagloriaeth ddiwygiedig yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau graddedig a chymwysterau ategol (gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a dyfarniadau galwedigaethol). Y nod pennaf yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos dealltwriaeth o sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd, a hyfedredd ynddynt; sef sgiliau cyfathrebu, rhifedd, llythrennedd digidol, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, ac effeithiolrwydd personol. Mae'r pwyslais ar ddysgu cymhwysol a phwrpasol ac ar ddarparu cyfleoedd asesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau go iawn drwy dair her (Cymuned, Dinasyddiaeth Fyd-eang, Cyflogaeth ac Entrepreneuriaeth) a phrosiect unigol estynedig.

Mae goblygiadau staffio sylweddol i ysgolion Cymru yn sgil y Fagloriaeth ddiwygiedig, o gyfuno hynny â chyflwyno rhaglen 9 TGAU wedi'u capio erbyn mis Medi 2017. Bydd y cyfuniad hwn o newidiadau yn golygu y bydd staff addysgu mewn pynciau anstatudol ar

wahân i'r 9 pwnc wedi'u capio yn treulio llai o amser ar eu pwnc arbenigol o ddewis, a mwy o amser yn addysgu cwricwlwm yn gysylltiedig â'r Fagloriaeth. Mae'r newidiadau hyn eisoes yn effeithio ar ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin a Choleg Sir Gâr a byddant yn effeithio ymhellach ar staff pwnc arbenigol dros y blynyddoedd sydd i ddod wrth i'r Fagloriaeth gael ei chyflwyno i'r holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16.

Mae rhoi'r Fagloriaeth ddiwygiedig ar waith eisoes wedi bod yn heriol yn ystod blwyddyn academaidd 2015-2016. Mae'r ffaith i fanylebau diwygiedig y cyrsiau gyrraedd yn hwyr, a'r ffaith bod gofynion newydd yn gysylltiedig â'r e-bortffolio, yn golygu bod disgyblion, myfyrwyr a staff wedi'i chael yn anodd ymgymryd â'r cymhwyster yn gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad pellach o'r materion sy'n gysylltiedig â Bagloriaeth Cymru yn gynnar yn 2016. Y gobaith yw y bydd yr adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r problemau presennol y mae ysgolion a cholegau yn eu hwynebu.

Yn cyd-redeg â'r newidiadau i Fagloriaeth Cymru, mae bellach gofyn i bob person ifanc mewn chweched dosbarth ac mewn addysg bellach nad ydynt wedi llwyddo i ennill cymhwyster TGAU Mathemateg a Saesneg ailsefyll y cymwysterau hyn fel rhan o'u rhaglen astudio ôl-16. Nid oes arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i gyflawni hyn, gan roi pwysau ariannol a phwysau o ran amserlennu a staffio ar ysgolion a cholegau.

Ni fydd yn orfodol cyflwyno'r Fagloriaeth i bob disgybl mewn ysgolion a cholegau hyd at fis Medi 2020. Ond cred yr awdurdod lleol a Choleg Sir Gâr bod y Fagloriaeth yn rhan hanfodol o gwricwlwm datblygol Sir Gaerfyrddin gan fod y cymhwyster yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i lwyddo mewn bywyd, y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr, a'r sgiliau hynny sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn effeithiol i addysg uwch.

6.16 System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion (2015)

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Diben y system yw nodi'r ysgolion hynny sydd angen y cymorth mwyaf, a gwneud yn siŵr bod cymorth ac adnoddau yn cael eu cyfeirio yn y modd mwyaf effeithiol, er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen yn y system ysgol.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi esboniad manwl o dri cham y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion:

- Perfformiad a safonau
- Hunanwerthuso a'r gallu i hunanwella mewn perthynas ag arwain ac addysgu;
- Gwella ysgolion drwy gonsortia addysg rhanbarthol a chategoreiddio dysgu, a lefel o gymorth, her ac ymyrraeth.

Datblygodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau hyn gyda'r consortia rhanbarthol cyn eu cyhoeddi ac roedd y wybodaeth hon ar gael i gynghorwyr her y consortia wrth gategoreiddio'r ysgolion ym mlwyddyn 2014-2015. Ym mis Chwefror 2015, roedd 4 o ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin (33%) yn y categori Gwyrdd (rhagorol), 6 (50%) yn Felyn (da) a 2 (17%) yn Ambr (boddhaol). Ni chafodd yr un ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin ei rhoi yn y categori Coch (angen cymorth dwys). Dyma sefyllfa sy'n newid cadarnhaol o gymharu â blwyddyn 2014-2015, gydag 83% o'r ysgolion yng nghategorïau Gwyrdd neu Felyn, o gymharu â 65% ar draws rhanbarth ERW.

6.17 Dyfodol Llwyddiannus – Adolygiad Donaldson (2015 hyd y presennol)

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a gynhaliwyd gan yr Athro Graham Donaldson, ac yntau wedi gwneud gwaith tebyg yn yr Alban yn flaenorol. Nod yr adolygiad oedd darganfod cryfderau a gwendidau'r cwricwlwm presennol.

Dyma'r cryfderau a nodwyd:

- Tegwch a chynhwysiant;
- Cymorth i Anghenion Addysgol Arbennig drwy Ar Drywydd Dysgu;
- Y Cyfnod Sylfaen;
- Y pwyslais ar lythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach;
- Diwylliant Cymru a'r Gymraeg;
- Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig.

Dyma'r gwendidau a nodwyd yn yr adolygiad:

- Gormodedd, afreidrwydd a chymhlethdod addasiadau olynol;
- Y cwricwlwm presennol heb fod yn galluogi pobl ifanc i gyrraedd safonau a nodir;
- Asesu ac atebolrwydd wedi'u cydblethu mewn ffordd ddi-fudd.

Hefyd, meddai athrawon wrth yr Athro Donaldson yr hoffent allu penderfynu beth byddent yn dysgu yn eu pynciau a sut. Meddai plant a phobl ifanc wrth yr arolwg eu bod eisiau mwy o ffocws ar sgiliau bywyd, hyder personol, sgiliau sylfaenol, sgiliau gwaith, cyngor ar yrfaoedd a lles.

O feddu ar yr adborth hwn, cynigodd Donaldson i gwricwlwm newydd gael ei ddatblygu, gyda phedwar diben clir o ddatblygu pobl ifanc i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith;
- Dinasyddion Cymru a'r byd sy'n foesegol a deallus;
- Unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaol fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas;

Yn ôl Donaldson, mae strwythur y cwricwlwm presennol yn rhy gymhleth ac mae angen ei symleiddio a'i wneud yn fwy cydlynol. Mae'r strwythur presennol yn rhwystro llif a dilyniant mewn dysgu ac yn atal y cwricwlwm rhag bod yn ymatebol i anghenion lleol. Cred Donaldson y dylid datblygu dull gweithredu mwy cyson sy'n cwmpasu'r cyfnodau Cynradd ac Uwchradd hyd at Gyfnod Allweddol 3 o leiaf. Pwysleisia'r angen am ddefnydd mwy dychmygus o amser, ac estyniad i ddull y Cyfnod Sylfaen o weithredu, lle caiff meysydd dysgu eu defnyddio yn hytrach na phynciau. Argymhellir hefyd bod pob athro yn gyfrifol am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Cynghora'r adolygiad bod angen i'r iaith Gymraeg gael ei chryfhau oddi mewn i'r cwricwlwm gan gynnig y dylai pob plentyn a pherson ifanc barhau i ddysgu'r Gymraeg hyd nes eu bod yn 16 oed. Nodir yr angen i wella ansawdd a pherthnasedd addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Awgryma'r adolygiad fod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod yn ganolfannau iaith Gymraeg i roi cymorth i ysgolion cyfrwng Saesneg.

Dylid defnyddio gwaith ymchwil ar ddilyniant dysgu plant wrth ddatblygu disgrifiadau o gyrhaeddiad disgwyliedig. Dylent fod yn heriol a hygyrch, a chynnig cyfleoedd i wyro fel eu bod yn addas i fyfyrwyr sy'n rhagori a rhai sy'n gwneud cynnydd yn arafach.

Awgryma'r adolygiad bod gweithdrefnau asesu yn cael eu symleiddio ac y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith asesu a gwerthuso cyffredinol fel a argymhellir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Awgryma'r adroddiad ddefnyddio asesiadau athro ynghyd â phrofion allanol i asesu.

Mae i'r argymhellion oblygiadau sylweddol i ddatblygiad proffesiynol athrawon ac ymarferwyr eraill ledled Cymru ac yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys:

- yr angen i ymestyn gallu athrawon ym meysydd yr iaith Gymraeg, iechyd a lles;
- cymhwysedd digidol, cyfrifiadureg a chodio;
- cynllunio'r cwricwlwm ac asesu.

Ar ôl cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus, bu i Lywodraeth Cymru annog pawb sy'n ymwneud ag addysg i gymryd rhan yn "Y Ddadl Fawr" i ffurfio datblygiad y polisi hwn. Erbyn mis Rhagfyr 2015, nid yw goblygiadau llawn Adroddiad Donaldson i'r cwricwlwm yng Nghymru a Sir Gaerfyrddin eto'n glir, er bod yr ysgolion arloesi yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer rhaglen Dyfodol Llwyddiannus bellach wedi'u nodi. Mae gweithredu diwygiadau Donaldson ar y cwricwlwm 3-19 yn destun adroddiad pwysig gan yr awdurdod lleol (*Palmantu'r Ffordd* / Paving the Way) sy'n ategu'r adolygiad hwn a'r argymhellion cysylltiedig.

6.18 Ysgolion Creadigol Arweiniol (2015)

Nod Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru yw hybu ffyrdd newydd i weithio, ac mae rhaglenni arloesol a phwrpasol wedi'u llunio i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu. Lluniwyd Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i gydweithio ag ysgolion a darparu'r bobl, y sgiliau a'r adnodau creadigol sydd eu hangen i helpu ysgolion i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Bydd y cynllun yn datblygu technegau dysgu ac addysgu sydd wedi'u datblygu'n dda ac sydd wedi'u llunio'n benodol i fod yn ymarferol a pherthnasol i alwadau bywyd go iawn y cwricwlwm. Caiff y technegau hyn eu cyfarwyddo gan waith ymchwil helaeth o bob rhan o'r byd i'r hyn sy'n gwneud ysgolion sy'n perfformio ar lefel uchel. Nod yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yw meithrin a datblygu creadigrwydd dysgwyr fel eu bod yn cyflawni'u potensial, yn tyfu i fod yn unigolion cyflawn ac wedi'u paratoi â sgiliau am oes.

Mae Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn caniatáu i ysgolion fod yn rhan o raglen hirdymor sydd â'r nod o'u cynorthwyo i:

- weithio gydag Ymarferwyr Creadigol yn eu hystafelloedd dosbarth i drawsnewid y dysgu a'r addysgu;
- dyfeisio a gweithredu prosiect neu raglen o waith yn gysylltiedig â blaenoriaethau datblygu unigol yr ysgolion;
- darganfod dulliau creadigol i fynd i'r afael â llythrennedd, rhifedd a lleihau'r bwlch rhwng dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion;
- ymwreiddio newidiadau yn yr arferion addysgu gan arwain at effaith gynaliadwy;
- rhoi lle canolog i'r celfyddydau a chreadigrwydd ym mywyd yr ysgol;

- derbyn cydnabyddiaeth am eu hymroddiad i wella drwy ddysgu ac addysgu creadigol a'r celfyddydau.

Daw'r arian ar gyfer yr Ysgolion Creadigol Arweiniol o gyllideb o £20 miliwn a ddyrannwyd i weithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau rhwng 2015 a 2020. Bydd yr ysgolion yn dechrau elwa o'r cynllun yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Yn ystod oes y cynllun, rhagwelir y bydd traean yr ysgolion yng Nghymru wedi cael y cyfle i fod yn rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol Sir Gaerfyrddin bellach wedi'u nodi a bydd y gwaith i weithredu'r rhaglen hon yn cychwyn yn gynnar yn 2016.

6.19 Blaenoriaethau Gweinidogol Blynyddol ar gyfer Colegau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol (2015)

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn nodi'r blaenoriaethau blynyddol ar gyfer sectorau Addysg Bellach ac ysgolion ôl-16 Awdurdodau Lleol ym mis Mai bob blwyddyn er mwyn paratoi at y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Ar gyfer blwyddyn 2016-2017, y blaenoriaethau hyn yw:

- **Swyddi a thwf** gan gynnwys dulliau o gydweithio i ddatblygu prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mesurau perfformiad sgiliau, datblygiad y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac ymgysylltu â chyflogwyr a mentergarwch;
- **Cynaliadwyedd ariannol** gan gynnwys cyd-fuddsoddi mewn sgiliau;
- **Cydraddoldeb a thegwch** gan gynnwys Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, datblygu Rhwydwaith Seren i'r bobl ifanc mwyaf galluog, llythrennedd a rhifedd, yr iaith Gymraeg, safonau, dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau:
- **Meincnodi sgiliau rhyngwladol** gan gynnwys ansawdd, safonau a dilyn trywydd cyrchfannau dysgwyr, fframweithiau prentisiaethau, Bagloriaeth Cymru, corff newydd Cymwysterau Cymru, cofrestru addysg gweithlu.

Roedd y Gweinidog hefyd yn gofyn i sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol barhau i ddarparu Dysgu Oedolion yn y Gymuned, datblygu ymhellach y defnydd o e-ddysgu, a chydweithio'n agos â'r consortia gwella ysgolion rhanbarthol wrth ddatblygu darpariaeth yn strategol. Roedd disgwyl hefyd y byddai pawb sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-16 yn parhau i ddatblygu diwylliant o dryloywder a chydweithio, a sicrhau arbedion effeithlonrwydd a'r defnydd gorau o adnoddau drwy'r cydweithio hwn. Tra bo gwaith partneriaeth yn y sir yn mynd i'r afael â'r materion hyn a godwyd gan y Gweinidog, mae argymhellion yr adolygiad hwn yn dwyn ynghyd nifer o themâu pellach i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd.

6.20 Rhwydwaith Seren (2015)

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad gan Paul Murphy AS a nodai'r ffactorau sy'n cyfrannu at y niferoedd isel o bobl ifanc o Gymru sy'n mynd ymlaen i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Roedd yr adroddiad yn argymell sefydlu rhwydwaith o hybiau lleol i gynnig gweithgarwch cyfoethogi i ddisgyblion ysgol a choleg ym Mlwyddyn 12 a fyddai'n eu paratoi i ymgeisio am leoedd yn 30 prifysgol mwyaf cystadleuol Prydain, Ymddiriedolaeth Sutton. Yn dilyn gwaith datblygu yn 2015, lansiwyd Hwb Seren Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro ym mis Chwefror 2016, gyda 330 o bobl ifanc galluog a dawnus o bob rhan o'r ddwy sir wedi'u nodi yn gyfranogwyr posibl. Mae rhaglen o weithgareddau cyfoethogi wedi'i chynllunio i'r grŵp hwn o bobl ifanc yn 2016-2017, gyda grŵp gweithredol

ar y cyd o staff ysgolion, colegau addysg bellach a staff awdurdod lleol yn goruchwylio'r gwaith.

6.21 Adroddiad Blynyddol Estyn 2015

Mae Adroddiad Blynyddol Estyn 2015 yn cyfeirio at nifer o themâu sy'n berthnasol iawn i'r adroddiad hwn. Caiff newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru eu trafod yn fanwl. Nodir bod cryfderau'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd da i'w gweld pan fo ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a cholegau i ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae ehangu'r cwricwlwm fel hyn yn cynnwys llwybrau galwedigaethol yn gysylltiedig â'r economi lleol a rôl Bagloriaeth Cymru wrth ehangu dealltwriaeth o fenter, dinasyddiaeth a byd gwaith. Pwysleisir ymrwymiad ysgolion sy'n perfformio ar lefel uchel i ddatblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol a moesol ehangach y disgyblion a hybu ffyrdd iach o fyw. Caiff amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, artistig, cerddorol a chwaraeon hefyd eu nodi yn elfennau creiddiol i ddatblygu dysgwyr hyderus sydd wedi'u paratoi'n dda at astudio pellach a chyflogaeth.

Er mwyn cyflawni'r cwricwlwm eang a diddorol hwn, noda Estyn bwysigrwydd cynllunio dychmygus gan uwch reolwyr sy'n eu galluogi i arloesi a datblygu arferion dysgu ymreolus trawsgwricwlaidd. Pwysleisir rôl ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol wrth gydweithio i ddatblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i ddysgwyr a sectorau allweddol yr economi lleol, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am bobl ifanc er mwyn gallu dilyn trywydd eu cynnydd yn well. Gan gysylltu'n agos â gweithredu pedwar diben craidd Dyfodol Llwyddiannus, noda Estyn y dylai ysgolion fod yn paratoi at weithredu'r cwricwlwm newydd drwy adeiladu ar yr arferion da presennol sydd wedi'u nodi yn y gwaith o ddylunio a datblygu cwricwlwm. Fel y bydd adrannau diweddarach yn yr adolygiad hwn yn nodi, mae llawer o'r ymarfer da hwn eisoes yn bodoli yn Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu bod y sir mewn sefyllfa dda i ddatblygu dull arloesol o ddatblygu cwricwlwm lleol.

6.22 Strategaethau Cenedlaethol – Crynodeb

Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, cafwyd cyfres o geisiadau gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid dulliau cyflenwi a darparu addysg a hyfforddiant 11-19 drwy bolisïau, strategaethau a deddfwriaeth newydd. Yn ystod y cyfnod hwn, ceisiodd mentrau Llywodraeth Cymru:

- gynorthwyo a herio ysgolion a cholegau i wella safonau a chanlyniadau dysgwyr;
- mynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi tlodi a'i effaith ar blant a theuluoedd;
- datblygu a chryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion a cholegau;
- sicrhau gwerth am arian a defnydd effeithiol o adnoddau;
- sicrhau cydlyniant a chysylltiadau cryf rhwng holl feysydd y ddarpariaeth ôl-16;
- hwyluso proses o uno a chydweithio;
- cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- mynd i'r afael â gostyngiadau yn nifer y disgyblion sydd mewn ysgolion drwy resymoli lleoedd ysgol;
- dwyn dulliau cyflenwi darpariaeth ôl-16 addysg bellach ac ysgolion ynghyd o dan yr un trefniant cyllido.

Tra bo'r nodau hyn i'w canmol, mae natur amrywiol ac weithiau datgysylltiedig polisi Llywodraeth Cymru yn cyflwyno heriau sylweddol i weithredu'r polisïau hyn yn

llwyddiannus ar lefel sir. Mae gweithredu'r newidiadau hyn yn rhanbarthol ac ar draws ffiniau awdurdodau lleol hyd yn oed yn fwy heriol.

Cafodd llawer o'r gwaith hwn ei ariannu gan grantiau unigol Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â meini prawf cyllido llym, ac yn parhau i gael ei ariannu felly. Yn y blynyddoedd diwethaf, gweinyddwyd rhai o'r grantiau hyn ar sail ranbarthol, gan alw am fiwrocratiaeth ychwanegol i reoli adnoddau yn effeithiol. Gall dulliau gwahanol o weithredu ar lefel awdurdod lleol hefyd olygu mai anodd yw datblygu dull cyson o fynd i'r afael â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar lefel rhanbarth. Ond o ystyried yr arferion cydgysylltiedig o ddatblygu cwricwlwm 11-19 sydd eisoes yn eu lle yn Sir Gaerfyrddin, bydd yr adolygiad hwn yn nodi sut gall yr heriau hyn barhau i gael eu goresgyn er mwyn diwallu anghenion plant, pobl ifanc, teuluoedd, cymunedau a'r economi lleol yn Sir Gaerfyrddin.

7.0 Y Cyd-destun Rhanbarthol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin a Choleg Sir Gâr yn ymrwymedig i weithio'n rhanbarthol ac i ddatblygu strategaeth gydlynol er mwyn cyflwyno addysg a hyfforddiant yn well i bobl ifanc. Mae'r ffaith bod amser ac ymdrech sylweddol y staff yn cael ei ymroi i weithgarwch rhanbarthol, fel rhan o waith dydd i ddydd uwch staff y ddau sefydliad, yn tystio i'r ymrwymiad hwn. Mae tri phrif grŵp presennol yn hwyluso'r arfer o weithio'n rhanbarthol.

7.1 Y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol

Mae'r Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol yn bartneriaeth strategol o bartneriaid addysg ac adfywio yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru sy'n gweithio i gyflawni: sgiliau ar gyfer swyddi a thwf, sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol, sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi, a sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Y mae'n bartneriaeth o gynrychiolwyr allweddol llywodraeth leol, addysg uwch, addysg bellach, y trydydd sector a'r sector preifat ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

7.1.1 Y Cynllun Cyflawni Lleol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru

Mae Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull strategol o ddarparu cymorth cyflogaeth a sgiliau i unigolion a busnesau, a fydd yn sylfaen i ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a ffynonellau arian eraill. Mewn ymateb i'r agenda gyflogaeth a sgiliau hon, mae'r Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol wedi helpu i ddatblygu Cynllun Cyflawni Lleol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru sy'n cydweddu'n strategol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Sgiliau (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014) a'r Cynllun Gweithredu dilynol (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014).

Mae'r cynllun hefyd yn ceisio cydweddu â blaenoriaethau Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a datblygiad Tyfu Canolbarth Cymru, er mwyn galluogi i ddarpariaeth sgiliau a dysgu ddiwallu anghenion economaidd y rhanbarth a'r farchnad lafur dros y degawd nesaf a thu hwnt.

Ym mis Hydref 2014, bu i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Julie James AC, gyhoeddi'n ffurfiol strwythurau'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol a fydd yn datblygu a chyhoeddi cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol blynyddol. Bydd y rhain yn nodi blaenoriaethau buddsoddi yn ogystal â'r galw a'r cyfleoedd yn lleol. Cyflwynwyd pedwerydd fersiwn y cynllun i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015, a bydd gofyn cyflwyno cynllun blynyddol diwygiedig erbyn mis Mawrth 2016.

Mae'r Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol yn datblygu ymyriadau rhanbarthol drwy bedwar grŵp fframwaith – Pobl Ifanc Rhanbarthol, Cyflogadwyedd Oedolion Rhanbarthol, Sgiliau ar gyfer Twf Rhanbarthol ac Entrepreneuriaeth Rhanbarthol. Mae'r ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth anghenion sgiliau a chyflogaeth rhanbarthol, ac yn ategu'r cynlluniau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaeth i uwchsgilio'r gweithlu, a chymorth i gael mynediad i'r gweithle a symud ymlaen oddi mewn i'r gweithle, ac ymateb i amodau a blaenoriaethau economaidd rhanbarthol penodol. Y mae hefyd yn cynnwys gweithgarwch ieuenctid sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth.

Datblygwyd y fframweithiau gan y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol i sefydlu dull cydlynol o weithredu, lleihau achosion o brosiectau'n dyblygu gwaith ei gilydd, a sefydlu gweithdrefnau atgyfeirio. Mae pob fframwaith yn ddull strategol i fynd i'r afael â thema benodol neu garfan benodol o gyfranogwyr, gyda nifer o brosiectau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi'u neilltuo i bob un.

Er mwyn osgoi achosion o ddyblygu gwaith a nodi bylchau mewn gweithgarwch, caiff prosiectau a weithredir gan sefydliadau cenedlaethol, e.e. Llywodraeth Cymru, eu cynnwys yn y fframweithiau. Wrth i geisiadau am gyllid allanol gael eu cymeradwyo yn y dyfodol, caiff y fframweithiau eu defnyddio yn offeryn i nodi'r galw sy'n codi, y ddarpariaeth bresennol a'r bylchau o ran sgiliau. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob partneriaeth sgiliau rhanbarthol ddatblygu Asesiadau Galw a Chyflenwi i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Cynllunio Cyflawni Rhanbarthol erbyn mis Medi 2015.

Mae Cynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru yn nodi rôl allweddol i bartneriaethau sgiliau rhanbarthol drwy fod yn fodd i gynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau rhanbarthol yn y dyfodol o ran ariannu sgiliau yn unol ag anghenion cyflogaeth a sgiliau. Yr Asesiad Galw a Chyflenwi ym mhob rhanbarth yw'r dull i bartneriaethau ddarparu'r sylfaen dystiolaeth hon i Lywodraeth Cymru. Y mae hefyd yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar flaenoriaethu arian mewn meysydd allweddol.

Bydd yr Asesiadau Galw a Chyflenwi yn y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar Ddyraniadau Dysgu Seiliedig ar Waith gan gynnwys Prentisiaethau 2016-17 ac Adleoli Cyllid Addysg Bellach 2016 – 17 (ôl-16). Bydd yr Asesiadau yn canolbwyntio ar 3-4 blaenoriaeth allweddol i ddylanwadu ar ddyraniad Prentisiaethau ac adleoli cyllid addysg bellach. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn adrodd yn ôl i'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol erbyn mis Gorffennaf 2016 ar sut y dylanwadwyd ar ddyraniadau cyllid o ganlyniad i broses yr Asesiadau Galw a Chyflenwi yn ogystal â ffyrdd i wella'r broses sy'n cael ei pheilota ar gyfer dyraniadau 2016-17 yn y dyfodol.

Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu, a bydd yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau addysg bellach a deiliaid contractau dysgu seiliedig ar waith. Caiff yr asesiad ei rannu'n ddwy i adlewyrchu ardaloedd daearyddol Tyfu Canolbarth Cymru a Bwrdd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

7.2 Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

Lansiwyd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'n cwmpasu pedair ardal awdurdod lleol, sef Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae cydweithio fel Dinas-Ranbarth yn rhoi cyfle i'r awdurdodau lleol hyn fynd i'r afael ag adfywio economaidd mewn ffyrdd newydd, gan gynnwys:

- Marchnadoedd llafur mwy o faint a mwy effeithlon ac felly gwell rhagolygon i greu swyddi;
- Cyfleoedd i gynllunio'n well ar gyfer tai, trafnidiaeth, cymorth i fusnesau a gwasanaethau eraill y tu hwnt i ffiniau gweinyddol presennol;
- Gwell rhagolygon i ddenu buddsoddiad, arloesedd a gweithgarwch economaidd gwerth ychwanegol.

Nod Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yw i dde-orllewin Cymru fod yn Ddinas-Ranbarth Ewropeaidd erbyn 2013 sy'n hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig, ac sydd â chydnabyddiaeth ryngwladol am ei heconomi ddatblygol ym maes gwybodaeth ac arloesi. Targed allweddol lefel uchel y Strategaeth yw bod lefelau cynhyrchiant yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe erbyn 2030 unwaith eto ar 90% o lefelau cynhyrchiant y Deyrnas Unedig.

Mae'r strategaeth gysylltiedig, Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2020, yn pwysleisio pryderon ynglŷn â lefelau sgiliau yn y rhanbarth, gan ddweud: "*Mae diffygion [sgiliau] sylweddol ar draws ein Dinas-Ranbarth. Mae gennym brinder pobl sydd â chymwysterau lefel uwch a gormod o bobl heb gymwysterau o gwbl".* Yn Sir Gaerfyrddin, mae gan 23.9% o'r boblogaeth gymwysterau lefel 4 ac uwch o gymharu â chyfartaledd o 30.3% yng Nghymru, ac mae 26.8% o'r boblogaeth heb gymhwyster o gwbl, o gymharu ag 11.4% yn genedlaethol (Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Bydd y Cynllun Datblygu Rhanbarthol yn gweithredu Nod Strategol 2 (cynorthwyo i ddatblygu gweithlu medrus ac uchelgeisiol ar draws de-orllewin Cymru) Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (t23). Blaenoriaethau allweddol y nod hwn yw:

- Adeiladu sgiliau mewn addysg;
- Symud i mewn i waith;
- Cynyddu'r galw a gwella sgiliau.

Mae strategaeth Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn nodi mai un o'r amcanion ddylai fod "sicrhau bod darpariaeth addysg bellach ac uwch yn y ddinas-ranbarth yn cynnig cymorth hyblyg sy'n cydweddu'n llwyr ag anghenion cyflogwyr a'r sectorau twf ym maes gwybodaeth yn yr economi lleol, a bod y ddarpariaeth yn cael ei ffurfio gan yr anghenion hynny."

Mae'r Strategaeth hefyd yn galw am ffocws ar "wella cyrhaeddiad ac uchelgais yn ein hysgolion sy'n perfformio isaf i sicrhau bod gan bobl ifanc, pan fyddant yn gadael y system addysg, y sgiliau a'r cymwysterau a fydd yn caniatáu iddynt symud ymlaen i swyddi o ansawdd uchel". Caiff sectorau uwch-weithgynhyrchu, creadigol, ynni a'r amgylchedd, bwyd (gan gynnwys amaethyddiaeth), TGCh, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, gwyddorau bywyd a thwristiaeth eu nodi yn allweddol i ffyniant y ddinas-ranbarth. Mae'r strategaeth hefyd yn cydweddu â blaenoriaethau strategaethau adfywio Ceredigion a Phowys sy'n ffinio â'r ddinas-ranbarth.

Mae datblygiadau cyfalaf posibl i'r dyfodol yng Ngholeg Sir Gâr eisoes wedi'u cydweddu â blaenoriaethau Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Rhaid i'r gwaith cyffredinol o ddatblygu addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin gael ei ystyried yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach hwn a chaiff ei gyfarwyddo gan waith Dinas-Ranbarth Bae Abertawe hyd yma ac yn y dyfodol.

7.3 Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Consortiwm ERW

Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fodel Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Roedd y model cenedlaethol hwn yn amlinellu'r weledigaeth o gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol yn ogystal â pha rôl fyddai i bob haen (ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru) yn y system addysg (Llywodraeth Cymru, 2014a).

Mae'r model cenedlaethol yn cwmpasu'r elfennau canlynol mewn pum adran allweddol:

1. cenhadaeth, gwerthoedd ac egwyddorion gwella ysgolion;
2. cwmpas consortia rhanbarthol;
3. cyflawni swyddogaethau consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol;
4. llywodraethu ac atebolrwydd;
5. trefniadaeth a gweithrediad y consortia.

Yn dilyn cyhoeddi'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion, diwygiwyd Consortiwm ERW ym mis Ebrill 2014. Mae'r Consortiwm yn cynnwys chwe Awdurdod Lleol; Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys, Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe. Diben ERW yw cyflawni un gwasanaeth gwella ysgolion sy'n gyson, proffesiynol ac integredig, i blant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau yn y chwe awdurdod lleol. Blaenoriaethau ERW yn 2015-2018 yw Arwain Dysgu, Dysgu ac Addysgu a Chymorth i Ddysgu. Caiff y rhain eu cynorthwyo gan ffrydiau gwaith trawsbynciol i'w diwygio'n flynyddol yn dibynnu ar anghenion a newidiadau gweithredol.

Caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu cyflawni drwy strwythur model 'hwb'. Yn lleol, mae awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn cydweithio i herio perfformiad ysgolion a gwella dysgu ac addysgu. Mae hwb y consortiwm yn darparu gwasanaeth gwella ysgolion i 192 o ysgolion, a chaiff y gwaith ei oruchwylio gan rôl Pennaeth Gwasanaeth ar y cyd. Mae timau'n cyflenwi her ac ymyrraeth cychwynnol oddi mewn i feysydd penodol ac yn gweithio gydag arbenigwyr amlddisgyblaethol. Mae gwella arweinyddiaeth ysgolion yn dasg allweddol ar draws yr hwb, ac felly hefyd waith y Cynghorwyr Herio wrth gyd-drefnu cymorth amrywiol a symud yr agenda ysgol-i-ysgol yn ei blaen. Mae cynghorwyr herio'r hwb hefyd yn gweithio ar draws y rhanbarth yn unol â chytundeb y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol y mae'r ddau awdurdod yn rhan ohono.

7.4 Cynnydd a Cham Nesa, Prosiectau Rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Ers i Ymgysylltu ddod i ben yn 2014 – prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop i leihau nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) – bu partneriaid ledled de-orllewin Cymru yn gweithio ar gais am brosiect olynol oddi mewn i raglen yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2016-2020. Cyngor Sir Penfro a fu'n arwain ar y broses o ymgeisio am y prosiect newydd (Cynnydd) sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Cheredigion, ynghyd â'r colegau addysg bellach ym mhob un o'r ardaloedd hyn, a Gyrfa Cymru. Er i'r oedi cyn cymeradwyo'r rhaglen olygu bod y dyddiad cychwyn a fwriadwyd yn 2015 bellach wedi

mynd heibio, bydd cais am £18M yn cael ei gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ym mis Mawrth 2016, gyda'r disgwyl y caiff y prosiect ei lansio ym mis Ebrill 2016. Yn Sir Gaerfyrddin, mae cais Cynnydd yn debygol o ddenu cyllid ychwanegol o £2M o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i'w ddefnyddio ar gyfer systemau cymorth ieuenctid i atal pobl ifanc 11-19 yn yr ysgolion ac yng Ngholeg Sir Gâr rhag mynd ymlaen i fod yn NEET.

Yn ychwanegol at brosiect Cynnydd, mae cais rhanbarthol pellach (Cam Nesa) ar y gweill, sef cais am adnoddau ychwanegol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi pobl ifanc 16-25 oed sydd ar hyn o bryd yn NEET yn Sir Gaerfyrddin. Y disgwyl yw y caiff y cais hwn ei gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn haf 2016.

7.5 Cyd-destun Rhanbarthol – Casgliadau

Mae gweithio ar lefel ranbarthol i wella addysg a datblygu economaidd yn dangos sut caiff blaenoriaethau cenedlaethol eu cyflawni, a hynny drwy amrywiaeth eang o drefniadau cydweithio. Mae'r trefniadau hyn yn ceisio gwella ansawdd, creu arbedion effeithlonrwydd, a chynnig un trywydd er mwyn rhoi ffocws i gyflawni'r gwaith. Yn cwmpasu'r agenda ranbarthol y mae Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2030. Canolbwynt y strategaeth hon yw datblygu sgiliau, manteisio i'r eithaf ar gyfleodd swyddi a darparu continwwm dysgu o'r ysgolion ymlaen i addysg bellach ac uwch er mwyn hybu ymwybyddiaeth o werth uwchsgilio a'r cyfleoedd datblygu sydd ynghlwm wrth hyfforddiant pellach. Mae'r datblygiadau rhanbarthol hyn yn cysylltu'n agos â mentrau partneriaeth ar lefel awdurdod lleol sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd a gwaith yn Sir Gaerfyrddin.

8.0 Y Cyd-destun Lleol: Trosolwg o Sir Gaerfyrddin

O ran arwynebedd, Sir Gaerfyrddin yw'r trydedd sir fwyaf yng Nghymru (2365 cilomedr sgwâr) a'r bedwaredd sir fwyaf o ran poblogaeth (184,681). Er mai sir wledig yw Sir Gaerfyrddin ar y cyfan, gyda dwysedd poblogaeth yn 2012 o 76.7 o bobl i bob cilomedr sgwâr (y 19eg yng Nghymru), Llanelli yw pumed ardal drefol fwyaf Cymru ac mae poblogaethau sylweddol wedi'u lleoli yn nhrefi Caerfyrddin, Rhydaman a Phorth Tywyn.

Mae gan Sir Gaerfyrddin dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a'i hunaniaeth ei hun sy'n gwneud y sir yn nodedig. Dyma'r sir sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a datblygodd ei Strategaeth Iaith Gymraeg ei hun mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r iaith. Mae rôl allweddol i'r Gymraeg ym mywyd Sir Gaerfyrddin, gyda 43.9% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad yr iaith, a chan 58.1% o'r boblogaeth un neu ragor o sgiliau yn y Gymraeg.

Mae Ystadegau Cymru yn rhagweld y bydd nifer y bobl yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu tua 14,000 (7.7%) i 198,000 yn 2026, er bod llawer o'r cynnydd hwn yn ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio. Ar hyn o bryd, pobl ifanc (0-18 oed) yw 21% o gyfanswm y boblogaeth, mae 57% o'r bobl rhwng 19 a 64 oed ac mae 22% dros 65 oed. Bu twf Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yn ne-orllewin Cymru yn gyson is na'r twf yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf, ac ystyrir bod 38% o'r aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi. Ym mis Mawrth 2011 roedd 8,430 o unedau busnes wedi'u cofrestru yn Sir Gaerfyrddin. O'r rhain, roedd 76% yn fusnesau bach a chanddynt 4 neu lai o gyflogeion, sy'n uwch na chyfradd Cymru gyfan o 66.4%.

Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, bydd gostyngiad bach (1.7%) yn y boblogaeth 0-15 oed rhwng 2008 (22,187) a 2023 (21,799). O ran y rhai 16-64 oed, mae gostyngiad o 1.5% rhwng 2008 (70,871) a 2023 (69,818). Rhagwelir y bydd poblogaeth yr ysgolion uwchradd yn cynyddu 337 o fis Ionawr 2015 (11,278) i fis Ionawr 2021 (11,615). Amcanestynnir y bydd poblogaeth chweched dosbarth yn gostwng gan 1716 o Ionawr 2014 hyd Ionawr 2020 (13,331 o ddisgyblion i 13187 o ddisgyblion).

Mae yn Sir Gaerfyrddin ardaloedd sydd â lefelau sylweddol o amddifadedd. Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn 2014, mae yn y sir 25 o ardaloedd sydd ymhlith y 30% o wardiau o amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn (60%) wedi'u lleoli yn ardal Llanelli (15), gydag 20% yn ardal Rhydaman (5), 12% yn ardal Gwendraeth (3) ac 8% yn ardal Caerfyrddin (2). Oddi mewn i Sir Gaerfyrddin, mae 18% o'r disgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â ffigwr Cymru gyfan o 19.7%.

Yn 2012, prif sectorau cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn ôl niferoedd staff amser llawn a rhan-amser oedd iechyd (12,500 o gyflogeion), manwerthu (8,500), amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (7,391), addysg (6,400), gweithgynhyrchu (6,100) a gweinyddiaeth gyhoeddus (4,700).

Y prif sectorau busnes yn Sir Gaerfyrddin yn 2013 oedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (2,140 o unedau busnes), manwerthu (850), adeiladu (770), proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (525), a llety a gwasanaethau bwyd (520). Microfusnesau a busnesau bach a chanolig yw mwyafrif y busnesau yn Sir Gaerfyrddin. Felly hanfodol yw'r angen i hyrwyddo a chynorthwyo menter, arloesedd ac entrepreneuriaeth. Yn 2012, roedd 70% o gyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn y sector preifat. Sector blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sydd â'r nifer fwyaf o unedau yn lleol yn 2012 oedd bwyd a ffermio (2,170).

Amcanestynnir y bydd cyfanswm y nifer sy'n gyflogedig yn amrywio yn ystod cyfnod 2013 i 2030, gydag isafbwynt y cyfnod o 72,700 yn 2015, cyn cynyddu hyd at uchafbwynt o 78,400 yn 2030. Amcanestynnir cyfanswm o gynnydd o 5,600 mewn cyflogaeth rhwng 2013 a 2030. Y prif sectorau yr amcanestynnir twf swyddi ynddynt erbyn 2030 yw iechyd (8,900), masnach fanwerthu (8,600), addysg (7,100), adeiladu (6,700), a phreswyl a chymdeithasol (6,600). Mae cyfanswm nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau allan o waith yn is na chyfartaledd Cymru: 1.6% yn Sir Gaerfyrddin yn erbyn 1.9% yng Nghymru. O'r rhai sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith, mae 2.8% ohonynt yn y garfan 18-24 oed, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 2.7%.

Yn ôl data 2014-2015, bu gostyngiad o *-9.6%* (-194) yn nifer hawlwyr lwfans ceisio gwaith, o 2,019 ym mis Tachwedd 2014 i 1,825 ym mis Tachwedd 2015. Mae ffigurau Cymru yn yr un cyfnod yn dangos gostyngiad o -22%. Sir Gaerfyrddin bellach yw'r 6^{ed} awdurdod isaf yng Nghymru o ran hawlwyr lwfans ceisio gwaith (ffigurau wedi'u cyfrifo ar sail y boblogaeth 16-64 oed).

Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, bydd nifer yr aelwydydd yn y sir yn cynyddu o 81,102 yn 2015 i 85,408 erbyn 2023. Y mae'n debygol y bydd y cynnydd hwn yn y boblogaeth yn cael ei achosi'n bennaf gan gynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn (65+ oed). Er y rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn tyfu, pobl o oedran ymddeol a rhai sydd yn economaidd anweithgar yw llawer o'r twf hwn. Felly er mwyn sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn ffynnu yn y dyfodol, y mae rheidrwydd i addysgu a hyfforddi pobl ifanc i ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol y dyfodol. Er gwaethaf y camau

presennol i gadw pobl ifanc yn y sir, mae nifer sylweddol yn gadael yr ardal i dderbyn addysg uwch a/neu i fanteisio ar gyfleodd swyddi. Mae anawsterau hefyd o ran y ffaith nad oes gan rai pobl ifanc y sgiliau neu'r diddordeb i ymgymryd â'r swyddi sydd ar gael mewn rhai sectorau allweddol yn lleol.

8.1 Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin

Trefniant gwirfoddol yw'r **Bwrdd Gwasanaethau Lleol** sy'n dwyn ynghyd arweinwyr a phrif weithredwyr sefydliadau allweddol, cynrychiolwyr y sectorau gwirfoddol a chymunedol, ac uwch was sifil yn Llywodraeth Cymru. Ei ddiben yw cynllunio gwasanaethau i oresgyn rhwystrau er wyn sicrhau bod pob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau yn Sir Gaerfyrddin yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf. Mae cynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn sicrhau bod gan gymunedau lleol lais, ac mae'r uwch was sifil yn Llywodraeth Cymru yn cynnig cyswllt rhwng buddiannau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob 2 fis a chaiff ei gadeirio gan Barry Liles, Prifathro Coleg Sir Gâr. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhan o rwydwaith ehangach o bartneriaethau sydd, gyda'i gilydd, yn cael eu galw'n Bartneriaeth Sir Gaerfyrddin. Mae'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin 2011-2016 ac mae'n adrodd ar gynnydd i Fforwm Blynyddol. Mae Canlyniad 2 y Strategaeth Gymunedol Integredig yn pwysleisio'r angen hwn: "Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu". Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn bwriadu cyflawni'r deilliant hwn drwy:

- gwella sgiliau dysgwyr o bob oed ym meysydd llythrennedd, rhifedd, TG, dwyieithrwydd a chyfathrebu;
- sicrhau bod y modd yr asesir dysgwyr yn gyson ac yn drylwyr;
- datblygu arweinwyr ysgolion sydd â'r sgiliau i weithio'n gydweithredol;
- buddsoddi yn y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif;
- codi lefel dyheadau pob plentyn, ac yn benodol plant sy'n derbyn gofal;
- cyflenwi cwricwlwm amrywiol, sy'n cynnwys opsiynau galwedigaethol;
- meithrin pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i ddod yn arweinwyr cymunedol;
- darparu addysg llythrennedd ariannol mewn ysgolion.

Caiff llawer o'r amcanion hyn eisoes eu cwmpasu gan waith partneriaeth a byddant hefyd yn rhan sylweddol o argymhellion yr adolygiad hwn. O fis Mawrth 2016, bydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin yn cael ei ailstrwythuro, gyda 3 grŵp thematig diwygiedig (Cymunedau Ffyniannus a Chadarn, Cymunedau Iachach, Cymunedau Teg a Diogel) a'u cyfrifoldeb fydd cyflawni blaenoriaethau'r bwrdd. Bydd datblygu cwricwlwm 11-19 Sir Gaerfyrddin yn rhan greiddiol o elfen ffyniant economaidd yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn y dyfodol.

8.2 Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2015-2020

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi blaenoriaethau strategol y Cyngor a dyhead o weledigaeth o ddyfodol y sir. Mae'r blaenoriaethau strategol a'r dyheadau hyn yn cydweddu â'r canlyniadau amlasiantaethol ar gyfer y sir gyfan a nodwyd yn Strategaeth Gymunedol Integredig y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac yn canolbwyntio ar wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl Sir Gaerfyrddin.

Mae dwy o'r blaenoriaethau strategol yn y Strategaeth Gorfforaethol yn arbennig o berthnasol i'r adroddiad hwn. Maent yn cysylltu'n agos â'r ffactorau economaidd a demograffig y cyfeirir atynt uchod. Er mwyn sicrhau bod *pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu*, bydd gofyn canolbwyntio ar:

- Gwelliannau parhaus mewn canlyniadau addysg i bob plentyn a pherson ifanc ar draws y cyfnodau dysgu;
- Llwyddo i gyflwyno a throsi'r cwricwlwm cenedlaethol newydd a'r cymwysterau i fod yn gwricwlwm lleol sy'n ddeniadol ac yn ysbrydoli;
- Datblygu system ysgol hunanwella ar draws y sir gan wneud pob ysgol yn ysgol dda sy'n gwella;
- Parhau i wella lefelau presenoldeb ysgol;
- Sicrhau amrywiaeth o wasanaethau cymorth i ieuenctid i feithrin yr arfer ymysg pobl ifanc o ymwneud ag addysg, gwaith a bywyd cymunedol;
- Parhau i wella cyflwr, addasrwydd a effeithlonrwydd adnoddau'r rhwydwaith o ysgolion drwy'r Cynllun Moderneiddio Addysg drwy fuddsoddi £170m yn ychwanegol i wella adeiladau ysgol drwy'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 12ain Ganrif;
- Datblygu gwasanaeth *Un Sir Gâr - Yr Hwb* drwy symleiddio mynediad at wasanaethau cymorth dysgu a chyflogaeth i bobl ifanc a phobl o oedran gweithio.

Mae'r ffocws ar sicrhau bod gan Sir Gaerfyrddin *economi cryfach a mwy ffyniannus* yn cynnwys:

- Creu swyddi a thwf ledled y sir;
- Datblygu cyfleoedd hyfforddiant a dysgu i bobl leol;
- Gwella'r seilwaith briffyrdd a'r rhwydwaith cyfathrebu i gynorthwyo datblygiad economaidd a chysylltedd pellach;
- Sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol hirdymor i Sir Gaerfyrddin drwy Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe a llwybrau cyllido Ewropeaidd ac allanol.

Mae'r datblygiadau cwricwlwm sy'n cael eu cynnig yn yr adolygiad hwn wedi'u cysylltu'n agos â'r canlyniadau hyn ac felly maent yn gamau allweddol i'r Adran Addysg a Phlant. Nodir y camau hyn yng Nghynllun Busnes yr Adran 2015-2016. Mae'r adran hefyd yn cydweithio'n agos ag adrannau Adfywio a Hamdden y Cyngor Sir, partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (gan gynnwys Coleg Sir Gâr, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Bwrdd Iechyd Hywel Dda) a Chyngor Sir Penfro i gyfrannu at gyrraedd y nodau hyn. Mae cryfder y gwaith partneriaeth presennol yn y sir yn sylfaen ragorol i'r gwaith hwn.

8.3 Strategaeth Gorfforaethol Coleg Sir Gâr 2014-2017

Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau strategol Coleg Sir Gâr yn ystod y cyfnod a nodir. Cenhadaeth gyffredinol y coleg yw "bod yn rhagorol – y coleg dewisol" ac mae'r weledigaeth strategol yn nodi pedwar maes allweddol o flaenoriaeth:

- Ein gwasanaeth: bod yn goleg sydd â'r safonau uchaf, cwricwlwm cynhwysol a phrofiad cyfoethog i'r myfyrwyr.
- Ein diwylliant: bod yn goleg dwyieithog, sydd wedi ymwreiddio yn ein cymuned, lle mae lles ein dysgwyr a'n staff yn ganolog i bopeth a wnawn.
- Ein cyflenwi: cyflenwi dysgu ac addysgu sy'n ysbrydoli, a chyflawni arloesedd a rhagoriaeth yn ein holl weithgareddau.

- Ein hadnoddau: darparu'r adnoddau gorau posibl i ddysgwyr a staff tra'n sicrhau perfformiad ariannol cynaliadwy a chryf.

Mae cydweithio'n agos mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol yn sylfaenol i'r weledigaeth hon, a nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn bod ymrwymiad hirsefydlog y coleg i gydweithio yn allweddol i ddatblygu cwricwlwm Sir Gaerfyrddin sy'n diwallu anghenion dysgwyr, cymunedau a'r economi lleol.

Ym mis Ebrill 2013, ymunodd Coleg Sir Gâr â strwythur grŵp Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r coleg a rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Nid yn unig y mae'r trefniant hwn yn sylfaen i waith partneriaeth 11-19 yn y sir, ond y mae hefyd yn agor y drws i botensial sylweddol i ehangu cyrsiau addysg uwch sy'n galluogi i bobl ifanc symud ymlaen i astudio at radd mewn sectorau allweddol tra'n parhau i fyw yn y sir.

8.4 Y Ddarpariaeth Addysgol a Gwaith Partneriaeth Presennol

Yn Sir Gaerfyrddin, caiff menter Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru ei chyflenwi drwy dri chlwstwr daearyddol lleol ac un grŵp thematig Cyfrwng Cymraeg.

Dyma'r strwythur o glystyrau:

- Clwstwr Taf Myrddin (Ysgol Dyffryn Taf, Ysgol Emlyn, Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth, Ysgol Bro Myrddin, Coleg Sir Gâr);
- Clwstwr Dinefwr (Ysgol Dyffryn Aman, Ysgol Bro Dinefwr, Ysgol Maes y Gwendraeth, Coleg Sir Gâr);
- Clwstwr Llanelli (Bryngwyn, Coedcae, Sant John Lloyd, Glan-y-môr, Ysgol y Strade, Coleg Sir Gâr);
- Y Bartneriaeth (Ysgol Maes yr Yrfa, Ysgol y Strade, Ysgol Bro Myrddin a Choleg Sir Gâr).

Mae Coleg Sir Gâr yn bartner allweddol ym mhob clwstwr, ynghyd â darparwyr hyfforddiant perthnasol a Gyrfa Cymru ym mhob ardal. Drwy weithio mewn clystyrau, gall y darparwyr weithredu cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer cydweithio, ac mae'r clystyrau yn cynnig cyfleoedd i rannu arferion da er budd dysgwyr. Mae'r clystyrau hyn yn gweithredu oddi mewn i strwythur llywodraethu sy'n unigryw yng Nghymru. Mae'r grwpiau cydlywodraethu yn cynnwys staff a llywodraethwyr yr ysgolion uwchradd a Choleg Sir Gâr, yn ogystal â chyflogwyr lleol.

Yn hanesyddol, mae gweithio ar draws ffiniau gydag awdurdodau cyfagos (yn arbennig gyda Cheredigion ym Mhartneriaeth BECA yn nyffryn Teifi isaf) wedi sicrhau hyfywedd rhywfaint o ddarpariaeth i bobl ifanc 14-19 mewn ardaloedd gwledig. Ond er mwyn datblygu'r bartneriaeth hon ymhellach, bydd gofyn am ymrwymiad strategol gan Gyngor Sir Ceredigion er mwyn bwrw ymlaen.

Mewn adroddiad gan Estyn ym mis Mawrth 2012 ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin i blant a phobl ifanc, pwysleisiwyd:

"*Mae gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdod, sefydliadau addysg bellach ac uwch, cyflogwyr ac ysgolion uwchradd i ddatblygu gwaith y pedwar rhwydwaith 14-19 yn dda. Mae trefniadau cydlywodraethu'r rhwydweithiau hyn yn arwain y sector. Maent yn llwyddo i*

hybu cydweithredu a gwaredu cystadleuaeth anfuddiol rhwng darparwyr. Maent hefyd yn galluogi llywodraethwyr ysgol, y coleg, cyflogwyr a'r awdurdod i gynllunio, monitro a darparu adnoddau ar gyfer cwricwlwm 14-19 effeithiol sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn eu clystyrau yn dda iawn. Mae cydweithio ar draws yr awdurdod yn sicrhau bod dysgwyr mewn ardaloedd trefol a gwledig yn manteisio ar ddewis cwricwlwm eang."

Ers 2013, bu'r Rhwydwaith yn gweithio yn is-ranbarthol gyda Sir Benfro. Mae'r gwaith hwn yn golygu rhannu adnoddau staff cydlynu a datblygu dull cyffredin o ddilyn trywydd a chynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru. Caiff camau cydweithio eu harwain ar y cyd gan Grŵp Gweithredol 14-19 Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r ysgolion, y ddau goleg, darparwyr hyfforddiant, Gyrfa Cymru a staff yr awdurdodau lleol. Mae'r dull hwn o gydweithio hefyd yn unigryw yng Nghymru ac mae wedi galluogi i arferion da gael eu datblygu a'u rhannu yn y ddwy sir, gan gyd-fynd â datblygiadau gwella ysgolion ar draws hwb gorllewin *ERW*.

8.5 Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i Ddysgwyr 14-19 yn Sir Gaerfyrddin

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr 14-19 drwy:

- Gynyddu'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael mewn pynciau academaidd a galwedigaethol, wedi'u cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Sicrhau bod gan unigolion fynediad cyfartal i gyrsiau ledled y sir;
- Datblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion dysgwyr lleol yn well;
- Galluogi mynediad at hyfforddiant dysgu ac amrywiaeth eang o gymorth personol ychwanegol er mwyn goresgyn rhwystrau i lwyddo mewn addysg a hyfforddiant;
- Gwell "parch cydradd" rhwng cyrsiau galwedigaethol ac academaidd;
- Mwy o foddhad ac ysgogiad i ddysgwyr yn sgil cyfleoedd i ddilyn cwricwlwm mwy amrywiol sy'n adlewyrchu diddordebau dysgwyr yn well;
- Lleihau'n sylweddol nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET yn 16 oed yn y cyfnod 2005-2011;

Mae'r cydweithio rhwng ysgolion, Coleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant wedi galluogi i bobl ifanc:

- Astudio mewn lleoliadau dysgu eraill i ffwrdd o'u sefydliad arferol am ran o'u hamserlen;
- Dysgu mewn grwpiau mwy o faint gyda phobl ifanc o ysgolion a cholegau eraill;
- Dilyn cyrsiau mewn pynciau arbenigol na fyddai ar gael neu na fyddai'n hyfyw mewn sefydliadau unigol;
- Cael gwell dealltwriaeth o gynnwys cyrsiau mewn meysydd galwedigaethol, gan alluogi gwell dewis dysgu ôl-16 (a allai gynnwys newid o'r pwnc a ddewiswyd i gychwyn);
- Dangos mwy o ddiddordeb yn eu hastudiaethau drwy ddewis eang o gyrsiau sy'n adlewyrchu eu diddordebau, a hynny'n arwain at well perfformiad gan ddisgyblion sydd i'w weld mewn gwell canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4;
- Symud ymlaen i ddysgu ymhellach yn eu dewis faes galwedigaethol wrth adael Blwyddyn 11.

Yn ychwanegol, mae datblygu Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi galluogi i ailadeiladu'r ymddiriedaeth rhwng darparwyr dysgu ôl-16 a oedd wedi crebachu wedi i golegau addysg bellach gael eu hymgorffori ym 1993. Bu'r ddarpariaeth ar y cyd, a

oruchwyliwyd gan y Rhwydweithiau 14-19, yn allweddol i greu gwir waith partneriaeth i bobl ifanc gan ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant, Gyrfa Cymru a'r awdurdod addysg lleol. Mae'r gwaith hwn yn galw am oriau lawer o gyd-drafod a hwyluso gan staff yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag addysg 14-19, yr ysgolion a Choleg Sir Gâr. Yn sgil y gwaith hwn, mae'r cydgynllunio yn fwy effeithiol ac mae'r dull o gyflwyno amrywiaeth eang o fentrau Llywodraeth Cymru yn fwy integredig. Y mae hefyd wedi gwella'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

8.6 Data Cyrchfannau Disgyblion – Cyd-destun Sir Gaerfyrddin

Caiff data cyrchfannau ysgolion a data "ciplun" o rai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ei gasglu gan Gyrfa Cymru ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn ar gyfer rhai sy'n gadael ym Mlwyddyn 11, 12 ac 13. Mae'r data hwn yn ddangosydd defnyddiol o sut gall pobl ifanc symud ymlaen drwy'r system addysg yn lleol. Mae'n cynnwys manylion disgyblion a fyddai'n elwa o gymorth ychwanegol wedi'i dargedu er mwyn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth. Caiff y data ei gyhoeddi'n flynyddol ym mis Ebrill gan Ystadegau Cymru, ac mae'n cyfeirio at y flwyddyn academaidd flaenorol.

Mae data Blwyddyn 11 Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu'r "economi cymysg" presennol o ran darpariaeth ôl-16, ac yn cynnwys chweched dosbarth yr ysgolion, darpariaeth addysg bellach Coleg Sir Gâr gan gynnwys system drydyddol yn ardal Llanelli, cyrsiau galwedigaethol a darpariaeth dysgu seiliedig ar waith. Mae data Blynyddoedd 12 a 13 yn seiliedig ar gofnodion chweched dosbarth ysgolion Sir Gaerfyrddin yn unig. Nid yw'n cynnwys data cyrchfannau coleg addysg bellach, gan fod Llywodraeth Cymru yn cofnodi hwn mewn ffordd wahanol gan olygu mai anodd yw cymharu canlyniadau.



	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Sir Gaerfyrddin	4.00%	2.90%	2.80%	4.30%	3.00%	3.40%
Cymru	5.70%	5.40%	4.40%	4.20%	3.70%	3.10%

Yn 2014, cynyddodd nifer disgyblion Blwyddyn 11 nad oeddynt yn mynd ymlaen i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) o 3.0% (65 o bobl ifanc) yn 2013 i 3.4% (69 o bobl ifanc) o gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.1%. Roedd Sir Gaerfyrddin yn y 14^{eg} safle o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dangosydd perfformiad allweddol hwn.

Roedd y cynnydd bach hwn yn 2014 yn ganlyniad i gyfuniad o'r ffactorau canlynol:

- Y lefel uchel o ddibyniaeth ar gyllid grant i gefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn golygu mai anodd yw cynllunio ar gyfer y tymor hir;

- Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gysylltiedig â'r arbedion cyllidebol adrannol a oedd yn ofynnol, a'r newidiadau i wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf;
- Mwy o ffocws ar bresenoldeb disgyblion yn arwain at ragor o bobl ifanc yn cael eu haddysgu yn y cartref (pan fo rhieni yn pryderu ynglŷn â dirwyon os nad yw plant yn mynychu'r ysgol ac felly'n tynnu'u plant allan o'r ysgol er mwyn osgoi hyn) a lle mae hyn yn digwydd ym Mlynyddoedd 10 ac 11 mae'r tebygrwydd bod y bobl ifanc hyn wedyn yn datblygu i fod yn NEET yn cynyddu'n sylweddol.
- Yr oedi wrth weithredu rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2015-2020 Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n cynnig cyfleoedd i gynnal gwaith prosiect wedi'i dargedu gyda'r garfan hon o bobl ifanc.

Mae cyfradd y bobl ifanc sy'n symud ymlaen o flwyddyn 11 i chweched dosbarth yn y sir wedi parhau'n weddol gyson dros gyfnod 2004-2015, gan amrywio rhwng 38 a 42% (40.3% ar gyfartaledd). Mae'r ganran sy'n symud ymlaen i addysg bellach wedi cynyddu o 39% yn 2004 i 47% yn 2015 (43% ar gyfartaledd). O ystyried bod y gyfradd sy'n symud ymlaen i chweched dosbarth yn parhau'n weddol gyson, mae'n ymddangos bod y gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc sy'n datblygu i fod yn NEET wedi trosi i gynnydd yng nghanran y bobl ifanc sy'n dewis derbyn addysg bellach.

Mae'r tueddiadau hyn yn dangos cryfder gwaith partneriaeth addysgol yn lleol, sy'n cael ei gydnabod yn waith sy'n arwain yn y sector. O'r herwydd, ac yn wahanol i ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr, nid oes llawer o gystadleuaeth yn lleol am ddisgyblion ôl-16. Mae hyn yn caniatáu i fwy o wybodaeth, cyngor a chanllawiau sy'n canolbwyntio ar y disgyblion gael eu darparu gan ysgolion a Choleg Sir Gâr. Mae hyn yn arwain at ddiwallu anghenion dysgwyr yn fwy effeithiol.

Mae effeithiau'r gwaith sy'n ymwneud â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i'w gweld yn y categori "ddim yn gwybod", gyda dim ond 1 person ifanc yn y statws hwn yn 2014, o gymharu â 94 o bobl ifanc yn 2004. Mae'r gostyngiad hwn yn dangos bod y wybodaeth gyfunol leol am ble mae'r bobl ifanc arni wedi gwella'n fawr. Mae hyn yn galluogi i wasanaethau (fel y rhai a ariennir gan Deuluoedd yn Gyntaf) gael eu targedu i helpu'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd.



	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Sir Gaerfyrddin	1.70%	2.00%	1.50%	2.00%	1.40%	1.20%
Cymru	3.10%	3.10%	2.50%	2.70%	2.10%	1.90%

Yn 2014, bu i ysgolion Sir Gaerfyrddin gadw 84% o'r disgyblion a oedd yn cwblhau Blwyddyn 12, gan ddod yn y 6ed safle o'r 22 o'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn y dangosydd perfformiad allweddol hwn (cyfartaledd Cymru oedd 82%). Awgryma hyn gyfradd uchel o foddhad ymysg disgyblion o ran profiad y chweched dosbarth a gynigir mewn ysgolion. Canran y bobl ifanc a oedd yn symud ymlaen i fod yn NEET ar ddiwedd Blwyddyn 12 oedd 1.2% (cyfartaledd Cymru oedd 1.9%), gan olygu bod Sir Gaerfyrddin yn y 6ed safle o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn y dangosydd perfformiad allweddol hwn. Roedd canran y bobl ifanc a oedd yn symud ymlaen i fod yn NEET yn amrywio o ysgol i ysgol, o 0% i 4%. Ond mae'r ffocws ar y garfan hon o bobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan y gall lefelau'r disgyblion sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 12 fod yn ddangosydd o anfodlonrwydd gyda'r cwricwlwm a gynigir, yn enwedig i'r disgyblion hynny sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth heb ffocws cryf wrth symud ymlaen a/neu rai sydd â graddau TGAU gwan.



	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Sir Gaerfyrddin	6.90%	5.90%	4.90%	3.60%	5.50%	6.08%
Cymru	6.63%	6.56%	6.40%	5.10%	4.70%	4.90%

Cynyddodd canran disgyblion Blwyddyn 13 a symudodd ymlaen i fod yn NEET o 5.5% (40 o bobl ifanc) yn 2013 i 6.0% (46 o bobl ifanc) yn 2014. Mae Sir Gaerfyrddin yn yr 17eg safle o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, a chyfartaledd Cymru yw 4.9%. Yn ôl y gwaith dadansoddi, mae awgrym bod y duedd hon yn gysylltiedig ag ysgolion penodol lle mae lefelau dilyniant o chweched dosbarth i brifysgol yn isel, ac mae amrywiaeth sylweddol yn y canlyniadau hyn ar lefel ysgolion unigol. Er enghraifft, y gyfradd uchaf o ddisgyblion yn symud ymlaen o un o ysgolion Sir Gaerfyrddin i addysg uwch yw 74.5%, a'r isaf yw 38%. A'r ysgol sydd â'r gyfradd isaf o ddisgyblion yn symud ymlaen i addysg uwch sydd hefyd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion Blwyddyn 13 yn symud ymlaen i addysg bellach (24%) a'r gyfradd uchaf o ddisgyblion Blwyddyn 13 yn symud ymlaen i fod yn NEET (16%), o gymharu â'r ysgol sydd â'r gyfradd isaf yn Sir Gaerfyrddin o 1.2% o ddisgyblion yn symud ymlaen i fod yn NEET yn y categori hwn.

Awgryma'r data hwn, yn 2014, fod rhai disgyblion nad oedd Safon Uwch yn arbennig o addas iddynt wedi aros yn yr ysgol er y byddai symud ymlaen i goleg addysg bellach neu hyfforddiant seiliedig ar waith wedi bod yn well iddynt. Ni chafodd y disgyblion hyn raddau Safon Uwch da yn yr ysgol ac felly naill ai aethant ymlaen i addysg bellach ôl-safon uwch (gan wastraffu dwy flynedd yn yr ysgol, mewn gwirionedd) a/neu ni wnaethant symud ymlaen, gan olygu eu bod yn NEET. Mewn trafodaethau gyda rheolwyr sector addysg bellach, pwysleisiwyd bod y sefyllfa hon hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr coleg, gan fod cyfradd o fyfyrwyr yn gadael y coleg yn dilyn blwyddyn gyntaf Safon Uwch (Uwch Gyfrannol), a bod rhai o'r bobl ifanc hyn wedyn yn dewis dilyn cyrsiau galwedigaethol

amser llawn. Dyma faes sy'n destun sylw penodol i'r System Gynllunio a Chyllido Ôl-16 newydd.

Mae cyfradd trigolion Sir Gaerfyrddin sydd â chymwysterau Lefel 4 yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae angen mynd i'r afael â hyn drwy gwricwlwm ehangach a mwy deniadol, a llwybrau dilyniant clir i hyfforddiant ac addysg bellach ac uwch. Yn yr un modd, mae nifer yr unigolion sydd heb gymwysterau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r diffyg sgiliau hyn yn achos pryder i'r economi lleol, wrth i gyflogwyr nodi nad ydynt yn gallu dod o hyd i'r staff medrus sydd eu hangen arnynt i dyfu'u busnesau yn lleol. Un ffordd i gyflawni hyn yw llwybrau dilyniant lleol cryf i gyrsiau galwedigaethol, gan adeiladu ar y llwybrau presennol sydd rhwng ysgolion a'r coleg.

Er bod trefniadau presennol o ran partneriaethau a chlystyrau wedi cynyddu'r dewis i'r dysgwyr ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r gwaith hwn wedi'i gynorthwyo gan gyllid grant allanol gan Lywodraeth Cymru. Wrth i'r cyllid grant leihau, bydd yr ysgolion a'r coleg o dan bwysau cynyddol gan fod y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yn effeithio ar lefelau'r arian sydd ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin.

Mae angen i bob dysgwr allu cael mynediad at brofiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n addas iawn ar eu cyfer ac sydd â llwybrau dilyniant clir a dealladwy. Yn ôl data dilyniant, mae cyfradd fach o bobl ifanc ledled Sir Gaerfyrddin, ar adegau, yn gwneud y dewisiadau anghywir ar gamau pontio allweddol. Yn 2014, bu i 10% o ddisgyblion blwyddyn 12 (93) ac 8% o ddisgyblion Blwyddyn 13 adael ysgol a symud i golegau addysg bellach lleol. Mae hyn yn dangos yr angen am wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd cyn i bobl ifanc symud ymlaen i addysg ôl-16, i wneud yn siŵr eu bod yn dewis cyrsiau sy'n adlewyrchu eu gyrfaoedd arfaethedig ac anghenion economaidd lleol.

9.0 Sail Resymegol ar gyfer Trawsnewid Cwricwlwm 11-19

Mae llawer o dystiolaeth bod addysg 11-19 yn Sir Gaerfyrddin wedi gwella canlyniadau i bobl ifanc ers gweithredu agenda Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru. Ond mae bellach angen gweledigaeth newydd a chwricwlwm lleol cysylltiedig er mwyn cyflawni'r amcanion canlynol i bobl ifanc mewn addysg 11-19. Caiff canlyniadau'r trawsnewid eu pwysleisio gan yr adolygiad hwn a'u cysylltu â'r themâu a nodwyd yn Llythyrau Blaenoriaethau Gweinidogol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach. Bydd y canlyniadau hyn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

Swyddi a Thwf:

- cydweithio ar geisiadau i Gronfa Gymdeithasol Ewrop;
- cysylltu hyfforddiant galwedigaethol a'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol;
- defnyddio gwybodaeth y farchnad lafur i gynllunio darpariaeth cyrsiau galwedigaethol.

Cydraddoldeb a Thegwch:

- cydweithio i leihau nifer y bobl ifanc sy'n datblygu i fod yn NEET;
- lleihau effeithiau tlodi ar blant, pobl ifanc a theuluoedd;
- gweithredu pob elfen ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid;
- sicrhau bod pob person ifanc yn cyflawni TGAU Mathemateg a Saesneg;
- cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- cynorthwyo disgyblion mwy galluog a dawnus drwy ddatblygiadau Hwb Seren;

- sicrhau bod cynllun pontio yn ei le ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu.

Gan grynhoi, mae angen i ddarpariaeth addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin newid a datblygu ymhellach i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau yn y dyfodol. Mae hefyd angen i'r ddarpariaeth ddatblygu i sicrhau bod y strwythurau cyflenwi yn gynaliadwy mewn cyfnod o leihad mewn arian cyhoeddus.

10.0 Ffactorau sy'n cyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin

Caiff y gwaith o ddatblygu cwricwlwm i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin ei gyfarwyddo gan bum ffactor: polisi Llywodraeth Cymru, dewisiadau sefydliadol ynglŷn â gweithgareddau allgyrsiol a dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, anghenion y farchnad lafur leol a rhanbarthol, cymorth wedi'i dargedu, a barn pobl ifanc.

10.1 Polisi Cwricwlwm Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyn mae gofyn i bobl ifanc ddysgu mewn ysgolion uwchradd a sefydliadau addysg bellach. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ysgolion uwchradd yng Nghymru addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol i'w disgyblion. Mae'r cwricwlwm sylfaenol yn cwmpasu addysg grefyddol, addysg rhyw, ac addysg bersonol a chymdeithasol. Ac i rai 14-16 oed, addysg yn gysylltiedig â gwaith, a Bagloriaeth Cymru sydd bellach yn weithredol i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Rhaid i'r ysgolion hefyd ddarparu addysg ac arweiniad ar yrfaoedd i bob un 13-16 oed sy'n diwallu anghenion fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys 12 o bynciau, sef "pynciau craidd" Cymraeg a Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, a'r "pynciau di-graidd" sef Cymraeg ail iaith, ieithoedd tramor modern, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth, hanes, daearyddiaeth, celf, cerddoriaeth, addysg gorfforol ac addysg grefyddol. Yn ychwanegol, y mae fframwaith sgiliau anstatudol, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), addysg rhyw, a fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dim ond pum pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol sydd yn orfodol ar hyn o bryd (Saesneg, Cymraeg neu Gymraeg ail iaith, mathemateg, gwyddoniaeth, ac addysg gorfforol) ac mae gan ysgolion fwy o hyblygrwydd i ddarparu pynciau dewisol sy'n diwallu anghenion a diddordebau eu disgyblion. Mae mwyafrif y disgyblion yn y cyfnod allweddol hwn yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau allanol, TGAU yn bennaf. O 2017 ymlaen, bydd cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 yn newid yn sylweddol, gan symud tuag at 9 TGAU wedi'u capio a gweithredu argymhellion Adolygiad Donaldson. Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y 9 wedi'u capio o 2017 ymlaen yw TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Rhifedd a 2 gymhwyster Gwyddoniaeth Lefel 2, ynghyd â 4 cymhwyster arall. O 2018 ymlaen, rhaid i'r pynciau gwyddoniaeth fod yn 2 gymhwyster TGAU. Yn ychwanegol at hyn, mae cyfleoedd i astudio cyrsiau galwedigaethol, fframwaith sgiliau anstatudol, addysg gorfforol, addysg grefyddol, addysg rhyw, fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a Bagloriaeth Cymru.

Mewn addysg (anorfodol) ôl-16 yn chweched dosbarth ysgolion ac mewn colegau addysg bellach, mae pobl ifanc yn dilyn rhaglenni dysgu sydd fel arfer wedi'u strwythuro o amgylch Safon Uwch Gyfrannol / Safon Uwch neu gymwysterau Lefel 2 neu 3. Mae'r rhaglenni hyn

yn cynnwys TGAU Mathemateg neu Saesneg i'r bobl ifanc hynny nad ydynt eisoes wedi ennill y cymwysterau hyn. Ar hyn o bryd, mae'r ysgolion a'r colegau yn y cyfnod hwn o addysg yn cael eu hariannu ar sail nifer y bobl ifanc sy'n mynychu'r prif sefydliadau, ond mae Llywodraeth Cymru yn symud tuag at System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yn seiliedig ar y rhaglenni eu hunain y mae'r myfyrwyr yn eu dilyn. Bydd y newid hwn yn debygol o effeithio'n sylweddol ar yr arian sydd ar gael i sefydliadau, yn arbennig chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae colegau addysg bellach eisoes yn cael eu hariannu ar sail rhaglenni.

Mae gweithredu Llwybrau Dysgu 14-19 yn Sir Gaerfyrddin o 2005 ymlaen wedi arwain at fod cwricwlwm galwedigaethol llawer ehangach ar gael i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4. Cynigwyd y cyrsiau hyn gan ysgolion mewn partneriaeth ac Choleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant. Yn y rhan fwyaf o achosion, ariannwyd y cyrsiau hyn gan grantiau ychwanegol Llywodraeth Cymru (adnoddau Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol 14-19 yn flaenorol, ac yn fwy diweddar arian a ddyrannwyd o Grant Gwella Addysg ERW). Mewn rhai achosion, dewisodd yr ysgolion barhau â'r ddarpariaeth hon gan ddefnyddio arian Unedau Disgyblion Cymru Gyfan wedi i gymorth grant ar gyfer y cyrsiau hyn gael ei leihau. Cyfarwyddwyd y cwricwlwm galwedigaethol hwn gan anghenion y farchnad lafur leol, gan ganolbwyntio'n gryf ar sectorau sy'n bwysig i'r economi lleol megis adeiladu, peirianneg, gofal plant ac amaethyddiaeth.

Mae meysydd eraill o gyd-ddarpariaeth (megis cyrsiau gwallt a harddwch) heb fod mor gydnaws â'r economi lleol, ac ni chafwyd cymaint o sylw i sectorau twf eraill (megis lletygarwch a thwristiaeth) mewn cyd-ddarpariaeth hyd yma.

Mae llawer o'r disgyblion a ddilynodd gyrsiau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 dros y cyfnod ers 2016 wedi dewis symud ymlaen i Goleg Sir Gâr i dderbyn eu haddysg ôl-16. Mae'r disgyblion hyn wedi symud ymlaen i addysg bellach yn eu dewis cychwynnol o bwnc galwedigaethol ac i amrywiaeth eang o gyrsiau eraill, gan gynnwys Safon Uwch. Awgryma hyn fod ymgysylltu â'r disgyblion hyn drwy gyrsiau galwedigaethol ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 (er enghraifft, cynyddu perfformiad TGAU) ac o ran eu cynorthwyo i symud ymlaen i addysg ôl-16, boed hynny mewn ysgol neu goleg. Wrth ddilyn trywydd y disgyblion hyn yng Ngholeg Sir Gâr, mae modd gweld bod nifer sylweddol wedi symud ymlaen o addysg bellach i raglenni addysg uwch yn y coleg ac wedyn ymlaen at swyddi mewn sectorau sy'n allweddol i'r economi lleol.

Er y cafwyd llai o gydweithio mewn lleoliadau ôl-16, ceir enghreifftiau da o ysgolion yn cydweithio i sicrhau bod cwricwlwm eang ar gael i bob disgybl. Bu'r Bartneriaeth, sef partneriaeth yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, yn rhagweithiol wrth gydweithio i rannu darpariaeth Safon Uwch a galwedigaethol cyfrwng Cymraeg rhyngddynt. Mae hyn wedi arwain at gydgyflenwi pynciau Safon Uwch llai poblogaidd (gan gynnwys Seicoleg a Sbaeneg) a darpariaeth alwedigaethol yn sector allweddol gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Ond bydd toriadau pellach i gyllideb ôl-16 yr ysgolion yn gosod heriau sylweddol i allu chweched dosbarth i gynnig yr amrywiaeth o gyrsiau sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Fesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Er mwyn cynnig amrywiaeth briodol a pherthnasol o gyrsiau i bob disgybl chweched dosbarth, bydd gofyn i ysgolion a cholegau gydweithio ymhellach yng nghyfnod 2016-2020.

Mae'r cyrsiau presennol a gyflwynir ar y cyd wedi dibynnu i raddau helaeth ar gyllid allanol gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt fod yn hyfyw. Defnyddiwyd rhan sylweddol o'r

cyllid hwn i gynorthwyo i gludo disgyblion o ysgol i ysgol neu i'r coleg. Byddai ffyrdd i oresgyn y costau hyn yn cynnwys defnyddio mwy o ddysgu cyfunol neu dechnolegau e-ddysgu er mwyn cyflwyno'r cyrsiau prif ffrwd. Byddai cyflwyno'r cyrsiau fel hyn yn cynnwys ffrydio darlithoedd byw ac wedi'u recordio dros y we, rhannu adnoddau dysgu drwy blatfform dysgu Hwb Llywodraeth Cymru, a symud staff addysgu i gynnig tiwtorialau wyneb yn wyneb a sesiynau cymorth dysgu. Dyma rai ffyrdd y gellid datblygu'r agenda gydweithio hon ymhellach.

Mae manylion llawn cymwysterau diwygiedig Bagloriaeth Cymru, argymhellion Adroddiad Donaldson a chamau lleol cysylltiedig wedi'u cynnwys yn nogfen baralel Cyngor Sir Ceredigion, 'Palmantu'r Ffordd – Golwg Strategol o Drefniadau 3-19 yn Sir Gaerfyrddin'. Disgwyliad Llywodraeth Cymru yw y caiff y cymwysterau a'r argymhellion hyn eu gweithredu'n llawn gan bob awdurdod lleol a choleg addysg bellach yng Nghymru. Caiff goblygiadau lleol argymhellion Adolygiad Donaldson eu nodi'n fanwl yn nogfen 'Adolygiad Strategol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu 3-19 yn Sir Gaerfyrddin', a gaiff ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2016.

10.2 Profiadau Ehangach

Yn ogystal â gofynion cwricwlwm gorfodol a osodir gan Lywodraeth Cymru, mae gan ysgolion a cholegau addysg bellach y cyfle i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol i bobl ifanc. Mae'r elfennau hyn i gyfoethogi'r cwricwlwm yn cynnwys profiadau celfyddydol a chreadigol gan gynnwys eisteddfodau a chynyrchiadau drama, timau chwaraeon a gweithgarwch corfforol anffurfiol, amrywiaeth eang o ymweliadau addysgiadol yng Nghymru, Prydain a thramor, a Gwobr Dug Caeredin a Gwobr John Muir. Mewn llawer o achosion, y profiadau hyn yw rhai o'r profiadau a fydd yn rhoi'r boddhad mwyaf a'r mwyaf cofiadwy i bobl ifanc yn ystod eu cyfnod mewn addysg ffurfiol. Mae'r profiadau hyn hefyd yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygu sgiliau 'meddal' a rhyngbersonol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Er yr heriau ariannol parhaus y mae ysgolion a cholegau yn eu hwynebu, y mae'n bwysig y caiff pob person ifanc y cyfle i gymryd rhan yn y profiadau hyn. O'r herwydd, dylent gael eu cadw yn ychwanegiad gwerthfawr i'r cwricwlwm ffurfiol, er mai cyfrifoldeb yr ysgol neu'r coleg dan sylw fydd gwneud penderfyniadau ynghylch beth sydd i'w gynnig ym mhob sefydliad.

10.3 Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

Ceisiodd Llywodraeth Cymru gryfhau'r cysylltiadau rhwng addysg a byd gwaith drwy amrywiaeth o fentrau polisi ers 1999. Mae'r enghreifftiau mwyaf diweddar yn cynnwys Cymwys am Oes, Dyfodol Llwyddiannus a pholisïau i liniaru effeithiau tlodi yng Nghymru. Mae'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol newydd a'r Blaenoriaethau Gweinidogol Blynyddol yn ceisio datblygu'r cyswllt hwn ymhellach, gan bwysleisio'r angen i awdurdodau lleol a cholegau sicrhau y caiff anghenion y farchnad lafur leol eu hadlewyrchu yn y cyrsiau a gynigir ganddynt. Mae datblygiad y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol a Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn golygu bod gwybodaeth llawer gwell ar gael bellach ynglŷn â'r farchnad lafur yn y sectorau allweddol yn ne-orllewin Cymru. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i nodi'r sectorau allweddol ar gyfer datblygiadau'n ymwneud â'r cwricwlwm yn Sir Gaerfyrddin.

Mae fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn ymwneud â'r berthynas rhwng pobl ifanc, eu haddysg a byd gwaith. Mae'n helpu'r dysgwyr i archwilio'r agweddau sydd eu hangen mewn perthynas â chyflogadwyedd a dysgu gydol oes, ac yn eu galluogi i gynllunio a rheoli eu llwybr drwy ddysgu a gwaith. Mae'r fframwaith yn cynnwys cymorth i bobl ifanc

wneud dewisiadau gyrfa effeithiol, datblygu i fod yn fwy entrepreneuraidd, bod â mwy o ysgogiad, gosod nodau hirdymor a goresgyn rhwystrau. Mae'n cynorthwyo pobl ifanc i weld sut mae eu hastudiaethau yn berthnasol i'w bywyd a'u gwaith ac yn caniatáu iddynt ddatblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mewn datblygiadau yn y cwricwlwm sy'n gysylltiedig â hyn, mae Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig 2015 (a Her Menter a Chyflogadwyedd yn benodol) yn cynnwys llawer o'r cymwyseddau sydd i'w datblygu drwy fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Ond yn dilyn toriadau sylweddol iawn i gyllideb graidd Gyrfa Cymru, mae gallu'r sefydliad hwn i gynnig cymorth personol cyffredinol i bobl ifanc a chyflawni fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith wedi lleihau'n sylweddol. Yn 2015, trosglwyddodd Gyrfa Cymru y cyfrifoldeb am drefnu profiad gwaith a dysgu'n gysylltiedig â gwaith i ysgolion ac awdurdodau lleol. Nid oes gan ysgolion unigol yr adnoddau i neilltuo staff i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o Yrfaoedd a Byd Gwaith, datblygu cysylltiadau effeithiol ag amrywiaeth eang o gyflogwyr lleol, a phwysleisio swyddi sy'n bodoli yn yr ardal leol. Mae angen i hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau gael eu hyrwyddo'n well, a hynny'n gysylltiedig a'r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur a meysydd o brinder sgiliau yn y rhanbarth. O ystyried y lleihad yn yr hyn y mae modd i Yrfa Cymru wneud, mae rôl yr awdurdod lleol yn y gwaith hwn yn hollbwysig. Yn Sir Gaerfyrddin, y bwriad yw bod y Cyngor Sir (yr adrannau addysg ac adfywio ill dwy) yn ymgymryd â'r rôl hon i sicrhau y caiff pob person ifanc wybodaeth lawn a chytbwys am y farchnad lafur leol a pha gymwysterau sydd eu hangen er mwyn symud ymlaen i weithio yn y sectorau twf allweddol.

10.4 Cymorth wedi'i dargedu

Yn ychwanegol at y cwricwlwm prif ffrwd, mae amrywiaeth eang o wasanaethau wedi'u targedu ar gael i gynorthwyo pobl ifanc gyda'u hanghenion penodol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau cymorth Tîm o Amgylch y Teulu yn gysylltiedig â Theuluoedd yn Gyntaf, menter Llywodraeth Cymru i leihau tlodi;
- Darpariaeth a gyflenwir gan wasanaeth cynhwysiant yr awdurdod lleol, gan gynnwys cymorth i bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig, seicoleg addysg, tîm cymorth ymddygiad, tîm pontio, cymorth ieithyddol i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), a chwnsela yn seiliedig yn yr ysgol;
- Ysgolion arbennig i bobl ifanc sydd ag anableddau, anghenion iechyd arbenigol, anawsterau ymddygiad, a rhai sydd wedi dadrithio ag addysg ffurfiol;
- Cymorth ychwanegol sy'n cael eu cynnig drwy raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop megis prosiect rhanbarthol Cynnydd i leihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- Gwaith cymdeithasol a chymorth iechyd a gynigir gan Wasanaethau Plant Cyngor Sir Caerfyrddin i grwpiau gan gynnwys pobl ifanc ag anableddau a rhai sy'n derbyn gofal gan y Cyngor Sir;
- Amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i ddysgwyr a ddarperir i fyfyrwyr sy'n astudio yn Ngholeg Sir Gâr.

10.5 Symud Ymlaen i Addysg Uwch a Chyflogaeth

Tra bo'r adolygiad hwn yn nodi'r datblygiadau sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl gael mynediad at gwricwlwm 11-19 sy'n berthnasol ac yn addas, mae'n hanfodol sicrhau y gall

pobl ifanc symud ymlaen i addysg uwch a/neu waith wrth adael yr ysgol, y coleg neu ddysgu seiliedig ar waith yn 18 oed. Mae llwybrau dilyniant cryf eisoes yn eu lle i bobl ifanc yn y sectorau allweddol megis adeiladu a pheirianneg yn seiliedig ar drefniadau partneriaeth hirsefydlog sy'n cael eu cefnogi gan Goleg Sir Gâr. Gall y cysylltiadau hyn gael eu datblygu ymhellach drwy gydweithio'n agos â thîm Adfywio Cyngor Sir Caerfyrddin sydd â chysylltiadau â chwmnïau newydd a rhai sy'n ehangu yn y sir. Mae safle Coleg Sir Gâr oddi mewn i strwythur grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnig cyfle i ddatblygu llwybrau dilyniant ymhellach yn y sectorau allweddol, gan gynnwys addysg ac addysgu. Bydd cynnwys cyflogwyr mewn strwythurau partneriaeth presennol a Bwrdd Corfforaethol Coleg Sir Gâr yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ddatblygu ymhellach lwybrau dilyniant ymlaen o'r ysgol a'r coleg.

10.6 Cyfranogiad Pobl Ifanc

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan bobl ifanc yr hawl i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a rhaid darparu addysg iddynt sy'n datblygu eu personoliaeth a'u doniau yn llawn.
Diffiniad Llywodraeth Cymru o gyfranogiad yw'r hawl i gael cyfle i chwarae rhan mewn penderfyniadau, a chynllunio ac adolygu gweithred a allai effeithio arnynt.

Felly tra bo Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith cyfreithiol a pholisi sy'n effeithio ar ddarparu addysg ar bob lefel yng Nghymru, rhaid i bob datblygiad cwricwlwm lleol gael ei gyfarwyddo gan farn pobl ifanc am yr amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r themâu sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn yn destun ymgynghoriad â phobl ifanc yn ystod Tymor y Gwanwyn 2016 drwy Arolwg Mawr Sir Gâr, sef holiadur ar-lein y Cyngor Sir sydd i'w lenwi gan ddisgyblion ysgol a myfyrwyr coleg.

11.0 Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2020

Mae cwricwlwm cyffredinol arfaethedig i'w gynnig i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 ac mewn Dysgu Ôl-16 wedi'i nodi isod. Y mae wedi'i gyfarwyddo gan y ffactorau a ddisgrifiwyd uchod a dylai gael ei ddatblygu i sicrhau ei fod yn cydweddu'n agos ag anghenion yr economi lleol a rhanbarthol. Bydd hefyd yn pwysleisio'r amrywiaeth o gymorth wedi'i dargedu sydd ar gael i bobl ifanc sydd ag anghenion cymorth ychwanegol. Bydd cyfuniad o'r cwricwlwm cyffredinol, dewisiadau pwnc cysylltiedig a'r cymorth wedi'i dargedu a fydd ar gael, oll yn ffurfio hawl dysgwyr Sir Gaerfyrddin ym mhob un o'r tri chyfnod mewn addysg a hyfforddiant 11-19 mewn ysgolion, coleg addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 (i bobl ifanc 11-14 oed), cynigir bod yr hawl hon yn cynnwys:

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):
    - Y cwricwlwm craidd (13 o bynciau gwahanol)
    - Addysg bersonol a chymdeithasol;
    - 4 canlyniad allweddol Egwyddorion Donaldson gan gynnwys datblygu llythrennedd digidol ymhellach;
    - Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith gan gynnwys gwybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth lleol a'r llwybrau astudio i symud ymlaen i'r swyddi hyn;
    - Mynediad at raglenni i roi cymorth i ddysgwyr mwy galluog a dawnus;

- Amrywiaeth o brofiadau ehangach sydd â'r nod o ddatblygu dysgwyr cyflawn.

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:
    - Cymorth Tîm o Amgylch y Teulu;
    - Mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cymorth Cynhwysiant;
    - Addysg arbenigol lle y bo'n briodol;
    - Cymorth personol ychwanegol wedi'i gynnig drwy brosiect Cynnydd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET;

3. Dilyniant i Gyfnod Allweddol 4 ar lwybr dysgu priodol.

(Gweler Atodiad 1)

Yng Nghyfnod Allweddol 4 (i bobl 14-16 oed), cynigir y bydd yr hawl hon yn cynnwys:

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):
    - Cymwysterau 9 TGAU wedi'u capio (Cymraeg Iaith 1af neu Saesneg Iaith 1af, Mathemateg, Rhifedd, 2 TGAU Gwyddoniaeth a 4 cymhwyster arall
    - Bagloriaeth Cymru – Canolradd (yn cynnwys heriau mewn Dinasyddiaeth Fyd-eang, Menter ac Entrepreneuriaeth, Cymuned, a phrosiect unigol)
    - Addysg bersonol a chymdeithasol;
    - Y 4 canlyniad allweddol yn seiliedig ar Egwyddorion Donaldson;
    - Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;
    - Dewisiadau cyrsiau galwedigaethol yn gysylltiedig â sectorau allweddol y farchnad lafur leol;
    - Mynediad at raglenni i gynorthwyo dysgwyr mwy galluog a dawnus;
    - Amrywiaeth o brofiadau ehangach sydd â'r nod o ddatblygu pobl ifanc cyflawn.

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:
    - Cymorth Tîm o Amgylch y Teulu;
    - Mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cymorth Cynhwysiant;
    - Addysg arbenigol lle y bo'n briodol;
    - Cymorth personol ychwanegol wedi'i gynnig drwy brosiect Cynnydd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET;
    - Cymorth Gwasanaethau Plant i grwpiau penodol (pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau).

3. Dilyniant i addysg neu hyfforddiant ôl-16 ar lwybr dysgu priodol.

(Gweler Atodiad 2)

Mewn addysg ôl-16 (i bobl 16-19 oed) mewn chweched dosbarth ysgol, cynigir y bydd yr hawl hon yn cynnwys:

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):
    - Safon Uwch Gyfrannol / Safon Uwch neu gymhwyster galwedigaethol ar Lefel 2 neu 3;
    - Bagloriaeth Cymru – Uwch (yn cynnwys heriau Dinasyddiaeth Fyd-eang, Menter ac Entrepreneuriaeth, Cymuned a phrosiect unigol)

- Y 4 canlyniad allweddol yn seiliedig ar Egwyddorion Donaldson;
- Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;
- Mynediad at raglenni i gynorthwyo dysgwyr mwy galluog a dawnus gan gynnwys Hwb Seren;
- Amrywiaeth o brofiadau ehangach sydd â'r nod o ddatblygu pobl ifanc cyflawn.

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:
- Cymorth i ailsefyll TGAU Mathemateg a Saesneg os nad ydynt eisoes wedi ennill gradd C neu uwch yn y cymwysterau hyn;
- Ymyriadau Tîm o Amgylch y Teulu i oresgyn rhwystrau i ddysgu'n effeithiol;
- Mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cymorth Cynhwysiant (mewn chweched dosbarth ysgol);
- Addysg arbenigol lle y bo'n briodol;
- Cymorth personol ychwanegol wedi'i gynnig drwy brosiect Cynnydd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET;
- Cymorth Gwasanaethau Plant i grwpiau penodol (pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau).

3. Dilyniant i addysg neu hyfforddiant ôl-18 neu gyflogaeth.

(Gweler Atodiad 3)

Mewn addysg bellach ôl-16 (i bobl ifanc 16-19 oed), cynigir y bydd yr hawl hon yn cynnwys:

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):
- Safon Uwch Gyfrannol / Safon Uwch neu gymhwyster galwedigaethol ar Lefel 2 neu 3;
- Bagloriaeth Cymru – Canolradd neu Uwch (yn cynnwys heriau Dinasyddiaeth Fyd-eang, Menter ac Entrepreneuriaeth, Cymuned a phrosiect unigol);
- Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;
- Mynediad at raglenni i gynorthwyo dysgwyr mwy galluog a dawnus gan gynnwys rhaglenni Hwb Seren ac ACE;
- Cymryd rhan yn rhaglen Sgiliau'r Byd i ddysgwyr galwedigaethol;
- Mynediad at gymorth academi chwaraeon a pherfformiad;
- Amrywiaeth o brofiadau ehangach sydd â'r nod o ddatblygu dysgwyr cyflawn.

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:
- Cymorth i ailsefyll TGAU Mathemateg a Saesneg os nad ydynt eisoes wedi ennill gradd C neu uwch yn y cymwysterau hyn;
- Mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i ddysgwyr;
- Cymorth personol ychwanegol wedi'i gynnig drwy brosiect Cynnydd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET;
- Gwasanaethau cymorth arbenigol i grwpiau penodol (pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau).

3. Dilyniant i addysg neu hyfforddiant ôl-18 neu gyflogaeth, gan gynnwys rhaglen dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau yn y coleg.

(Gweler Atodiad 4)

Mewn darpariaeth hyfforddiant pellach ôl-16 a phrentisiaethau (i bobl ifanc 16-19 oed), cynigir y bydd yr hawl hon yn cynnwys**:**

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):
    - Cymhwyster galwedigaethol ar Lefel 2 neu 3;
    - Cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd;

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:
    - Cymorth i ailsefyll TGAU Mathemateg a Saesneg os nad ydynt eisoes wedi ennill gradd C neu uwch yn y cymwysterau hyn;
    - Mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i ddysgwyr;
    - Gwasanaethau cymorth arbenigol i grwpiau penodol (pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau).

3. Dilyniant i addysg neu hyfforddiant ôl-19 neu gyflogaeth, gan gynnwys rhaglen dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau yn y coleg.

(Gweler Atodiad 5)

12.0 Y Manteision i Ddysgwyr

Bydd datblygu cwricwlwm Sir Gaerfyrddin, wedi'i gyfarwyddo gan bolisi Llywodraeth Leol a'i ffurfio gan anghenion lleol, yn galluogi i'r mwyafrif helaeth o bobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin gyflawni eu potensial yn llawn. Nod ffurfio'r cwricwlwm cyffredin hwn yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt a sut gall llwybrau sy'n berthnasol i'w dewis yrfaoedd ddatblygu, yn gysylltiedig â chyfleoedd cyflogaeth rhanbarthol a chenedlaethol.

Cyfrifoldeb yr ysgolion uwchradd unigol, Coleg Sir Gâr a'r darparwyr hyfforddiant a gontractiwyd yn lleol fydd cyflawni'r cynnig. Yn achos darpariaeth ysgolion ac addysg bellach, rhagdybir y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau sy'n rhoi manylion nifer y cyrsiau i'w cynnig i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Yn yr achos hwn, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fod â'r cyfrifoldeb o wirio bod yr ysgolion uwchradd yn bodloni'r Mesur. Yn achos darpariaeth addysg bellach ôl-16, Coleg Sir Gâr sy'n gyfrifol am hyn.

Fodd bynnag, bydd y tebygrwydd o ostyngiadau pellach i gyllid Llywodraeth Cymru yn golygu y bydd rhai sefydliadau unigol yn ei chael yn gynyddol anos cyflawni gofynion y Mesur, gan gynyddu'r angen am ddulliau o gydweithio ar sail clwstwr er mwyn cyflenwi'r cwricwlwm ar lefel leol. O ystyried bod angen datblygu cwricwlwm sy'n rhannol gysylltiedig â blaenoriaethau'r farchnad lafur leol, bydd datblygu ymhellach strwythurau partneriaeth Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys y grwpiau cydlywodraethu a chysylltiadau cryf â Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yn hanfodol er mwyn i botensial llawn datblygiadau'r cwricwlwm a amlinellir yma gael ei wireddu.

MEP - Band B Projects	**Ongoing**	**0**	**0**	**0**	**113**	**0**	**113**	**113**	Site selections and designs ahead of scheduled.
MEP - Other Projects	**Ongoing**	**300**	**0**	**300**	**451**	**0**	**451**	**151**	Re-profiled required
MEP - Completed / Practically Completed	**completed**	**0**	**0**	**0**	**16**	**0**	**16**	**16**	Retentions held and paid to contractors on various schemes in order to ensure they are completed as per contract.
Misc Education Projects (School Funded)	**completed**	**329**	**-83**	**246**	**329**	**-83**	**246**	**0**	
Childrens Services	**completed**	**5**	**0**	**5**	**5**	**0**	**5**	**0**	
Flying Start Capital Expansion Programme	**ongoing**	**1,316**	**-1,309**	**7**	**1,295**	**-1,288**	**7**	**0**	
Fostering Services Projects	**Mar-16**	**29**	**0**	**29**	**29**	**0**	**29**	**0**	adaptation to house used by foster family
NET BUDGET		**38,860**	**-13,454**	**25,406**	**32,804**	**-13,552**	**19,252**	**-6,154**	

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT
17eg O FEHEFIN 2016

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – Ymateb ymgynghoriad 2016/17

Ystyried y materion canlynol a chyflwyno sylwadau arnynt:

- Ystyried ymateb swyddogion i'r sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriad ar Adolygiad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.
- Ystyried yr addasiadau i'r Cynllun a cynigion pellach o ran y cynnwys.

Rhesymau:

- Mae gofyn i'r Awdurdod Lleol i adolygu a chyflwyno Cynllun Strategol diwygiedig i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.
- I graffu ar yr addasiadau i'r Cynllun a'r targedau ar gyfer cyrhaeddiad yn y Gymraeg.
- I graffu ar ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.
- Er mwyn llunio safbwyntiau i'w cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol eu hystyried.

Angen cyfeirio'r mater at y Bwrdd Gweithredol er mwyn gwneud penderfyniad: OES

Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Portffolio:
Cyng. Gareth Jones (Addysg a Phlant)

Y Gyfarwyddiaeth: Addysg a Phlant **Enw Pennaeth y Gwasanaeth:** Gareth Morgans **Awdur yr adroddiad:** Gareth Morgans Catrin Griffiths	**Swyddi:** Prif Swyddog Addysg Prif Swyddog Addysg Ymgynghorydd Her gyda'r cyfrifoldeb am y Gymraeg	**Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-bost:** 01267 246 450 edgmorgans@sirgar.gov.uk 01267 246641 csgriffiths@sirgar.gov.uk

EXECUTIVE SUMMARY

EDUCATION & CHILDREN SCRUTINY COMMITTEE 17th JUNE 2016

Carmarthenshire's Welsh in Education Strategy – 2016/17 Consultation Update

Background

Section 85 of the Schools Standards and Organisation (Wales) Act requires local authorities to prepare and submit a **Welsh in Education Strategic Plan** (WESP) for approval or modification by Welsh Ministers. These would be 3 year plans and reviewed on an annual basis.

WESPs detail how local authorities will aim to achieve the Welsh Government's outcomes and targets outlined in the **Welsh Medium Education Strategy** (WMES).

Policy context

The WMES sets out the Welsh Government's vision for an education and training system that responds in a planned way to the growing demand for Welsh-medium education. The aim is to facilitate an increase in the number of people of all ages able to use the Welsh language with their families, in their communities and in the workplace. The WESPs are a key vehicle for creating an improved planning system for Welsh-medium education.

The WESPs will provide the means for the Welsh Government to monitor the way in which local authorities respond and contribute to the implementation of the WMES objectives by:

- ensuring that every step of local authority education processes includes full consideration of Welsh-medium education;
- extending provision where a need is identified on the basis of improved planning;
- moving Welsh-language support services gradually away from the traditional roles of *athrawon bro* towards a new training and mentoring service;
- ensuring the delivery of Welsh-medium support services on the basis of consortia in the near future;
- improving standards and extending the use of Welsh by children and young people
- demonstrating progress against the specific targets in the WMES.

The intention of the WESPs is to:

- expect local authorities to be accountable to the Welsh Government for planning Welsh-medium and Welsh-language education provision;
- reflect the aims of the WMES;
- illustrate the current situation, outline appropriate activities and demonstrate improvement;
- be manageable and useful to you as a local authority; and
- demonstrate clear progress over 3-years in each local authority and consortium area towards achieving the WMES targets.

The WESPs focus on the targets in the WMES and LAs are asked to report annually on performance against these targets:

- *more 7 year-old children being taught through the medium of Welsh as a % of the*

Year 2 cohort;

- *more learners continuing to improve their language skills on transfer from primary school to secondary school;*
- *more learners studying for qualifications through the medium of Welsh;*
- *more learners aged 16-19 studying Welsh and subjects through the medium of Welsh; and*
- *more learners with improved skills in Welsh.*

Carmarthenshire's initial Welsh in Education Strategic Plan 2014-2017 was approved by the Welsh Ministers on the 24th of September, 2014. The WESP reflected the County Council's aspirations and the aspirations of the Welsh Government, as laid out in the Welsh Medium Education Strategy and The Welsh Language in Carmarthenshire report, March 2014. The Plan emphasised the commitment to work together to achieve the best outcomes for all Carmarthenshire's children and young people.

In October 2015 we received a letter reminding us that the *Welsh in Education Strategic Plans and Assessing Demand for Welsh-medium Education (Wales) Regulations 2013* require a local authority to review its Plan annually which, in effect, means a review of progress against the targets set out in the Plan. The review had to be completed and the amended Plan which emerged from that process had to be submitted to Welsh Ministers **no later than 20th December 2015.**

There was confusion in respect to the requirement to consult on the revised WESP. Officers were of the view, which had been confirmed by Welsh Government officials during the initial training on WESPS, that there was no requirement to consult on revised Welsh in Education Strategic Plans. Officers had considered the '*The Welsh in Education Strategic Plans and Assessing Demand for Welsh Medium Education (Wales) Regulations 2013'* which cited that- *'During the conduct of such a review the local authority must consult such persons as they consider appropriate'*. As there had been regular discussions in regard to the WESP with schools, the Council's Welsh Language Advisory Panel and the Welsh in Education Forum officers believed that was appropriate and sufficient.

However, Welsh Government officials subsequently advised us of Part 4 of the *School Standards and Organisation (Wales) Act 2013* which states that- '*In preparing a Welsh in education strategic plan or revised plan, a local authority must consult*.' The Act states the following are to be consulted:

a) its neighbouring local authorities;
b) the head teacher of each school maintained by it;
c) the governing body of each school maintained by it;
d) each institution within the further education sector in its area;
e) in relation to any foundation or voluntary school in its area—
   - *the person who appoints the foundation governors, and*
   - *if the school has a religious character, the appropriate religious body;*
f) other prescribed persons.

Once officers were aware of this requirement a consultation was undertaken and an extended timescale, as advised by Welsh Government, was agreed. The consultation

commenced on the 29th March and closed on the 12th May, 2016. A total of 16 responses were received- an analysis is included in the attached report.	
DETAILED REPORT ATTACHED?	**YES**

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.

Signed: **Gareth Morgans** **Chief Education Officer**

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	**NONE**	**YES**	**NONE**	**YES**	**YES**	**NONE**

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

The development of the Welsh Language in Education is an integral part of the 'Welsh Language in Carmarthenshire Report' prepared by the Welsh language Census Group in March 2014. The recommendations, as endorsed by full Council have been incorporated into Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan (WESP) which is our policy to meet the expectations of the Welsh Government's Welsh Medium Education Strategy (WMES) which sets out the Welsh Government's vision for an education and training system that responds in a planned way to the growing demand for Welsh-medium education. The aim is to facilitate an increase in the number of people of all ages able to use the Welsh language with their families, in their communities and in the workplace.

The WESPs are a key vehicle for creating an improved planning system for Welsh-medium education. Carmarthenshire's WESP details how the local authorities aims to achieve the Welsh Government's outcomes and targets outlined in the Welsh Medium Education Strategy.

3. Finance

Many of the actions included in Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan have associated costs (e.g. lead officer time, resources, language charter, training). Additional budget was secured to allow the Education Department to appoint a lead officer (part time) and develop the actions included in the plan. Using the Welsh in Education Grant and this additional funding has enabled us to realise many of the actions. To ensure further progress the additional funding is required.

5. Risk Management Issues

Without sufficient resource it will be difficult to deliver the agreed actions and improve standards of attainment and increase participation in Welsh medium education. This could lead to challenge from Members and external challenge from Welsh Government officials and ESTYN in respect to progress being achieved.

6. Staffing Implications

Due to additional central funding we have an officer (part-time) to lead the implementation of the WESP. Without this officer's time it would be challenging to implement the agreed actions. In addition the Welsh Support Teachers (Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd) are employed utilising the Welsh in Education Grant issued to ERW by the Welsh Government. Any reduction in this grant would have an adverse effect on this team and our capacity to deliver the WESP.

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

Signed: **Gareth Morgans** **Chief Education Officer**

1. Local Member(s) – N/A

2. Community / Town Council – N/A

3. Relevant Partners – In preparing a Welsh in Education Strategic Plan or revised plan, a local authority must consult:

a) its neighbouring local authorities;
b) the head teacher of each school maintained by it;
c) the governing body of each school maintained by it;
d) each institution within the further education sector in its area;
e) in relation to any foundation or voluntary school in its area-
   1.1. the person who appoints the foundation governors, and
   1.2. if the school has a religious character, the appropriate religious body;

f) other prescribed persons.

To meet the requirements of the consultation the Local Authority:

1. Wrote to all head teachers asking them to forward the consultation information to their Governing Body.
2. Wrote to all head teachers asking them to forward the consultation information to their parents and include information on their school's website.
3. Wrote to neighbouring authorities and the other bodies noted in ***d*** and ***e*** above
4. In respect to F (other prescribed persons) we arranged for information in relation to the consultation to be included in the County Council's website.

4. Staff Side Representatives and other Organisations – As above

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information **List of Background Papers used in the preparation of this report:** **THESE ARE DETAILED BELOW:**	
Title of Document	**File Ref No. / Locations that the papers are available for public inspection**
Revised Welsh in Education Strategic Plan	E&C Department, Parc Dewi Sant, Carmarthen

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Diogelu Plant a Gwella Safonau Addysg i Bawb
Safeguarding Children and Improving Education Standards for All

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Sir Gaerfyrddin

2014 – 2017

Mae'r testun sydd wedi ei amlygu hefyd wedi ei newid/adolygu o fersiwn 2014 gwreiddiol o'r CSGA

taith at ddwy
IAITH SIRGÂR

Adran 1

Gweledigaeth a nôd Sir Gâr am Addysg cyfrwng Cymraeg

Dysgu yn Sir Gâr – ychwanegwyd hwn at y cynllun gwreiddiol er mwyn dangos ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau

Ein gweledigaeth...

I ddarparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i'r holl blant, pobl ifanc ac oedolion, a thrwy hynny'n eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Ein polisi ar gyfer hyrwyddo dysgu…

Hyrwyddo'r dysgu yw ein prif ddiben. Yr ydym yn credu fod dysgwyr effeithiol:

- yn gwybod sut i ddysgu ar eu pennau eu hunain a chydag eraill
- yn medru mynd ati'n gynyddol i reoli eu dysgu
- yn mwynhau dysgu
- yn hyderus ac yn cael eu symbylu i barhau i ddysgu trwy gydol oes

Mae'r Awdurdod Lleol, ei ysgolion a darparwyr addysg eraill yn hyrwyddo diwylliant sy'n annog pobl i ymchwilio i safbwyntiau ynghylch dysgu ac yn annog pobl i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o beth yw dysgu.

Hwylusir y gwaith yma trwy:

- gysylltu â phobl a thrafod sut byddwn ni'n dysgu
- rhannu arferion da o ran annog pob disgybl i feddwl ac i siarad am eu dulliau dysgu
- crisialu a gwella rôl Asesu ar gyfer Dysgu

Ffrwyth y gwaith hwn fydd:

- dysgwyr effeithiol sy'n tueddu mwy at gyflawni
- darparwyr sy'n annog pawb i gyfrannu o ran hyrwyddo'r dysgu
- darparwyr sy'n cytuno ar bolisïau ar gyfer dysgu ac yn eu rhoi ar waith
- darparwyr sy'n cynnal ymchwil weithredol sydd yn canolbwyntio ar ddysgu

Ein blaenoriaethau…

- Cyfathrebu ar draws y cwricwlwm: llythrennedd, rhifedd, dwyieithrwydd, TGCh a lles
- Asesu ar gyfer Dysgu - codi disgwyliadau a chysondeb er mwyn cael gwared ar amrywiaeth
- Arweinyddiaeth System a chynyddu cydweithredu

Ein ffordd o weithio…

- Adeiladu ymddiriedaeth a chynnal deialog
- Gweithio gyda'n gilydd i gofleidio newid ac i gryfhau systemau, arfer a deilliannau
- Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pawb yn cyflawni

Y Gymraeg yn Sir Gâr – yn ychwanegol o ganlyniad i waith Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iaith Gymraeg Sir Gâr

O edrych ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011 yn Sir Gaerfyrddin y gwelwyd y pwynt canran yn disgyn fwyaf yng Nghymru– o 50.3% yn 2001 i 43.9% yn 2011, sy'n golygu mai llai na hanner y boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2011. Dyma'r tro cyntaf yn hanes y sir i'r ganran ddisgyn dan yr hanner.

Yn dilyn cyhoeddi Canlyniadau Cyfrifiad 2011 cytunodd y Cyngor i sefydlu Gweithgor Tasg a Gorffen i ymchwilio i'r ffactorau sydd wedi arwain at y dirywiad ac i lunio argymhellion er mwyn ymdrin â'r sefyllfa. Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a Mawrth 2014, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd yn edrych ar y meysydd canlynol:

- Cynllunio
- Addysg
- Iaith ac Economi
- Gweithleoedd cyfrwng Cymraeg a gweinyddiaeth y Cyngor
- Effaith sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg megis y Mentrau Iaith
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymunedau'r sir
- Trosglwyddiad Iaith yn y teulu
- Marchnata'r Iaith

Cytunodd yr Aelodau i wahodd ystod o sefydliadau ac unigolion i gyflwyno tystiolaeth i'r Gweithgor ac er mwyn adeiladu ar y wybodaeth leol ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn y sir. Cytunodd yr aelodau i wahodd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd gan ofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth ynglŷn â'r meysydd blaenoriaeth ac i gynnig eu profiadau personol o ran y Gymraeg.

Penderfynodd y Grŵp i gomisiynu dau ddarn o waith ymchwil penodol. Comisiynwyd Dr Dylan Phillips i baratoi adroddiad ystadegol manwl ar sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Gâr er mwyn cael dogfen a fyddai ar gael, nid yn unig at waith y Gweithgor ond fel sail tystiolaeth ar gyfer pob un o bartneriaid y Cyngor wrth gynllunio gwasanaethau a gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir. Cytunwyd hefyd i gomisiynu Prifysgol y Drindod Dewi Sant i wneud darn o waith ymchwil i edrych ar Gynllunio a'r iaith Gymraeg.

Addysg

Mae **Strategaeth Addysg Gymraeg Sir Gaerfyrddin** yn adlewyrchu dyheadau'r Cyngor a dyheadau Llywodraeth Cymru fel y maent wedi eu nodi yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Polisi Iaith Sir Gaerfyrddin a'r Strategaeth Gymunedol Integredig.

Mae'r Cynllun yn pwysleisio ymrwymiad i gydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i holl blant a phobl ifanc Sir Gâr.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau eraill i:

- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob plentyn, a hynny o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plentyn. Golyga hyn blant o oedran cyn ysgol ymlaen;

- Sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu fel iaith gyntaf ac/neu ail iaith ar yr amserlen yn holl ysgolion y Sir, yn unol ag anghenion statudol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, *'cael system a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg'* a hynny o gyfnod addysg cyn statudol ymlaen;

- Sicrhau bod pob disgybl mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2;

- Disgwylir bod dilyniant ieithyddol yn digwydd ym mhrofiadau cwricwlaidd y dysgwr wrth iddyn nhw drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3;

- Disgwylir i bob disgybl sydd wedi dilyn y rhaglen Gymraeg iaith gyntaf yn y cyfnod cynradd i barhau gyda'r rhaglen hon wrth drosglwyddo i'r uwchradd;

- Sicrhau dilyniant datblygedig o ddarpariaeth cyn ysgol i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Hybir dilyniant ieithyddol o CA4 ymlaen hyd at yrfa dysgu gydol oes disgyblion a myfyrwyr y Sir;

- Gweithio mewn partneriaeth â'r holl ddarparwyr cyn ysgol, y Cyfnod Sylfaen, cynradd, uwchradd a llwybrau dysgu 14-19 er mwyn gwella safon y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Bydd holl ysgolion y Sir yn derbyn cyngor a chefnogaeth gan yr

Arweinwyr System sy'n rhan o'r gwasanaethau gwella ysgolion. Cynigir cefnogaeth bellach gan Arweinwyr System Cysylltiol Llythrennedd a'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd wrth iddynt ymweld â'r ysgolion, gan fonitro safonau ieithyddol disgyblion ar ran yr Awdurdod Lleol;

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol ychwanegol yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddilyn gofynion Cod Ymarfer diwygiedig ADY Cymru;

- Hyrwyddo a datblygu rhaglenni dysgu a hyfforddiant a fydd yn fodd i athrawon feithrin y gallu a'r hyder i gyflwyno'r Gymraeg yn iaith gyntaf ac/neu ail iaith;

- Hyrwyddo hyfforddiant codi ymwybyddiaeth iaith i lywodraethwyr, rhieni a staff addysgu;

- Rhoi sylw i faterion gallu ieithyddol o ran gweithwyr cymorth dysgu sy'n gallu cynorthwyo gyda chyflwyno'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, mewn lleoliadau Cymraeg eu cyfrwng a Chymraeg Ail iaith;

- Sicrhau bod disgyblion newydd i'r Sir sy'n fewnfudwyr di-gymraeg yn medru gwneud defnydd llawn o'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd er mwyn iddynt, wrth dderbyn cwrs dwys yn y Gymraeg, allu integreiddio'n naturiol i'w hysgol leol a'u cymuned.

- Hyrwyddo datblygiad sgiliau dwyieithog disgyblion ym mhob sefyllfa ysgol fel y defnyddir rhagor o'r Gymraeg a hynny'n gymesur â dynodiad ysgolion unigol o ran cyfrwng dysgu.

Adran 2

Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr- yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr

NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

1. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr preifat i sicrhau bod addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn hwylus ym mhob rhan o Sir Gâr.

2. Bod y Cyngor Sir yn paratoi cynllun gwaith ac amserlen bendant, mewn cydweithrediad â chyrff llywodraethu ysgolion, er mwyn symud pob ysgol gynradd ar hyd continwwm iaith. Bydd angen datblygu strategaethau ar gyfer yr amrywiol gategorïau ac ardaloedd daearyddol;

3. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrff llywodraethol ysgolion trawsnewidiol Sir Gâr (sef ysgolion cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg) er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg;

4. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrff llywodraethol ysgolion dwy ffrwd Sir Gâr er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg;

5. Bod y Cyngor Sir yn cytuno ar yr egwyddor y dylai pob ysgol gynradd Saesneg dros gyfnod o amser gyflwyno'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg fel man cychwyn gan ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (CA2);

6. Bod y Cyngor Sir yn dechrau'r broses o adnabod ysgolion cyfrwng Saesneg fyddai'n barod i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn weddol o fuan gyda'r nod yn CA2 i gynnig dewis rhwng ffrwd Gymraeg neu ffrwd ddwyieithog (25-50% cyfrwng Cymraeg);

7. Bod y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth fanwl i fodel presennol canolfannau iaith/hwyrddyfodiaid Sir Gâr yn y sector cynradd ac i ddatblygu'r ddarpariaeth ar sail model Cynghorau Gwynedd a Cheredigion;

8. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu Siartr Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd (sy'n annog plant i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn gymunedol) a'i addasu at ofynion Sir Gaerfyrddin;

10. Bod y Cyngor Sir yn cynnwys disgwyliadau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o gytundeb gydag ysgolion, ochr yn ochr â disgwyliadau o ran disgyblaeth, cyrhaeddiad a phresenoldeb;

17. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion;

18. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir.

19. Bod y Cyngor Sir yn cynnal asesiad o'r galw am addysg Gymraeg mewn ardaloedd lle ystyrir bod angen;

NOD: I sicrhau cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn aelwydydd cyfrwng Cymraeg ac aelwydydd iaith gymysg ac i gynnig cefnogaeth i aelwydydd di-gymraeg i gyflwyno'r Gymraeg.

67. Bod y Cyngor Sir yn cyd-weithio gyda chyrff a phrosiectau megis Twf (mudiad sy'n hyrwyddo trosglwyddo iaith yn y teulu) a'r Mudiad Meithrin er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dwyieithrwydd yn y sector cyn-ysgol trwy dargedu cymunedau penodol o fewn Sir Gâr yn ôl dadansoddiad ystadegol o'r defnydd o'r Gymraeg.

69. Bod Llywodraeth Cymru gyda chydweithrediad y Cyngor Sir yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i gynlluniau tebyg i Dechrau'n Deg.

A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol	C. Targedau	Ch. Cynnydd
Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Yn 2015 roedd **56.8%** o blant yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg**.** Bydd y nifer o ddysgwyr 7 oed sydd yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu wrth i ysgolion Dwy Ffrwd gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac wrth sicrhau dilyniant i Gyfnod Allweddol 2.	**2015 56%** **2017 58%** Parhau i gynyddu'r canran o ddysgwyr 7 oed sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd ac Arweinwyr System barhau i dargedu ysgolion Dwy Ffrwd. Targedu 3 ysgol i drosglwyddo erbyn 2016. Targedu 8 ysgol i symud ar hyd y continwwm iaith erbyn	Wedi cyrraedd targed 2015 o ran nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Argoeli'n dda o ran cynyddu ymhellach wrth i 6 ysgol dwy ffrwd symud ar hyd y continwwm ieithyddol . Wedi trafodaethau gyda LlC cychwyn ar ymgynghori'n ffurfiol 2016-17 er mwyn newid categori ysgol. Trafod y posibiliadau o greu ysgolion sydd yn darparu yn y Gymraeg yn y CS ac yna cynnig dewis dwy ffrwd ym mlwyddyn 3

		2016. Ymchwilio i ac ymgynghori ynghylch nifer o ysgolion Cyfrwng Saesneg sydd a'r ddarpariaeth i weithredu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg. Targedu'r ysgolion Cyfrwng Saesneg hynny i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg- 2017.	ymlaen Cyflwyniad wedi ei greu ar gyfer yr ysgolion sydd yn addas ar gyfer rhannu gyda llywodraethwyr a rhieni. Wedi creu cynllun a chychwyn hyfforddiant ar fanteision dwyieithrwydd (yn seiliedig ar ymchwil academaidd). Creu Ysgol newydd dwy ffrwd yn ardal Llanelli- wedi ymgynghori'n ffurfiol - anelu at agor ysgol newydd ym Medi 2016. Mewn trafodaethau gyda LIC ar gyfer sicrhau cyllid ar gyfer ysgol newydd.
Mabwysiadu dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni.	Mae polisi derbyn plant i ysgolion Sir Gaerfyrddin yn dibynnu ar ddarpariaeth leol : • ysgolion cynradd gyda dosbarthiadau meithrin- derbyn yn y tymor ar ôl trydydd pen-blwydd y plentyn, yn bennaf yn rhan amser. Derbynnir yn amser llawn cyn pedwerydd pen-blwydd y plentyn; • ysgolion cynradd heb ddosbarthiadau meithrin - derbyn amser llawn ar ddechrau'r tymor cyn pedwerydd pen-blwydd y plentyn Ceisir sicrhau dewis i rieni a chynnig cyfle cyfartal trwy ariannu lleoedd i blant o fewn darpariaethau'r mudiadau	Gweledigaeth yr ALl a'r LIC, fel y'i diffinnir yn *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg NS1*, yw anelu at yr un targed, sef "*gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol*" Nod i gynyddu darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn nalgylchoedd ysgolion cyfrwng Saesneg mewn tair ysgol yn	Amserlen arfaethedig/ ysgolion ffocws wedi eu nodi ond anawsterau gyda'r angen am broses statudol i sicrhau unrhyw newid arwyddocaol. Cyd weithio gyda LIC i hwyluso'r daith

	gwirfoddol a phreifat, megis y Mudiad Meithrin, Cylch Ti a Fi neu'r WPPA, yn unol â'r canllawiau a osodir ar eu cyfer gan Bartneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin. Caiff un ysgol feithrin a 31 o ddosbarthiadau meithrin eu cynnal gan yr Awdurdod Addysg. Bu'r Mudiad Meithrin yn aelod o Bartneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin o'r cychwyn cyntaf. Cynhwysir hwy ym mhob trafodaeth a phenderfyniad wrth lunio a chytuno ar Gynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yr Awdurdod Gan fod rhwydwaith eang iawn o ysgolion CC, ysgolion DFf yn y Sir mae cyfle i bob disgybl barhau gydag addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny o fewn pellter rhesymol i gartref y plentyn. Mae Sir Gâr wedi datblygu system drefnus o addysgu a hyfforddiant sy'n ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae safle unigryw'r sir, sy'n cael ei chyfri gennym yn ficrocosm o Gymru gyfan, yn golygu ein bod yn cynyddu'r nifer o bobl o bob oed a chefndir sydd yn rhugl yn y Gymraeg ac yn medru defnyddio'r iaith gyda'r teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Mae darparu addysg gynradd sydd â'r nod o sicrhau disgyblion rhugl dwyieithog yn ganolog i feddylfryd yr Awdurdod. Caiff pob disgybl y cyfle i dderbyn addysg o'r fath, a hynny o fewn pellter rhesymol i'w gartref. Addysgir mwyafrif helaeth disgyblion y Sir yn yr ysgol gymunedol leol. Mae rhai disgyblion, fodd bynnag, yn derbyn eu haddysg y tu allan i'w cymuned yn unol â dymuniad rhieni.	flynyddol. Targedu ysgolion gyda dosbarthiadau meithrin i sicrhau o leiaf 90% o blant i barhau gydag addysg Cyfrwng Cymraeg Gweithio gyda'r Mudiad Meithrin/darparwyr addysg cyn-ysgol i dracio dilyniant o Gylchoedd Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Dinefwr a Chaerfyrddin. Dau baragraff wedi eu dileu	Parhau i dargedu ysgolion gyda dosbarthiadau meithrin. ***Gwelir atodiad*** Cydlynydd Mudiad Meithrin yn aelod o'r Fforwm Addysg Gymraeg. Asesiad o angen wedi ei gwblhau mewn partneriaeth gyda swyddogion Gwasanaethau Plant. Cyd weithio gyda thîm y Cyfnod Sylfaen/ Blynyddoedd Cynnar er mwyn sicrhau gwasanaeth ymhob ardal.

Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Mae dull yr awdurdod lleol o ehangu'r ddarpariaeth yn un strategol ac o dan arweiniad y Cyngor Sir. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar y modd y byddwn yn medru sicrhau lleoedd digonol ac addas i blant y rhieni a gofalwyr hynny sydd yn awyddus i gael addysg Cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol yn ceisio anelu at well canlyniadau addysgol a gwell flas ar fyw i blant a phobl ifanc beth bynnag fo'u cefndir economaidd cymdeithasol. Anelwn hefyd at leihau'r gwahaniaethau addysgiadol o fewn yr ystafell dosbarth, rhwng dosbarthiadau a rhwng ysgolion ac ar draws yr awdurdod. Mae'r Awdurdod yn dal yn gadarn at y cysyniad o'r continwwm iaith, gan wynebu'r her o sicrhau fod holl ysgolion y Sir yn symud yn gadarnhaol ar hyd y llinell ddatblygol. Golyga hyn fod pob ysgol i werthuso'n rheolaidd le'r Gymraeg fel pwnc, y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng a safle'r Gymraeg fel cyd-destun i weithgareddau a threfniadaeth yr ysgolion. O gofio nod dwyieithog polisi iaith yr Awdurdod Lleol mae rhaid gwneud defnydd estynedig a helaeth o'r Gymraeg ar hyd Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Dwy Ffrwd fel bod disgyblion yn cyrraedd y nod o fod yn rhugl ddwyieithog erbyn trosglwyddo i'r sector uwchradd. Golyga hyn fod yn rhaid i o leiaf 70% o'r amser dysgu ac addysgu fod trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2 yn yr ysgolion yma: • Mae rhai ysgolion eisoes yn darparu'n uwch na 70% o'r amser dysgu ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg; • codi safonau cyflawniad disgyblion yn y Gymraeg fel ail	Asesu cynaladwyedd addysg mewn ysgolion bach. Cwblhau'r cynnig i greu ysgol dwy ffrwd yn ardal Llanelli Targedi'r 11 ysgol Dwy Ffrwd gan yr AGGaD drwy gynllun datblygu iaith benodol. 8 ysgol DFf i fod yn Drawsnewidiol erbyn 2016 Ymestyn y canran addysgu drwy'r Gymraeg 70% ac uwch gyda chefnogaeth AGGaD drwy addysgu Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. 100% o ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn addysgu Mathemateg cyfrwng Cymraeg erbyn 2017. Ad-drefnu pump o ysgolion uwchradd 11-19 yn ardal Dinefwr i ffurfio tair canolfan dysgu a fydd yn gyd weithio 'n ffurfiol a Choleg Sir Gar a gyda darparwyr hyfforddiant i gyflawni addysg 14-19.	Ymateb yn strategol i ddiffyg cynaladwyedd ysgolion bach- dwy ysgol wedi cau yn 2015. Wedi trafodaethau gyda LIC i sicrhau dealltwriaeth o'r broses, dilyn rhaglen strategol y sir ar symud ysgolion dwy ffrwd. Dwy ysgol yn drawsnewidiol. 100% o ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn addysgu Mathemateg cyfrwng Cymraeg erbyn 2015. O flaen y targed. Mae'r uned MEP yn ymwybodol o leoedd mewn ysgolion a'r rhaglen i gynllunio ar gyfer twf Cynllun buddsoddi i ail drefnu ysgolion uwchradd wedi cyflawni. Ysgol Dyffryn Aman wedi datblygu i fod yn ysgol 2B. Ysgolion Pantycelyn a Thregib wedi uno i greu

	iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion Cyfrwng Saesneg. Mewnbwn dwys gan Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd i hyfforddi oedolion a disgyblion ar lawr y dosbarth er mwyn codi safonau ail iaith. Bydd cynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer ysgolion y 21ain ganrif yn cyflwyno'r canlyniadau arfaethedig y bwriedir gan Lywodraeth Cymru yn ad-drefnu Addysg a Darpariaeth Hyfforddiant yng Nghymru yn ogystal â dogfennau strategaeth addysg Cyfrwng Cymraeg.	Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn cael ei fonitro a'i ddatblygu trwy gyfrwng gweithredu CSGA. Un paragraff wedi ei ddileu	Ysgol Bro Dinefwr- newid o 2C i 2B o ran darpariaeth. Ysgolion y Gwendraeth a Maes yr Yrfa wedi uno i greu ysgol 2A- Ysgol Maes y Gwendraeth Estyniad newydd ar gyfer Maes y Gwendraeth ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Dinefwr- agor 2016
Gwella gweithio cydweithredol drwy gonsortia.	Bwriedir cefnogi elfennau o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy drefn bartneriaeth a gweithio drwy gonsortiwm rhanbarthol ERW wrth: • gydweithio ar draws y rhanbarth ar y strategaeth Llythrennedd Gymraeg; • Monitro a gwerthuso ysgolion cynradd ac uwchradd ar y cyd gan ddefnyddio arbenigedd Arweinyddion System rhanbarthol; • Rhannu data ac arfer da ar draws y rhanbarth; • Mynychu a chefnogi cyfarfodydd a phrosesau Fforwm ar draws y rhanbarth; • Hyrwyddo datblygiadau cwricwlaidd Partneriaeth Beca (ysgolion Emlyn, Aberteifi a Choleg Ceredigion a phartneriaid ehangach rhwng Ceredigion a Phenfro); • Cyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyda chyllid rhwydwaith a Fforwm 14-19.	Gweinyddir Grant Cymraeg mewn Addysg yn rhanbarthol gan ERW.	Grant y Gymraeg wedi gorffen. Pwyllgor y Gymraeg mewn Addysg ERW yn cynnal cyfarfodydd cyson pob tymor sydd yn dilyn cynllun busnes ERW . Y pwyllgor yn rhaeadru i'r bwrdd gweithredol . Gweithgor Athrawon Bro ERW wedi creu helaeth o adnoddau ar gyfer gwefan ERW. Gweithgor Siarter Ail Iaith wedi creu adnodd Siarter Cymraeg Campus ERW sydd yn cael ei beilota Ionawr 2016 gan 20 o ysgolion ar draws ERW.

			Lansiad ffurfiol i ddigwydd ym mis Gorffennaf 2016. Gweithgor Uwchradd ar draws y consortiwm wedi creu adnoddau ar gyfer manyleb newydd TGAU Cymraeg Llen ac Iaith. Hyfforddiant ar gyfer defnydd da o'r adnoddau wedi eu cynnal yn yr Hybiau ac fel rhan o'r cyfarfodydd Rhwydweithio. Datblygu Siarter Iaith Uwchradd a Siarter Iaith Ail Iaith. Deunyddiau hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog.
Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid.	Mae gan yr Awdurdod chwe Chanolfan Iaith ac mae eu diffiniad a'u rôl yn cyfateb i'r hyn grybwyllir yn *y Strategaeth*. Gwasanaethant ddisgyblion sydd wedi symud i fyw i gymunedau dwyieithog Sir Gaerfyrddin. Lleolir hwy yn Llanymddyfri, Llandeilo, Dyffryn Aman, y Gwendraeth, Caerfyrddin a Hendy-gwyn. Lleolir y Canolfannau, gydag un eithriad, mewn ysgolion uwchradd. Trefnwyd rhaglen er sicrhau bod yr hwyrddyfodiaid, i fyny at ddeuddeg ohonynt ar unrhyw un adeg, yn mynychu'r Canolfannau am ddeuddydd yr wythnos, a hynny am o leiaf un tymor. Mae cydweithio agos gyda'r ysgolion wrth i athrawon y Canolfannau ymweld â hwy mewn patrwm o ôl ofalaeth, gyda'r athrawon dosbarth hwythau yn eu tro yn cael cyfle i ymweld â'r Canolfannau. Mae cynlluniau'r canolfannau fel a ganlyn:	Ar waith mae Cynllun "O Ysgol i Ysgol"- targedu disgyblion sy'n symud rhwng ysgolion o fewn i'r Awdurdod yw'r nod yma. Mae gan yr Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd rôl bwysig wrth iddynt gadarnhau gwaith y Canolfannau yn yr ysgolion drwy gyd-weithio gyda'r athrawon dosbarth a'r disgyblion pob hanner tymor. Cadw hyblygrwydd o fewn y	Swyddogion a rheolwyr wedi ystyried modelau siroedd eraill gan addasu trefn Sir Gaerfyrddin i fod yn wasanaeth mwy hyblyg/parod i ymateb i heriau lleol. Penderfynwyd parhau gyda'r Canolfannau Iaith yn yr ysgolion oherwydd natur ddaearyddol y Sir a'r gost o gludo dysgwyr. Os mai penderfyniad Aelodau yw symud i drefn

	• Cynllun Cychwynnol Hwyrddyfodiaid (yn y canolfannau); • Croeso i Gymru (llyfryn a CD yn yr ysgolion); • Cynllun Canol-Hwyrddyfodiaid ; • Cymru am Byth; • Cynllun Croesi'r Bont; • Cynllun Caru Cymru; • 'Blas ar Gymru'. Pwynt bwled wedi ei ddileu	gwasanaeth i gyd ymffurfio gyda'r newidiadau yn y Strategaeth. Parhau gyda'r prosiectau gorsafoedd Iaith yn ôl y galw. **Medi 2014-** Sefydlu Canolfan Bro Dinefwr fel canolfan canolog i hwyrddyfodiaid y sir. Sefydlu gorsafoedd Iaith yn ôl y galw yn Rhydaman Gwendraeth a Chaerfyrddin a sgwad o dri AGGaD yn barod i ddiwallu ar gynllun cychwynnol hwyrddyfodiaid.	Ceredigion/ Gwynedd bydd angen buddsoddiad sylweddol. ***Gorsafoedd iaith*** : Gwaith yn seiliedig ar agweddau o hanes Cymru ac yn datblygu sgiliau ysgrifennu ymestynnol disgyblion Bl5. Wythnos o gwrs; disgyblion Bl5 o sawl Ysgol gyda'i gilydd; 3 gorsaf mewn teulu o ysgolion; 2 AGGaD yn cyd-gyflwyno Cynllun ***Pontio Cynradd/Uwchradd*** a dreialwyd yn ysgolion cynradd Bro Dinefwr Haf 2015. Cefnogaeth ddilynol gan AGGaD yn yr ysgol. Cwrs mewn Canolfan Iaith- 2/3 diwrnod yr wythnos, dros 10 wythnos, 2 AGGaD yn gyfrifol am yr addysgu a'r gofal. Ôl-ofal a chefnogaeth bellach gan AGGaD nôl yn yr ysgol Anelir at flwyddyn o gefnogaeth i gyd. Cwrs Dechrau Da sy'n cynnig cefnogaeth i rieni

			di-gymraeg plant sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen Cwrs Blas ar Gymru ar gyfer rhieni sy newydd ymgartrefu yn Sir Gâr
Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cyswllt â Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau ac ariannu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar.	Mae'r Awdurdod yn dal yn gadarn at y cysyniad o'r continwwm iaith, gan wynebu'r her o sicrhau fod holl ysgolion y Sir yn symud yn gadarnhaol ar hyd y llinell ddatblygol. Golyga hyn fod pob ysgol i werthuso'n rheolaidd le'r Gymraeg fel pwnc, y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng a safle'r Gymraeg fel cyd-destun i weithgareddau a threfniadaeth yr ysgolion. Gosodir targedau a thargedir ysgolion wrth ddefnyddio data ac yna monitro trwy'r Fframwaith Rhanbarthol Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth gan Arweinydd System. Mae'r cysylltiadau â'r Bartneriaeth Plant yn un ymarferol a gweithredol ac mae yna gyfarfodydd cyson. Bwriedir sicrhau bod cynlluniau a dogfennau addysg strategol yr awdurdod yn cynnwys cyfeiriad at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg trwy gydweithio a chyfathrebu ar draws yr awdurdod. Mae'r Arweinydd System Cymraeg a Dwyieithrwydd yn aelod o banel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr iaith Gymraeg ac yn codi ymwybyddiaeth o gynnwys y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a datblygiadau addysg Gymraeg ar draws yr awdurdod yn gyson. Bydd ymgynghoriadau gyda phrif randdeiliaid yn digwydd yn gyson yn ystod llunio'r cynllun hwn: • Cynhelir cyfarfodydd swyddogol yn gyson; • Cynhelir Pwyllgorau Craffu'n gyson;	Parhau i fonitro, herio a chefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol. Targedi'r tair ysgol Drawsnewidiol i symud i fod yn gyfrwng Cymraeg erbyn 2017 Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg erbyn Hydref 2014. Cynnal cynadleddau Addysg Gymraeg a hyfforddiant i athrawon CC ac ail laith yn flynyddol ar sgiliau a metholodegau dysgu iaith ar	Sefydlwyd Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg – aelodau: Robert Sully- Cyfarwyddwr Gareth Morgans- Prif Swyddog Addysg Aeron Rees- Pennaeth Rhaglennu Dysgu Cyng. Cefin Campbell (Cad) Cyng. Ryan Bartlett Cyng. Thomas Theophilus Cyng. D W Hugh Richards Cyng. W Gwyn Hopkins Catrin Griffiths- Ymgyng. Her gyda'r cyfrifoldeb am y Gymraeg Julie Owen- AGGaD Eryl Roberts- Dyffryn Aman Ann Jones- Ysgol QEH Lee James- Ysgol Llandybie Heather Davies Rowlinson- Mudiad

	• Defnyddir gwefan y sir i wahodd rhieni a'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau.	lawr dosbarth.	Meithrin Rhanddeiliaid eraill i fod yn rhan o'r fforwm ar wahoddiad
Darparu gwybodaeth i rieni/ofalwyr.	Codi'r ymwybyddiaeth o ddarpariaeth Gymraeg a darparu gwybodaeth i rieni trwy: • Codi ymwybyddiaeth manteision Dwyieithrwydd drwy weithio ar y cyd gyda'r Cyngor Sir i greu llyfryn ar fanteision dwyieithrwydd; • Cyhoeddir yn flynyddol lyfryn dwyieithog, "Ysgolion Sir Gaerfyrddin: Gwybodaeth i Rieni". Dosberthir copïau i ysgolion, swyddfeydd y Cyngor Sir a Llyfrgelloedd ac fe roir y ddogfen ar wefan y sir. Mae'r llyfryn yn cynnwys polisi iaith yr Awdurdod, y ffordd o wneud cais i gofrestru mewn ysgol a rhestr o holl ysgolion y Sir, gan gynnwys categori iaith pob ysgol; • Mae pob ysgol yn darparu prosbectws sy'n cofnodi'n glir ddehongliad manwl yr ysgol o bolisi iaith y Sir, gan gynnwys lle'r Gymraeg fel pwnc a'r defnydd a wneir ohoni, os yw'n berthnasol, fel cyfrwng dysgu ac addysgu yn yr ysgol; • Mae trefniadau pendant yn rhoi cyfle i ddisgyblion cynradd ymweld â'r ysgolion uwchradd; • Penaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd yw'r ffynhonnell orau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth fanwl am yr hyn gynigir o fewn ysgol unigol. Mae taflenni gwybodaeth a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru, TWF a'r Mudiad Meithrin yn egluro'n gryno	Cwblhau'r prosiect o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision addysg ddwyieithog- Hydref 2014 Creu pamffled a thudalen ar wefan y sir i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision addysg ddwyieithog.	Yn sgil Siarter Iaith crëwyd posteri a phamffledi gan gynnwys dyfyniadau wrth Alex Jones a Nigel Owens. Darperir DVD gan gynnwys Pŵerbwynt o fanteision addysg ddwyieithog, cyfweliadau gyda rhieni di Gymraeg a sylwadau gan ddisgyblion uwchradd. Annog ysgolion i drosglwyddo'r wybodaeth i'w gwefannau. Bydd yr hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg ddwyieithog yn rhan o raglen hyfforddi 2015/16 i'w gyflwyno yn nhymor y Gwanwyn 2016.

	fanteision dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog, gan nodi sefydliadau neu asiantaethau all roi arweiniad, esboniad a chefnogaeth bellach. Ym mis Rhagfyr, ar gyfer dewis erbyn y Medi dilynol, anfonir pecyn trosglwyddo i bob disgybl Blwyddyn 6, gan gyflwyno iddynt enw'r ysgol sydd o fewn dalgylch y cartref, yn ogystal â'r ysgol ddwyieithog agosaf, a chopïau o brosbectysau'r ysgolion perthnasol. Cyflwynir ffurflen drosglwyddo ddwyieithog a gofynnir iddynt ei llenwi a'i dychwelyd i'r swyddfa ganolog erbyn diwedd Ionawr. Eglurir y gall rhieni fynegi dymuniad i'w plant dderbyn eu haddysg mewn ysgol maent yn ffafrio ond os yw rhieni'n dymuno i'w plant fynychu ysgol y tu allan i'r dalgylch caniateir y cais os oes lle ac adnoddau digonol yn yr ysgol ddewisedig. Bydd polisi cludiant y sir bob amser yn berthnasol. Mae gwybodaeth ysgolion hefyd ar gael yn electronig ar safwe'r Cyngor Sir. Mae'r paragraff hwn wedi ei olygu		

<u>Deilliant 2</u>: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd - yn ychwanegol o ganlyniad i waith Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iaith Gymraeg Sir Gâr

<u>Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr</u>

NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

9. Bod y Cyngor Sir yn ailedrych a sicrhau bod ysgolion cynradd Cymraeg yn rhan o deulu ysgol uwchradd sy'n gallu darparu continwwm ieithyddol addas o'r sector cynradd ymlaen i CA3 a CA4 a chynnal gweithgareddau pontio sy'n adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo;

12. Bod y Cyngor Sir yn disgwyl i ysgolion uwchradd adeiladu ar y sylfaen ieithyddol a osodwyd gan yr ysgolion cynradd Cymraeg drwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel cyfrwng dysgu hyd at CA4;

13. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu protocol dilyniant clir gyda phob ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg (neu ddwyieithog), gyda hyfforddiant priodol lle bo angen, er mwyn cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol:

14. Bod y Cyngor Sir yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynllun ail-gyfle yn y cyfnod pontio rhwng y sector cynradd a'r uwchradd gan fabwysiadu'r Cynllun Trochi sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ledled Cymru;

15. Bod y Cyngor Sir yn cytuno ar amserlen a chynllun i gefnogi ysgolion 2A, 2B a 3 i symud ar hyd y continwwm iaith dros gyfnod o amser a rhoi arweiniad i sicrhau bod pob ysgol uwchradd arall yn symud ar hyd y continwwm iaith a chreu ethos sy'n annog parch tuag at y Gymraeg;

16. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd.

17. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion;

18. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir.

19. Bod y Cyngor Sir yn cynnal asesiad o'r galw am addysg Gymraeg mewn ardaloedd lle ystyrir bod angen;

NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.

39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.

<table>
<tr><th>A. Amcan</th><th>B. Perfformiad cyfredol</th><th>C. Targedau</th><th>Ch. Cynnydd</th></tr>
<tr>
<td>Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (laith Gyntaf)</td>
<td>Y canran o ddisgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg laith Gyntaf:

<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>% Bl9 wedi eu hasesu yn Gymraeg laith 1af</th></tr>
<tr><td>2010</td><td>36.0%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>36.0%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>36.5%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>35.6%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>38.4%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>43%</td></tr>
</table>

Esboniad o ysgolion uwchradd yn y Sir- Cyfanswm ysgolion Uwchradd Sir Gar yn ôl diffiniadau yn Nogfen Gwybodaeth Llywodraeth Cymru 023/2007:

<table>
<tr><td>2A (AB)</td><td>3 ysgol uwchradd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Strade - Llanelli
Bro Myrddin - Caerfyrddin
Maes y Gwendraeth - Cefneithin/Gwendraeth</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>2B (BB)</td><td>2 ysgol uwchradd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyffryn Aman - Rhydaman
Bro Dinefwr – Llandeilo/Llanymddyfri</td></tr>
</table>
</td>
<td>Codi'r canran o ddisgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg laith Gyntaf:

<table>
<tr><td>2012</td><td>37%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>40%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>45%</td></tr>
</table>
*Wedi diwygio'r targed yn dilyn cynnydd arwyddocaol yn 2015.

Sefydlu gorsaf ddwyieithog yn Llanelli.

Cynnal a chodi nifer o bynciau a chynigir yn ddwyieithog i ddisgyblion Blynyddoedd 7, 8 a 9 ysgolion EM er mwyn symud ar hyd continwwm iaith yr awdurdod lleol.

Cynnal hyfforddiant i deuluoedd ysgolion Coedcae, Bryngwyn Sant Ioan Llwyd, a Glan y Môr.

Dadansoddi'n fanylach a thracio</td>
<td>Wedi cyrraedd targed 2017- wedi addasu i 45%.

Mae'r uned MEP yn ymwybodol o leoedd mewn ysgolion a'r rhaglen i gynllunio ar gyfer twf.

Mae cynllun buddsoddi yn y Strade wedi ei gwblhau a buddsoddiad Maes y Gwendraeth ar waith.

Cefnogir ysgolion i ddarparu cwricwlwm eang yn y Gymraeg.</td>
</tr>
</table>

	3 (EW) | **2 ysgol uwchradd** Y Frenhines Elisabeth- Caerfyrddin Dyffryn Taf - Hendy-gwyn **4** (EM) | **5 ysgol uwchradd** *Bryngwyn*- Llanelli *Coedcae*- Llanelli *Glan-y-môr*- Porth Tywyn *Ysgol Gatholig Sant Ioan Llwyd*- Llanelli *Emlyn* - Castell Newydd Emlyn Adran wedi ei ddiweddaru Yn Coedcae, Bryngwyn, Glan-y-môr a Sant Ioan Llwyd, dysgir Cymraeg fel ail iaith yn unig. Mae ysgol Bryngwyn yn cynnig rhan o'r cwricwlwm yn ddwyieithog i ddisgyblion Blwyddyn 7. Mae hwn yn gynnydd diddorol a chanmoladwy ar hyd y continwwm. Mae'r canran o ddisgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf yn un cymharol isel ond yn codi wrth i'r ysgolion uwchradd Categorïau Dwyieithog 2B gynyddu o ganlyniad i drawsnewid addysg uwchradd yn Ninefwr. Hefyd yn sgil y Strategaeth bydd ysgolion yn gweithredu cynlluniau i sicrhau bod disgyblion yn parhau gyda rhaglenni iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3.	dewisiadau/safonau Ysgolion 2B Hyrwyddo a hwyluso addysg ddwyieithog wrth gynnal disgyblion B7 a B8- Prosiect AGGaD. Sefydlu canolfan Beasley yn ysgol y Strade- haf 2014 Cydweithio mewn dwy ysgol 2A a 2B i dracio cynnydd plant o'r cynradd ym Ml. 7,8 a 9 Sefydlwyd dwy orsaf iaith yn ardal Cwm Gwendraeth i dargedu 75 disgybl i gysoni iaith trosglwyddo i GA3.	Cynllun ***Pontio Cynradd-Uwchradd*** a dreialwyd yn ysgolion cynradd Bro Dinefwr Haf 2015/2016 Parhau gyda'r ddarpariaeth Gorsafoedd Iaith yn ymateb i anghenion ardal
Hyrwyddo trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y cyfnod cyn ysgol i ddarpariaeth statudol.	Bydd system tracio disgyblion y sir yn cynnwys y wybodaeth ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir yn arf targedu ardaloedd. Mae'r dilyniant ieithyddol rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 100% ac yn codi mewn ysgolion Dwy Ffrwd. Mae nifer yr ysgolion Dwy Ffrwd mewn trafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol i symud ar hyd y continwwm tuag at fod yn Ysgolion Trawsnewidiol oherwydd y nifer o ddisgyblion sydd yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.	Sicrhau system tracio gadarn ar gyfer y lleoliadau- defnyddio'r data i dargedu ardaloedd Parhau i dargedu a chefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm	Parhau i dargedu a chefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm. Cyd weithio gyda LIC ar y posibiliadau o greu ysgolion CS Cyfrwng gydag adran Iau yn darparu dewis iaith.

Hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog.	Defnyddir systemau tracio i fesur dilyniant ieithyddol rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ariennir yn y sector cyn ysgol nas cynhelir a darpariaeth a gynhelir o fewn y Cyfnod Sylfaen Defnyddir data, Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth, hyfforddiant a chyrsiau ar lawr y dosbarth i hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog . Yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 mae'r AGGaD, AS a'r ASC yn monitro cynnydd. Rhwng Cyfnodau Allweddol 2/3 a 3/4 defnyddir data a systemau tracio, y Fframwaith Rhanbarthol Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth ac ymweliadau AS a ASC i fonitro cynnydd. Ar draws y cyfnodau Allweddol bydd arolygiadau Llythrennedd a chraffu ar waith yn cael ffocws penodol ar ddilyniant ieithyddol. Datblygu cyfleoedd pellach i ddysgwyr gynnal a gwella eu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn ysgolion dwyieithog wrth gyd weithio â phartneriaid yn y sir ac ar draws y rhanbarth i hyrwyddo manteision dysgu cyfrwng Cymraeg. Cyfran y cwricwlwm a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion CC a Dwy Ffrwd yw o leiaf **70%** o amser addysgu. Yn y sector uwchradd mae yna amrywiaeth ar draws y 12 ysgol. Mae monitro'r ysgolion unigol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn digwydd yn gyson trwy- • Ymweliadau AS • Hyfforddiant gan ASC • Arolygon Llythrennedd • AGGaD • Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth O ran cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion penodol	Gwella dilyniant ieithyddol ym mhob cyfnod addysg. Parhau i gynnal arolygon llythrennedd rhanbarthol. Cyd weithio ar draws y rhanbarth i rannu data, rhannu arfer da, sicrhau cysondeb a defnyddio arbenigedd i godi safonau Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion penodol Codi ymwybyddiaeth rhieni.	Cyd weithio gyda Chymraeg i Oedolion. Pecynnau hyfforddi gydag iaith addas wedi eu creu ar y cyd gyda'r AGGaD. Cyrsiau wedi eu darparu ar draws y sir. Defnydd o Rwyd a theclyn arsylwi gwersi a chraffu gwaith gan benaethiaid, athrawon a chynghorwyr her ar draws y rhanbarth i godi lefelau a sicrhau cysondeb O ran cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion penodol yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 mae'r AGGaD yn targedu ysgolion ac athrawon ar gyfer hyfforddiant amrywiol megis- Modelu arfer da ar lawr y dosbarth Hyfforddi oedolion a disgyblion ar lawr y dosbarth. Targedu ar gyfer y cyrsiau Sabothol LlC

	yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 mae'r AGGaD yn targedu ysgolion ac athrawon ar gyfer hyfforddiant amrywiol megis- • Modelu arfer da ar lawr y dosbarth • Hyfforddi oedolion a disgyblion ar lawr y dosbarth • Targedu ar gyfer y cyrsiau Sabothol LIC • Cynnal darpariaeth ôl ofalaeth yn y dosbarth Yn CA3 mae'r ddarpariaeth yn amrywio o ysgol i ysgol ond yn cynyddu wrth i'r ail strwythuro ymwreiddio. Yn sgil y Strategaeth bydd ysgolion yn gweithredu cynlluniau i sicrhau bod disgyblion yn parhau gyda rhaglenni iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo i GA3.		Cynnal darpariaeth ôl ofalaeth yn y dosbarth

<u>Deilliant 3</u>: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

<u>Deilliant 4:</u> Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

<u>Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr-</u> yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr

NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

NOD: I brif ffrydio datblygiad yr iaith Gymraeg fel rhan ganolog o unrhyw gynlluniau datblygu economaidd o fewn Sir Gaerfyrddin

NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.

39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.

NOD: I gynyddu ystod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn atgyfnerthu'r iaith y tu allan i furiau'r ysgol.

45. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw a'r gallu i'r sector breifat, gyhoeddus a gwirfoddol i weithredu yn ddwyieithog.

46. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Gyrfa Cymru trwy'r Rhwydwaith 14-19 i hyrwyddo anghenion y sector breifat o ran sgiliau dwyieithog.

NOD: I gynyddu ystod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn atgyfnerthu'r iaith y tu allan i furiau'r ysgol.

55. Bod y Cyngor Sir yn cydlynu grŵp gweithredu strategol fyddai'n cynnwys ysgolion uwchradd, mudiadau ieuenctid y sir, y sector addysg bellach ac uwch a'r sector hamdden i gynllunio a chysylltu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael o fewn y Sir, i dargedu adnoddau yn ôl y gofyn ac i adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

<table>
<tr><th>A. Amcan</th><th>B. Perfformiad cyfredol</th><th>C. Targedau</th><th>Ch. Cynnydd</th></tr>
<tr>
<td>Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.</td>
<td>Mae'r canran y myfyrwyr (a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf) sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau diwedd Blwyddyn 11 drwy gyfrwng y Gymraeg fel a ganlyn:

<table>
<tr><td>2010</td><td>55.0%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>60.0%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>56.1.%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>60%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>60.2%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>61.5% I'w gadarnhau</td></tr>
</table>

Ar yr un pryd mae'r canran y myfyrwyr (a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf) sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau diwedd Blwyddyn 11 drwy gyfrwng y Gymraeg fel a ganlyn-
<table>
<tr><td>2010</td><td>68%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>70%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>83.9%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>87.7%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>91.6%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>88.3% I'w gadarnhau</td></tr>
</table>

Mae'r deilliant hwn yn cael ei gyflawni gan yr ysgolion uwchradd sydd yn dysgu Cymraeg iaith gyntaf a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod allweddol 4.

Mae'r deilliant 5 pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddeilliant</td>
<td>Cynyddu'r canran i-

<table>
<tr><td>2015</td><td>65%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>65%</td></tr>
</table>
* Wedi diwygio'r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.

Cynyddu'r canran i-

<table>
<tr><td>2015</td><td>89%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>90%</td></tr>
</table>

Cynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg iaith gyntaf yn ysgolion categori 2B, 2C a 2CH.</td>
<td>Gwelwyd cynnydd rhwng 2013 a 2015. Bydd effaith buddsoddiad ysgolion Bro Dinefwr a Maes y Gwendraeth yn eu hadlewyrchu yn y data yn y dyfodol.

Symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith- Ysgol Bro Myrddin i symud o gategori 2A i gategori 1- ymgynghori'n ffurfiol ar hyn o bryd.

Cyd weithio ar draws y rhanbarth i greu a chydlynu adnoddau a gweithgareddau ar gyfer y fanyleb newydd. Eu rhannu ar wefan ERW.

Defnyddio adnoddau</td>
</tr>
</table>

	uchelgeisiol i'r patrwm o ysgolion uwchradd sydd gan y sir ar hyn o bryd. Wrth i nifer yr ysgolion Categori 2B gynyddu, megis yn Ninefwr, disgwylir i'r nifer o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ac yn dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu yn yr ysgolion hynny gan gynyddu'r nifer a'r ganran fydd yn dilyn 2 neu fwy o gymwysterau trwy'r Gymraeg Paragraff wedi ei golygu		crëwyd ar gyfer Siarter Sir Gâr cynradd i godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.
Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-16 oed yn cydymffurfio â'r Mesur Dysgu a Sgiliau Cymru 2009.	Mae'r ddarpariaeth yn digwydd yn y tair ysgol Categori 2A yn bennaf ar hyn o bryd, gydag ychydig yn digwydd yn yr ysgolion Categori 2C a 2Ch. Fe ddarperir nifer o gyrsiau galwedigaethol 14-16 ar safleoedd Coleg Sir Gâr hefyd. Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn datblygu ac yn cynyddu mewn ysgolion trwy gydweithio a'i gilydd. Bydd strwythur rheolaeth addysg 14-19 yn y Sir, a ddisgrifir isod, yn goruchwylio'r cynnydd a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio gyda gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau. Mae Rhwydwaith 14-19 Sir Gaerfyrddin wedi darparu prosbectws o gyrsiau ar gyfer disgyblion 14-19. Mae'n marchnata'r cyrsiau sydd ar gael gan gynnwys y rhai cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Hefyd dyrennir cyllid penodol, cyfran o'r grant 14-19, ar gyfer hyrwyddo sefydlu a datblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylid nodi bod y Sir yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion trwy'r fformiwla cyllid yn ôl cyfran y pynciau a gynigir trwy'r Gymraeg ar draws yr ystod oedran. Mae hyn wedi hyrwyddo darparu dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion.	Parhau gyda'r ddarpariaeth yn ysgolion categori 2A. Cynyddu'r ddarpariaeth yn ysgolion 2B a 2C. Cwrdd â gofynion newydd addysg 14-19, 2014	Parhau gyda'r ddarpariaeth a chodi dealltwriaeth o fanteision dwyieithrwydd. Cychwyn ar Siarter Iaith Uwchradd ar y cyd gyda Gwynedd.
Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy	**Canran y myfyrwyr 16-19 sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog (e.e. elfennau o gymwysterau/modiwlau):**	Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion 2A a 2B.	Cynnal arolwg defnydd iaith. Cyd weithio gyda Mentrau a Trywydd i

gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.	<table><tr><td>**2010**</td><td>**29%**</td></tr><tr><td>**2011**</td><td>**38%**</td></tr><tr><td>**2012**</td><td>**30.9%**</td></tr><tr><td>**2013**</td><td>**31.3%**</td></tr><tr><td>**2014**</td><td>**33.8%**</td></tr><tr><td>**2015**</td><td>**30.34**</td></tr></table> Eto, fel gyda deilliannau sydd yn benodol i Gyfnod Allweddol 4, dyma elfen anodd ei datblygu a'i chynyddu y tu allan i'r 3 ysgol Categori 2A. Mae'r ysgolion naturiol dwyieithog yn cael eu hannog i gyflwyno elfennau neu holl agweddau'r Fagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion nad ydynt yn dilyn eu pynciau dewis trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae swyddogion y Sir, trwy'r strwythur o gyfarfodydd rheoli yn cyd-weithio gydag ysgolion a rheolwyr Coleg Sir Gâr a darparwyr eraill, megis y mentrau iaith, i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr ôl 16. Mae ysgolion y Bartneriaeth Addysg Gymraeg, sef y tair ysgol Categori 2A, wedi arloesi trwy gyd-weithio i gynyddu'r ddarpariaeth o gyrsiau galwedigaethol a'r arlwy mwy traddodiadol. Mae'r Bartneriaeth yn darparu cyrsiau yn yr ystod oedran 16-19 yn bennaf. Mae swyddog o'r Awdurdod yn mynychu cyfarfodydd o'r Fforwm yn y de-orllewin. Mae penaethiaid ysgolion Categori 2A Sir Gaerfyrddin yn aelodau ffyddlon o'r Fforwm ac maent wedi arloesi trwy ddatblygu ar waith eu Partneriaeth hwy a Choleg Sir Gâr a chynnal partneriaethau traws-ffiniol i gynnal cyrsiau cyfrwng Cymraeg mwy traddodiadol a galwedigaethol. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y Mesur Addysg a Sgiliau ac yn sicrhau cyrsiau cynaliadwy.	<table><tr><td>**2017**</td><td>**35%**</td></tr></table> **** Wedi diwygio'r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.*** Parhau i gynyddu'r elfennau o'r cwrs Bagloriaeth Cymru a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion nad ydynt yn dilyn eu pynciau dewis trwy gyfrwng y Gymraeg.	geisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd parhau i astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygu strwythur ffurfiol o gyd weithio ar draws y rhanbarth yn ymarferol ac yn rhwydweithiol

Gweithio drwy rwydweithiau ardal 14-19 a Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Mae darnau perthnasol yn y sylwadau blaenorol ac isod yn berthnasol i'r cwestiwn hwn. Mae Grŵp Gweithredol 14-19 y rhwydwaith yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdod, penaethiaid ysgol uwchradd ac uwch reolwyr Coleg Sir Gâr. Dyma'r grŵp sydd yn goruchwylio'r ddarpariaeth alwedigaethol, gan gynnwys y ddarpariaeth Gymraeg ar draws y Sir. Mae cynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd o dri chlwstwr ardal a'r Bartneriaeth cyfrwng Cymraeg traws-glwstwr sydd yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio a gweithredu'r ddarpariaeth. Mae cyd bwyllgor llywodraethwyr yn goruchwylio gwaith pob clwstwr a phartneriaeth. Dyma'r sianelau sydd yn hyrwyddo a chefnogi'r datblygiadau cyfrwng Cymraeg.	Parhau i gyd weithio drwy Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Parhau i gyd weithio drwy Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Casglu a defnyddio data ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19 **Cynllunio ar gyfer darpariaeth ôl-16 o fewn partneriaethau.**	Mae'r strwythur rheoli a ddisgrifiwyd ar gyfer y cwestiwn blaenorol yn monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ystod oedran 14-19. Hefyd mae'r grŵp sicrhau ansawdd yn casglu gwybodaeth, gan gynnwys barn disgyblion a thrwy arsylwi gwersi, er mwyn llunio adroddiad hunan-arfarnu blynyddol. Rhoddir sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gweithgareddau hyn. Ar gyfer pob cyfarfod a ddisgrifiwyd yn y strwythur uchod mae penaethiaid a rheolwyr cwricwlwm yr ysgolion a'r Coleg yn cyd-drafod. Trwy hyn, fe ddarperir at ofynion disgyblion yr ysgolion o ran cyfrwng a llwybrau dysgu unigol. Fe ychwanegir at y ddarpariaeth yn flynyddol. Ychydig iawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gyfer disgyblion 14-19 oed yn y gweithle ac eithrio mewn maes addysg a datblygiad plentyn. Lluniwyd prosbectws papur ac electroneg o gyrsiau 14-19 a ddarperir yn ysgolion a choleg Sir Gâr. Swyddogion yr	Parhau i ymateb i ofynion disgyblion o ran cyfrwng a llwybrau dysgu unigol a'u monitro'n gyson.	Siarter Iaith Uwchradd i wneud arolwg darpariaeth ôl 16. Parhau i ymateb i ofynion disgyblion o ran cyfrwng a llwybrau dysgu unigol a'u monitro'n gyson. Wedi pennu swyddog cyd lynu gan ddefnyddio grant Bwrw Ymlaen. Gwaith y swyddog ydy i greu llwybrau llyfn rhwng ysgolion, y colegau a'r

	Awdurdod fu'n arwain a rheoli'r gwaith hwn. Mae cyfrwng yr addysgu yn cael ei nodi ar gyfer pob cwrs. Nid yw'r prosbectws yn cynnwys y ddarpariaeth yn y gweithle.		gweithle. Tynnu sylw'r gweithle o bwysigrwydd a'r manteision o gynnal cyfleoedd Cyfrwng Cymraeg

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr ag uwch sgiliau iaith yn y Gymraeg

Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr- yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr

NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.

39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.

NOD: I brif ffrydio datblygiad yr iaith Gymraeg fel rhan ganolog o unrhyw gynlluniau datblygu economaidd o fewn Sir Gaerfyrddin.

45. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw a'r gallu i'r sector breifat, gyhoeddus a gwirfoddol i weithredu yn ddwyieithog.

46. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Gyrfa Cymru trwy'r Rhwydwaith 14-19 i hyrwyddo anghenion y sector breifat o ran sgiliau dwyieithog.

NOD: I gynyddu ystod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn atgyfnerthu'r iaith y tu allan i furiau'r ysgol.

56. Bod y grŵp gweithredu strategol yn sicrhau ei fod yn datblygu cyfleoedd cymunedol cyfrwng Cymraeg a fydd yn cefnogi ac yn atgyfnerthu'r cwricwlwm addysgol.

57. Bod y Cyngor Sir yn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ei wasanaeth ieuenctid ac yn cefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

58. Yn unol ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Glybiau Ieuenctid (Ionawr 2014) blaenoriaethu cynyddu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r ymagwedd strategol newydd drwy gomisiynu rhai sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth ieuenctid agored trwy gyfrwng y Gymraeg.

65. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agosach gyda Theatr Genedlaethol Cymru er mwyn cynnig cyfleoedd cymunedol cyfrwng Cymraeg;

66. Bod y Cyngor Sir yn denu a hyrwyddo perfformiadau Cymraeg a dwyieithog o fewn eu theatrau sirol.

A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol	C. Targedau	Ch. Cynnydd
Gwella gwaith sgiliau llythrennedd Cymraeg.	Cydymffurfio gyda Strategaeth Llythrennedd Sir Gaerfyrddin. **Bwriad 1**: ***Holl ysgolion Sir Gaerfyrddin yn parhau i godi cyraeddiadau pob disgybl er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn cyflawni eu potensial.*** **Ein nod yw i:** • gefnogi a herio safon y dysgu ac addysgu er mwyn gwella ansawdd gwaith disgyblion unigol a holl ysgolion yr awdurdod lleol; • datblygu a chefnogi arweinyddion system llythrennedd Cymraeg; • hyrwyddo rhannu arfer da ar draws yr Awdurdod Lleol, ERW ac o fewn teuluoedd; • cynorthwyo wrth ddatblygu a chefnogi Cymunedau Dysgu Proffesiynol ar draws yr Awdurdod Lleol; • canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau i bob dysgwr yn unol â'r Fframwaith Sgiliau 3-19 gan roi arweiniad ar addysg ddatblygiadol; • rhoi arweiniad a chymorth i ddatblygu dysgwyr annibynnol; • trefnu a chefnogi cyfarfodydd traws gyfnod o fewn ysgolion, ar draws teuluoedd i hybu dilyniant a chynnydd; • codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth i wella safonau; • sicrhau bod systemau effeithiol wedi eu gosod er mwyn asesu, tracio, recordio a chymedroli a safonau. **Bwriad 2: *I gynorthwyo ysgolion Sir Gaerfyrddin ar y matrics Fframwaith Cymorth a Her sydd fwyaf angen codi safonau llythrennedd Cymraeg.*** **Ein nod yw i:**	Targedi ysgolion sydd fwyaf angen codi safonau llythrennedd Cymraeg.	Adroddiad data ar gael.

	• darparu hyfforddiant arbennig a chefnogaeth i'r ysgolion a enwir. **Bwriad 3: *I sicrhau fod disgyblion isel eu cyrhaeddiad yn llwyddo i symud ymlaen tuag at safon llythrennedd fydd yn eu galluogi i elwa ar gyfleodd addysgiadol a dod yn aelodau cyfrifol sy'n cyflawni eu potensial.*** **Ein nod yw i:** • estyn cyngor i ysgolion ar sut i gefnogi grwpiau bydd angen cymorth gyda llythrennedd Cymraeg; • cynnig cyngor ynglŷn ag hyfforddiant a pharatoi rhaglenni ymyrru'n gynnar; • cynnig arweiniad i ysgolion ar ffyrdd i gymell rhieni i gefnogi eu plant. **Bwriad 4: *I ddatblygu a meithrin agweddau hunan arfarnu beirniadol.*** **Ein nod yw i:** • cefnogi ysgolion yn y broses o hunan arfarnu i sicrhau datblygu arfer da mewn llythrennedd Cymraeg; • weithio gydag ysgolion/teuluoedd i adnabod, cefnogi a meithrin arweinwyr system; • weithio gydag ysgolion/teuluoedd i gefnogi a meithrin Cymunedau Dysgu Proffesiynol effeithiol. **Bwriad 5: *I weithio gydag ysgolion a darparwyr addysg i godi ymwybyddiaeth y teulu a'r gymuned eang i fynd i'r afael ag anfanteision economaidd cymdeithasol sydd yn rhwystro cynyddu safonau yn y Gymraeg.*** **Ein nod yw i:** • gydweithio gyda rhieni/gofalwyr i'w galluogi i helpu datblygiad llythrennedd Cymraeg eu plant yn y cartref a'r ysgol;	Parhau i gynnal hyfforddiant ar gyfer rhaglenni ymyrryd fel Llythrennau a Synau, Dyfal Donc. Datblygu a meithrin hunan arfarnu beirniadol. Parhau i weithio gydag ysgolion a darparwyr addysg i godi ymwybyddiaeth y teulu a'r gymuned eang i fynd i'r afael ag anfanteision economaidd cymdeithasol sydd yn rhwystro cynyddu safonau yn y Gymraeg.	

<table>
<tr>
<td></td>
<td>

gydweithio gyda'r Mentrau Iaith i helpu ysgolion i ddatblygu ysgolion fel canolfannau dysgu o fewn eu cymuned.

Bwriad 6- Pob dysgwr yn mwynhau profiadau creadigol newydd

Ein nod yw i:

annog pob ysgol/teulu i barhau i weithio'n agos gyda Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd, Theatr Mewn Addysg.

</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg laith Gyntaf.</td>
<td>
Canran o ddisgyblion diwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd Deilliant 5 mewn laith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg (ysgolion Cyfrwng Cymraeg, Trawsnewidiol a Dwy Ffrwd):

<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd Deilliant 5 Cymraeg</th><th>Cyfartaledd rhanbarth</th><th>Cyfartaledd Cymru</th></tr>
<tr><td>2012</td><td>85.40%</td><td>84.50%</td><td>85.93%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>86.2%</td><td>86.6%</td><td>86.2%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>89.2%</td><td>90.2%</td><td>89.2%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>91.4%</td><td>92.2%</td><td>91.4%</td></tr>
</table>

Canran o ddisgyblion diwedd CA2 sy'n cyrraedd L4+ :

<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>CA2 yn cyrraedd L4+ Cymraeg</th><th>Cyfartaledd rhanbarth</th><th>Cyfartaledd Cymru</th></tr>
<tr><td>2010</td><td>75.1%</td><td>80%</td><td>81%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>80.5%</td><td>82%</td><td>82%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>83%</td><td>87%</td><td>84%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>84.5%</td><td>85.8%</td><td>86.7%</td></tr>
</table>
</td>
<td>
Targed i godi'r canran:

<table>
<tr><td>2015</td><td>92%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>93%</td></tr>
</table>

Hyrwyddo dilyniant o raglen Llythrennau a Synau yn y Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosiect codi safonau Sir Gâr

Codi'r canran:

<table>
<tr><td>2015</td><td>89%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>90%</td></tr>
</table>
</td>
<td>
0.6% o dan y targed
Parhau i hyrwyddo dilyniant o raglen Llythrennau a Synau yn y Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosiect codi safonau Sir Gâr

Targedu ysgolion wedi ymweliadau Ymgynghorwyr her a chynnal hyfforddiant penodol ERW

Targed 2015 heb gyrraedd o 0.4%. Parhau i dargedu a lledu arfer da wrth weithio yn sgol Donaldson o ysgol i
</td>
</tr>
</table>

2014	**84.4%**	**87.3%**	**88.1%**
2015	**88.6%**	**89.5%**	**90.5%**

Canran y disgyblion diwedd CA3 sy'n cyrraedd Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg:

Blwyddyn	CA3 yn cyrraedd L5+ Cymraeg	Cyfartaledd rhanbarth	Cyfartaledd Cymru
2010	**72.70%**	**78%**	**77%**
2011	**82.30%**	**84%**	**81%**
2012	**83.00%**	**86%**	**84%**
2013	**83.6%**	**86.8%**	**87.6%**
2014	**88.7%**	**90%**	**90.1%**
2015	**86.5%**	**89.2%**	**90.9%**

Canran o ddisgyblion diwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C TGAU Cymraeg.

2011	**74.4%**
2012	**73.0%**
2013	**72.9%**
2014	**69.1%**
2015	**72.3%**

Er mwyn ceisio gwella safonau cyrhaeddiad bwriedir parhau i :

- fonitro a thargedu ysgolion wrth ddefnyddio'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd yn y sector cynradd yn ogystal ag Arweinyddion System ac Arweinyddion System Cysylltiol
- cynnal archwiliad o lefelau/oed darllen Cyfnod Allweddol 2

Codi'r canran:

2015	**86%**
2017	**88%**

Codi'r canran A* - C TGAU Cymraeg:

2015	***75%***

**** Wedi diwygio'r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.***

Parhau i fonitro data a gosod targedau.
Ymateb i ganlyniadau'r arolwg llythrennedd gan ysgol

Targed wedi ei gyrraedd- parhau i dargedu a lledu arfer da wrth weithredu syniadau Donaldson o ran cefnogaeth ysgol i ysgol, cydweithio, rhannu arfer dda a chymedroli 'n rhanbarthol.

Dal o dan y targed. Parhau i fonitro a gosod targedau. Cyd weithio ar draws y rhanbarth i rannu arfer da

<table>
<tr>
<td></td>
<td>

monitro prosiectau ymyrryd yn gyson
sylweddoli newidiadau yn ystadegau Cyfnodau Allweddol 3 a 4 wedi sefydlu ysgol 2B ardal Dinefwr yn 2013.
dilyn amserlen ranbarthol safoni a chymedroli llythrennedd
targedu ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol yn ôl y matrics Fframwaith Rhanbarthol.

</td>
<td>Arweinyddion System</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i’r ystafell ddosbarth.</td>
<td>Mae nifer o brosiectau gan ysgolion, Mentrau Iaith, Bwrdd yr Iaith, Mudiad Meithrin, Estyn Llaw, Urdd Gobaith Cymru, Pwyllgor Ieuenctid, Clybiau Ffermwyr Ifanc a Chymraeg i Oedolion yn datblygu cyfleoedd dysgu ac addysgu ffurfiol ac anffurfiol sy’n gynhwysfawr a chynaliadwy. Maent yn atgyfnerthu ac yn gwireddu’r nod o sicrhau disgyblion rhugl dwyieithog, yn ogystal â meithrin cydweithrediad rhwng partneriaid allweddol er mwyn sicrhau parhad a dilyniant mewn cyfleoedd dysgu.

Darperir cyrsiau preswyl yr Urdd a nifer helaeth o glybiau ar ôl ysgol yn y Cyfnod Sylfaen/Cyfnodau Allweddol 2/3/4</td>
<td>Codi ymwybyddiaeth ysgolion o’r cyfleoedd datblygu defnydd anffurfiol o’r Gymraeg yn dymhorol.</td>
<td>Cyd weithio gyda’r Mentrau Iaith ac AGGaD trwy’r Siarter Codi Caerau</td>
</tr>
<tr>
<td>Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith.</td>
<td>Canran y disgyblion diwedd CA2 sy’n cyrraedd o leiaf L4 mewn Cymraeg Ail Iaith:

<table>
<tr><td>2011</td><td>58.4%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>51.4%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>61.1%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>69.1%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>72.3%</td></tr>
</table>

Wrth gymedroli Clwstwr Cyfnod Allweddol 2/3 ar godi safonau Cymraeg Ail Iaith ar draws ysgolion nodir y pwyntiau yma:

Ail ystyriwyd y Cynlluniau Gwaith Ail Iaith er mwyn sicrhau bod y tasgau a osodwyd yn ddigon heriol i ganiatáu tystiolaeth ar lefelau 4/5;

</td>
<td>Parhau i godi’r canran o ddisgyblion sy’n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd CA2:

<table>
<tr><td>2015</td><td>64%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>75%</td></tr>
</table>

* Wedi cynyddu’r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.</td>
<td>Targedau wedi cyflawni

Cymedroli ar draws y sir a chymedroli ar draws ERW. Lansio Siarter Ail Iaith i godi ymwybyddiaeth yn 2016</td>
</tr>
</table>

	• Dilyniant a pharhad drwy'r ysgol o ran y patrymau iaith a gyflwynir; • Angen disgwyliadau uchel o ran yr athrawon; • Angen gwell dealltwriaeth o'r disgrifiadau lefel Ail Iaith –Llafar, Darllen ac Ysgrifennu; • Codwyd statws y Gymraeg fel Ail Iaith yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg; • Pwysigrwydd safoni a chymedroli ar draws ysgolion, teulu, Awdurdod Lleol ac ERW. **Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd Lefel 5 mewn Cymraeg Ail Iaith:** **2010 52.9%** **2011 61.8%** **2012 63.5%** **2013 70.6%** **2014 76.6%** **2015 80.9%** Cynnydd sylweddol dros gyfnod. **Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn**: **2010 67.7%** **2011 69.7%** **2012 67.0%** **2013 69.8%** **2014 78.2%** **2015 79.5%**	Parhau i godi'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd CA3: **2015 72%** **2017 85%** **** Wedi cynyddu'r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.*** Parhau i godi'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn ar ddiwedd CA4:	Targed wedi cyflawni Adlewyrchiad o'r mewnbwn gan AGGAD a'r cyd weithio rhwng y Cynradd ac Uwchradd ar draws ERW O fewn cyrraedd y targed- sicrhau cynnal y safonau ail iaith gan sicrhau cynnydd ym mamiaith yn ogystal.

	Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr – **2010 77%** **2011 69%** **2012 0%** **2013 0%** **2014 0%** **2015 0%**	**2015 80%** **2017 82%** **** Wedi cynyddu'r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.*** Cynnal y canrannau Cymraeg Ail Iaith wrth sicrhau codi canrannau Cymraeg Iaith Gyntaf Parhau i sicrhau nad oes disgyblion yn sefyll Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr.	
Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.	Datblygir defnydd achlysurol o'r Gymraeg mewn ysgolion Cyfrwng Saesneg cynradd: • Targedir athrawon prin eu Cymraeg gan Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd a'u hyfforddi ar lawr y dosbarth; • Dilyniant cyrsiau sabothol; • Hyfforddi i ddefnyddio pecynnau ar gyfer defnydd achlysurol o'r Gymraeg gan gynnwys gemau ac iaith y buarth; • Cyrsiau i oedolion yn seiliedig ar iaith achlysurol y dosbarth; • Rhaglenni gwobrwyo defnydd achlysurol ar lawr y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol; • Cyd weithio gyda phwyllgorau Ieuenctid; • Cyd-greu posteri iaith ar gyfer defnydd achlysurol; • Eisteddfodau; • Cyngherddau; • Clybiau;	Yn flynyddol, cynyddu'r nifer o athrawon sy'n defnyddio'r iaith yn achlysurol naturiol yn yr ysgol. Creu awyrgylch ac ethos Cymraeg a Chymreig yn ddyddiol.	Siarter Iaith Sir Gar 'Codi Caerau' yn gerbyd i gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion, staff a rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. Adnabod a recriwtio athrawon a chynorthwywyr dysgu ar gyfer y Cyrsiau Sabothol lefelau Mynediad, Sylfaen ac Uwch.

<table>
<tr>
<td></td>
<td>

- Teithiau addysgol;

Mae yna nifer o brosiectau gan y Mentrau Iaith a Bwrdd yr Iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yr awdurdod lleol e.e. ‘Blas ar Gymru’ ar gyfer hwyrddyfodiaid a’u teuluoedd.

Ar gyfer disgyblion uwchradd disgwylir bod digwyddiadau ar lefel clwstwr neu yn draws sirol a drefnir gan yr Awdurdod ac ysgolion yn cael eu cynnal yn ddwyieithog lle mae cyfle i ddisgyblion di-gymraeg a dysgwyr i glywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â’r fforwm ieuenctid, addysg iechyd, cyffuriau, gyrfau, ac ati. Yn yr un modd disgwylir bod ymwelwyr ag ysgolion yn defnyddio’r Gymraeg ar bob cyfle posibl ac yn hyrwyddo'r manteision o addysg ddwyieithog.
</td>
<td></td>
<td>AGGaD yn ***cyfrannu*** arbenigedd iaith a methodoleg yn ystod cyrsiau.

Cefnogi ymarferwyr nôl yn eu hysgolion

Cyflwyno sesiynau blynyddol ar fethodolegau cyflwyno Ail iaith i fyfyrwyr ail flwyddyn y cwrs BAdd</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynyddu cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail laith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail laith.</td>
<td>
Y canran o ymgeiswyr TGAU Cymraeg sy’n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch:
<table>
<tr><td>2010</td><td>7.0%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>7.0%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>4.5%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>5.4%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>4.5%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>4.2%</td></tr>
</table>
Y canran o ymgeiswyr Cymraeg Ail laith sy’n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch:
<table>
<tr><td>2010</td><td>4.00%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>3.00%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>3.60%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>2.5%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>3.2%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>2.55%</td></tr>
</table>
</td>
<td>Mae’r mater hwn yn creu consyrn i ni yn Sir Gar ond credwn ei fod yn adlewyrchu’r sefyllfa ar draws Cymru.
<table>
<tr><td>2015</td><td>6%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>6%</td></tr>
</table>
Er hynny ein nod yw cynyddu’r garfan o ymgeiswyr TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail laith sy’n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch.</td>
<td>Gwaith ymchwil yn digwydd i sicrhau cywirdeb data TGAU a throsglwyddo i ÔI 16- deall y rhesymau am leihad yn y nifer sy’n astudio Safon Uwch- natur y cwrs, dewis unigol...

Cyd weithio gyda choleg Sir Gâr i wella dealltwriaeth o ddata safon uwch ar draws y sir. Hyfforddiant y cyd ar draws y rhanbarth i rannu</td>
</tr>
</table>

	Byddai'n ddymunol iawn petai'r awdurdod ac ysgolion unigol yn medru cynyddu'r nifer o fyfyrwyr 16+ sydd yn dilyn Cymraeg fel pwnc arholiad iaith gyntaf neu ail iaith. Nid yw'n hawdd gwneud hyn ond ein gobaith yw y bydd hyn yn digwydd yn naturiol wrth i gynnydd yn y Gymraeg ddigwydd gyda gweithredu'r Strategaeth Cymraeg o'r Cyfnod Sylfaen hyd 19 oed dros gyfnod o amser. Yn rhannol dyma ffon fesur llwyddiant ein Strategaeth. Ar yr un pryd, yn unol â gofynion y Mesur Sgiliau a Dysgu, fe gynigir mwy o ddewis cyrsiau i blant y dyddiau hyn ac mae cystadleuaeth rhwng y pynciau i ddenu myfyrwyr yn yr oedran 16-19 yn milwrio yn erbyn y niferoedd sydd yn dilyn Cymraeg. Dylid nodi hefyd nad yw'r canran a ddangosir uchod yn ystyried y nifer o ddisgyblion sydd wedi gadael ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin, gyda chymhwyster TGAU mewn Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith, i barhau gydag addysg ôl 16 mewn coleg. Nid yw'r wybodaeth am y rhai sydd yn dilyn Cymraeg safon uwch yn y colegau wedi ei ystyried yma.	**2015** **3%** **2017** **3%**	arferion o ysbrydoli myfyrwyr i barhau i astudio Safon Uwch.

Deilliant 6: Gwella Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr- yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp laith Gymraeg Sir Gâr

NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

17. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion;

18. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir.

A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol	C. Targedau	Ch. Cynnydd
Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Cyfrwng Cymraeg.	Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Wele ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth: *Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial, mewn amgylchedd dwyieithog, sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi pob traddodiad diwylliant.* Byddwn yn gweithredu hyn drwy: • Cyflogi staff sy'n hyderus i weithio yn y Gymraeg a'r Saesneg; • Fe weithiwn i gefnogi datblygiad sgiliau ieithyddol y rhai sy'n llai hyderus i gyfathrebu ac ysgrifennu yn y Gymraeg. • Cefnogi athrawon a Chydlynwyr Anghenion Ychwanegol yn ein hysgolion Cyfrwng Cymraeg fel eu bod yn hyderus wrth gefnogi plant/pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.	Erbyn Rhagfyr 2014, drwy adolygu Cytundeb Partneriaeth Ysgol/ALl pob ysgol i fabwysiadu'r egwyddor. Erbyn Rhagfyr 2014 drwy wefan yr ALl/Llawlyfrau ysgolion rhannu gwybodaeth gyda rhieni. O hyn ymlaen penodi staff gyda'r sgiliau angenrheidiol/ addas i'r lleoliad. O hyn ymlaen sicrhau staff sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog gan sicrhau bod adnoddau pwrpasol ar gael iddynt er	Ysgolion yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni. Ysgolion wedi ymfalchïo yn y ddarpariaeth hyfforddiant a rhannu adnoddau ar draws ERW. Staff a gwasanaeth dwyieithog ar gael i ysgolion a disgyblion Sir Gar. Datblygu adnoddau dwyieithog wrth ymateb i'r newid deddfwriaeth ym ames ADY.

	• Bod addysg Gymraeg neu ddwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd yn yr unedau pwrpasol lle'r addysgir plant ag anawsterau dwys a bod cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl i dderbyn addysg a chefnogaeth yn ei iaith ddewisedig, beth bynnag fo ei anabledd. • Datblygu rhaglenni cefnogi/ymyrraeth ddwyieithog fel bod yr un adnoddau ar gyfer plant sy'n dewis mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. • Gwneud arolwg o'r ddarpariaeth bresennol gan farnu'r galw am Anghenion Dysgu cyfrwng Cymraeg Gwneud arolwg o'r ddarpariaeth bresennol gan farnu'r galw am Anghenion Dysgu iaith Gymraeg drwy- • Ymgynghori gyda Phenaethiaid/ Cydlynwyr Anghenion Dysgu yn rheolaidd i fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg • Ymgynghori gyda swyddogion/staff yr adran e.e. Seicolegwyr Addysg, Swyddogion Cynnydd Disgyblion, Arweinwyr System ar feysydd i'w datblygu. • Ystyried data am ddisgyblion sydd yn y system a'r galw am ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg. • Ymgynghori gyda rhieni drwy'r broses Adolygiad Blynyddol/Asiantaeth SNAP. • Gweithredu cynlluniau datblygu darpariaeth Anghenion Dysgu yn Ardal Dinefwr mewn dwy ysgol Categori 2B ac un ysgol Categori 2A. • Parhau gyda'r gwaith ar lefel rhanbarthol i'r potensial o weithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau arbenigol lleol yn lle gorfod prynu lleoedd i blant mewn darpariaethau y tu allan i'r ardal. • Datblygu'r drefn newydd o gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (Cynllunio Plentyn Canolog, Cynllun Datblygu Unigol, Hawl y Dysgwr) gan sicrhau fod y broses	mwyn medru darparu'r gwasanaeth. Ar bob achlysur cyflwyno/creu deunydd dwyieithog pwrpasol. Tymor yr Haf 2014- Llunio adroddiad hunan-arfarnu cynhwysfawr a fydd yn nodi sefyllfa bresennol y gwasanaeth a fydd yn cynnwys arolwg o'r ddarpariaeth bresennol e.e. gallu dwyieithog y staff Tymor yr Hydref 2014- llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael a'r canfyddiadau gan adeiladu unrhyw welliannau gwasanaeth i mewn i'r Cynllun Moderneiddio Ysgolion. Gweithredu'r cynlluniau a gytunwyd arnynt gan ehangu'r darpariaethau presennol a'r gallu i weithredu yn	Gweithio gyda LIC ar ddadansoddiad o'r gweithlu ADY. Darparu cyrsiau a gweithdai'n ddwyieithog i ddiwallu anghenion lleol.

	ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. • Rhannu gwybodaeth gyda rhieni. • Cydweithio gyda'r amrywiol asiantaethau er cytuno ar yr egwyddor a'r darparu. • Cyflogi/hyfforddi darparwyr yn y sgiliau dwyieithog angenrheidiol. • Adeiladu i mewn i'r Cynllun Moderneiddio Ysgolion. • Parhau i weithio gydag Awdurdodau eraill ar ddatblygu gwasanaethau arbenigol ardal.	ddwyieithog.	

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus

Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr- yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr

NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

20. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda phob corff Llywodraethol i gynnal arolwg sgiliau iaith er mwyn ystyried anghenion ieithyddol y gweithlu ar gyfer gallu symud yr ysgol ar hyd y continwwm iaith.

NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.

39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.

A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol	C. Targedau	Ch. Cynnydd
Sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.	Yr ydym yn cydweithio gyda chyrff llywodraethu ysgolion i geisio diwallu'r angen am ymarferwyr i ddysgu wrth sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o: • weledigaeth yr Awdurdod Lleol; • Cynllun Strategol Addysg Cymraeg Sir Gaerfyrddin; • Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg; • Trafodaethau gydag Arweinydd System; • Gweledigaeth y Pennaeth; • Hyfforddiant i Lywodraethwyr; • Cyflwyniadau o'r Papur Briffio Cymraeg a Dwyieithrwydd;	Does dim problemau o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg ond er mwyn sicrhau safonau uchel darperir cyrsiau gloywi iaith. Sefydlu bas data a'u diweddaru'n flynyddol.	Bas data'n fyw
Gwella sgiliau	Cynhelir archwiliadau o sgiliau ieithyddol y gweithlu yn gyson	Cydweithio i ddefnyddio	Casglu gwybodaeth sgiliau

Ieithyddol ymarferwyr. **Gwella sgiliau methodoleg ymarferwyr.**	drwy: • Holiadur Iaith am yn ail flwyddyn ar gyfer pob aelod o staff mewn ysgolion; • Arolwg i gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff gan y Cyngor- Holiadur electronig E-ddysgu *Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg'* a ddatblygwyd i amlinellu cyfrifoldebau Deddf Iaith 1993 a Mesur y Gymraeg 2010. Fe welwch hefyd cyfeiriadau at anghenion dysgu trwy gyfrwng. Mae'r cyrsiau yn cael eu dosbarthu yn ôl yr angen ar lefel unigolyn, ysgol neu deulu o ysgolion. Adnabyddir anghenion ar gyfer hyfforddiant methodoleg ar gyfer y rhai sy'n dysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy • Ymweliadau Arweinydd System; • Fframwaith Cymorth, Her ac Ymyrraeth Ranbarthol; • Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd; • Cymunedau Dysgu Proffesiynol; • Arweinwyr System Cysylltiol; • Data; • Cynlluniau Datblygiad Proffesiynol Parhaus teulu o ddefnydd arian grantiau; • Holiaduron iaith. Darperir rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn partneriaeth gydag asiantaethau megis y CBAC a'r cyrsiau Sabothol a hyn wedi selio ar anghenion a gofynion ymarferwyr wedi eu hadnabod trwy'r holiadur anghenion, cyfarfodydd rhwydwaith a chynlluniau teulu ar gyfer grant effeithiolrwydd	un holiadur i gasglu gwybodaeth sgiliau ieithyddol y gweithlu. Cynyddu'r cyd weithio rhwng cydlynwyr y Gymraeg er mwyn datblygu strategaethau a chysondeb ar draws ERW. Parhau i fonitro effaith y cyrsiau Sabothol ar lawr	ieithyddol yn flynyddol Cynnal sesiynau min nos ar gais ysgolion unigol ar *agwedd(au) o waith yr AGGaD* Sesiynau *dysgu Cymraeg*, *datblygu Dwyieithrwydd* neu *loywi iaith* ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd, yn ystod y diwrnod ysgol neu fel sesiynau min nos *Cefnogaeth iaith* i gynorthwywyr dysgu wrth eu gwaith ar lawr y dosbarth *Adnabod a recriwtio* athrawon a chynorthwywyr dysgu ar gyfer y Cyrsiau Sabothol lefelau Mynediad, Sylfaen ac Uwch AGGaD yn cyfrannu arbenigedd iaith a methodoleg yn ystod cyrsiau Cefnogi ymarferwyr nôl yn eu hysgolion Cyflwyno sesiynau blynyddol ar fethodolegau cyflwyno Ail iaith i fyfyrwyr ail flwyddyn y

	ysgolion. Bydd y cyrsiau Sabothol yn ogystal ag hyfforddiant ar lawr y dosbarth a mentora ar draws ysgolion yn hanfodol ar gyfer cynorthwyo ysgolion sy'n newid categori. Hefyd bydd cefnogaeth Cymunedau Dysgu Proffesiynol, Arweinwyr System ac ymweliadau Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd yn allweddol. Mae'r cynllun Cymunedau Dysgu Proffesiynol ac Arweinwyr System yn hanfodol i sicrhau cynaladwyedd. Mae'r Arweinyddion System yn cael eu defnyddio'n strategol ar gyfer hyfforddiant a mentora ac yn ymateb i ofynion ac anghenion ysgolion/teulu. Defnyddir: • Data; • Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth a'r Matrics; • Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg; • Strategaeth Llythrennedd; • Fframwaith Arolygu Llythrennedd Rhanbarthol; • Cyfathrebu a chyd weithio. • Iaith fyw: iaith byw 2012-2017 -LlC Mae'r adroddiadau ymweliad a hyfforddiant yn sicrhau hyn. Prif nod Datblygiad Proffesiynol Parhaus ydy i godi safonau llythrennedd a llythrennedd deuol. Mae'r teuluoedd, trwy Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn blaenoriaethu rhaglenni ymyrryd fel Llythrennau a Synau. Gwelir hefyd nodau ac amcanion strategaeth Llythrennedd -Deilliant 5	y dosbarth. Cynlluniau ar gyfer effeithiolrwydd darpariaeth Cymraeg-targedu ardal Caerfyrddin a Llanelli. Targedir athrawon ac ysgolion Dwy Ffrwd/Cyfrwng Saesneg sydd yn symud ar hyd y continwwm gan Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd. Parhau gyda'r cytundeb o gydweithio	cwrs BAdd

	Mae'r Awdurdod Lleol yn canfod athrawon ar gyfer Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru a chyrsiau iaith Gymraeg y Cynllun Sabothol. Darperir cyrsiau Cymraeg gan Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd i adnewyddu sgiliau, rhaglenni ôl ofalaeth, cefnogi a mentora. Bydd monitro yn digwydd pan ydynt yn dychwelyd i'r dosbarth a disgwyliadau o ran codi safonau Cymraeg Ail Iaith Mae yna gytundeb rhwng Prifysgol Dewi Sant y Drindod a'r awdurdod lleol bod cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd yn rhan o dîm hyfforddi'r cyrsiau Sabothol.		
Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob agwedd ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.	Mae pob teulu ysgol ar draws yr awdurdod lleol yn ystyried gwella cyrhaeddiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith ac mewn methodoleg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Darparwyd hyfforddiant safoni a chymedroli ar draws yr awdurdod lleol yn 2012/13. Cefnogir ysgolion trwy rannu data, rhannu arfer da a rhannu adnoddau. Ar lefel rhanbarthol ERW mae'r gwaith o gefnogi dysgu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith yn weithredol trwy: • Grŵp Ffocws Llythrennedd; • Hyfforddiant gan Arweinwyr System ac Arweinwyr System Cysylltiol; • Rhaglenni ymyrryd- Dyfal Donc, Llythrennau a Synau. Mae angen creu: • Diwylliant Perfformiad Uchel a chydraddoldeb; • Lleihau bwlch perfformiad mewn ysgolion a rhwng	Ehangu'r cyd weithio ac ystyried cyfnewid staff arbenigol	Mae pob teulu ysgol ar draws yr awdurdod lleol yn ystyried gwella cyrhaeddiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith ac mewn methodoleg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Darparwyd hyfforddiant safoni a chymedroli ar draws yr awdurdod lleol a'r rhanbarth Bydd Y Siarter Iaith yn gyrru'r defnydd o'r Gymraeg Ffocws yn yr All ar- • Diwylliant Perfformiad Uchel a chydraddoldeb; • Lleihau bwlch perfformiad

	ysgolion; • Lleihau bwlch perfformiad rhwng bechgyn a merched; • Sicrhau y defnyddir adnoddau a Rhwydweithiau Ymarfer Proffesiynol yn effeithiol; Sefydlir Cymunedau Dysgu Proffesiynol i fynd i'r afael â: • dysgu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith; • gwella llythrennedd Cymraeg/llythrennedd deuol; • dysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog; • caffael sgiliau iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen; • cynllunio ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion. Bydd Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd yn cychwyn ar y gwaith ac yna er mwyn sicrhau cynaladwyedd bydd ôl ofalaeth ganddynt hefyd.		mewn ysgolion a rhwng ysgolion; • Lleihau bwlch perfformiad rhwng bechgyn a merched; • Sicrhau y defnyddir adnoddau a Rhwydweithiau Ymarfer Proffesiynol yn effeithiol; Sefydlir Cymunedau Dysgu Proffesiynol i fynd i'r afael â: • dysgu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith; • gwella llythrennedd Cymraeg/llythrennedd deuol; • dysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog; caffael sgiliau iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen; • cynllunio ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion. Mae'r agweddau uchod wedi ymwreiddio'r ymweliadau craidd Ymgynghorwyr Her.

Adran 2: Grant y Gymraeg mewn Addysg, Datblygu'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus – ychwanegiad o ganlyniad lawnsiad ein Siarter Iaith Cyfrwng Cymraeg i Ysgolion Cynradd

Yn dilyn cytundeb y Grŵp Llywio Gwella Ysgolion sy'n cynnwys cynrychiolwyr penaethiaid a swyddogion yr Awdurdod Lleol, cytunwyd y dylai cyllid Grant y Gymraeg Mewn Addysg gael ei ddatganoli yn uniongyrchol i ysgolion uwchradd. Cytunwyd hefyd y byddai cyllid Grant y Gymraeg Mewn Addysg ar gyfer ysgolion cynradd gael ei gadw'n ganolog gan alluogi'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd i arwain ar nifer o rwydweithiau arfer proffesiynol yn ogystal ag i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion penodol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Darpariaeth Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd ar gyfer codi safonau dwyieithrwydd

Codi Caerau- Siarter Iaith Sir Gâr

(Daw'r CAER o *Caer*fyrddin- enw'r sir a tharddiad y gair CAER yw'r Lladin *castrum* sy'n golygu castell neu gadarnle)

Fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion mae Estyn yn comisiynu adolygiad o bob ysgol. Cynhaliwyd yr arolygiad diweddaraf ym mis Rhagfyr 2009 a gall ymgyngorion weld y canfyddiadau naill ai ar wefan Estyn: www.estyn.gov.uk neu cewch ofyn am gopi gan yr Awdurdod Lleol (efallai y codir tâl am ei lungopïo).

Enghreifftiwyd yr ysgol ar sawl achlysur fel enghraifft o arfer dda gan Estyn mewn cyhoeddiadau diweddar. Yn 2013 defnyddiwyd astudiaeth achos o'r ysgol i ddangos arfer dda o ran dysgu Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn dilyn hynny o dan *Arwyddbyst at arferion gorau* nodwyd cynllun arall gan yr Adran Fathemateg - *ymroddiad ac arloesedd ysgol gyfan = medrau ysgol gwell* fel enghraifft o arfer dda. Nodwyd arfer dda yr ysgol hefyd yn y ddogfen *Rhifedd ar gyfer dysgwyr 14-19 oed* (gweler copi o'r holl ddogfennau ar wefan Estyn).

Mae safonau'r ysgol yn gyson uchel yn y blynyddoedd diwethaf ac er mwyn cynnal a chodi'r safonau gwelwn taw symud yr ysgol i Gategori CC yw'r cam naturiol.

Dymuniad unfrydol y Corff Llywodraethol yw gyrru'r agenda yn ei blaen er mwyn codi safonau ymhellach.

2.8 System Categoreiddio Cenedlaethol Ysgolion

Cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau y System Categoreiddio Cenedlaethol Ysgolion ym mis Medi 2014. Nid yw'r system yn cael ei gyrru gan ddata yn unig ond mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth ansawdd yr arweinyddiaeth a'r addysgu a dysgu yn ein hysgolion. Ni fydd y system yn diorseddu adroddiadau Estyn, bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion ac yn darparu gwiriad allanol ar y system gategoreiddio ysgolion wrth arolygu.

Mae'r system newydd yn gwerthuso ac yn asesu ysgolion ac yn eu rhoi mewn categori cefnogaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth ganlynol:

- Amrywiaeth o fesurau perfformiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru
- Hunanwerthuso cadarn gan yr ysgol ar ei gallu i wella mewn perthynas ag arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu
- Asesiad o hunanarfarnu'r ysgol gan ymgynghorwyr her yn y consortia rhanbarthol a gytunwyd gan yr awdurdod lleol.

Bydd y system gategoreiddio newydd yn rhoi darlun clir a theg o gynnydd yr ysgol. Mae proses dair cam wrth gynhyrchu categori i ysgol, yn gyntaf ar ôl i'r data perfformiad a hunan-arfarnu gael eu dadansoddi mae categori cefnogi drafft yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob ysgol. Mae'r categori hwn yn cael ei drafod gyda'r ysgol gan gonsortia rhanbarthol ac yna yn cael ei gytuno gyda'r awdurdod lleol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

System Gategoreiddio Cenedlaethol Ysgolion - Data 2014

Ysgol	Grŵp Safonau	Capasiti gwelliant	Categori Cefnogaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin	2	B	Melyn

3. Y Cynnig

3.1 Y Rhesymeg dros Newid

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wedi gweld cynnydd aruthrol yn y disgyblion sy'n dewis astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Fel y nodwyd eisoes, nid oes unrhyw ddisgybl o flwyddyn 7 i 10 yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg a dim ond 10 disgybl sy'n astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg ym mlwyddyn 11. O ran Gwyddoniaeth mae 75.2% o'r disgyblion wedi dewis astudio'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg o flwyddyn 7 i 11. Mae'n gam naturiol, felly, i symud ymlaen i ddysgu pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg ym Medi 2016 i flwyddyn 7 yn unig gan barhau i gynnig yr un opsiwn i ddisgyblion bl 7 Medi 2017, 2018 ac yn y blaen.

Byddai sefydlu grwpiau Cymraeg yn unig yn sicrhau bod y disgyblion yn cael eu gosod mewn grwpiau o'r un gallu ac, felly, yn academaidd fe fyddai hynny'n fanteisiol. Fe fyddai'r grwpiau yn adlewyrchu gallu'r disgybl ar draws y garfan gyfan yn hytrach na dim ond ar draws y cyfrwng. Mae setiau cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol o gynnwys disgyblion o allu cymysg iawn ac felly gall disgybl fod o dan anfantais.

3.2 Manteision dwyieithrwydd

Fe wyddom bellach, o'r gwaith ymchwil a wnaed gan addysgwyr mewn sawl gwlad yn y byd, fod plant dwyieithog yn fwy galluog ac yn fwy hyblyg yn ieithyddol. Nid yw plant llai galluog yn dioddef mewn unrhyw ffordd trwy dderbyn eu haddysg yn y Gymraeg yn bennaf chwaith. Fe wyddom hefyd bod plant sydd yn meddu ar ddwy iaith yn medru dysgu ieithoedd eraill yn haws, yn medru manteisio'n llawn ar fyw mewn cymuned ddwyieithog ac yn meddu ar gymhwyster pendant yn y farchnad am swyddi. Yn ogystal, rhoddir pwyslais mawr ar ddwyieithrwydd yn y gystadleuaeth am swyddi a phrentisiaethau yn lleol yma yn Sir Gaerfyrddin.

Mae plant sydd â dwy iaith yn tueddu i wneud yn well yn y cwricwlwm ac mae eu perfformiad ychydig yn well mewn profion ac arholiadau - mae hyn i'w weld mewn ymchwil i systemau addysg ddwyieithog mewn gwledydd cyn belled oddi wrth ei gilydd â Chanada, Unol Daleithiau America, Gwlad y Basg, Catalonia a Chymru. Mae dadansoddi canlyniadau arholiadau Cymru yn dangos i ni bod perfformiad plant sy'n cael eu dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyson uwch na pherfformiad eu cymheiriaid cyfrwng Saesneg.

3.3 Natur addysg Gymraeg mewn ysgolion uwchradd

Mae natur addysg Uwchradd Gymraeg yn wahanol i addysg yn yr ysgol gynradd lle mae plant yn cael eu trwytho yn y Gymraeg er mwyn gosod seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol. Y mae Saesneg yn cael lle amlwg yn addysg a bywyd cymdeithasol plant oedran Uwchradd gan adeiladau ar y seiliau cadarn a roddwyd yn yr ysgol gynradd ac ymestyn ar y defnydd o'r ddwy iaith. Mae dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol

Uwchradd yn gwneud llawer o ddefnydd o'r iaith Saesneg e.e. trwy gyflwyno termau, llyfrau, rhaglenni teledu a rhaglenni cyfrifiadurol, ac mae'r plant yn datblygu eu dealltwriaeth a'u dwyieithrwydd yr un pryd. Mewn arholiadau allanol mae byrddau arholi yn sicrhau bod copi Saesneg o bob papur arholiad ar gael ac mae cyfieithiadau yn cael eu rhoi o'r termau anarferol.

3.4 Addysg Uwch

Yn hanesyddol erys llawer o bryder bod astudio Gwyddoniaeth a Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystro mynediad i addysg uwch, yn arbennig yn Lloegr. Nid oes unrhyw brawf o hynny'n bodoli. Mae llawer o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin sy'n feddygon, yn fil-feddygon a deintyddion wedi astudio Gwyddoniaeth yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae disgyblion ysgolion Cymraeg megis Glantaf, Plasmawr, Bro Morgannwg, Llanhari, Y Cymer, Morgan Llwyd, Rhydywaun a Gartholwg yn flynyddol yn mynd i brifysgolion yng Nghymru a Lloegr i astudio cyrsiau meddygol, ac nid oes unrhyw brawf bod y ffaith eu bod wedi derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig wedi amharu ar eu cyfleoedd.

3.5 Costau

Nid yw'r Awdurdod yn darparu unrhyw gyllid ychwanegol i ganiatáu i'r ysgol gynnig pynciau trwy gyfrwng dwy iaith. Fe fyddai cynnig y cyrsiau yn y Gymraeg yn unig yn arbed arian o ran staffio'r Adran Wyddoniaeth yn benodol ac yn rhyddhau aelodau o'r adran honno i gynorthwyo gydag agweddau arall o'r cwricwlwm heb gostau ychwanegol i'r ysgol. Mae toriadau cyllid sylweddol ar y gorwel ac mae'r angen i ddarparu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ddim yn gost-effeithiol.

3.6 Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

Cyfeiriwch at **Atodiad A** am ragor o wybodaeth ar yr asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

3.7 Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Ni ragwelir unrhyw effaith ar y Gymuned gan bod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin eisoes yn chwarae rhan bwysig yn y Gymuned honno ac ni fyddai unrhyw newid yn y drefn.

3.8 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyfeiriwch at **Atodiad B** am ragor o wybodaeth ar yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

4. Ymgynghori a'r Broses Statudol

4.1 Y Broses Ymgynghori.

Bydd yr ymgynghoriad ar y cynnig hwn yn dilyn canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.2 Gyda phwy y byddwn ni'n ymgynghori?

Bydd y ddogfen hon yn cael ei danfon at y rhanddeiliaid canlynol sydd â diddordeb, sef:

Staff (Athrawon a Staff Ategol) Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin	Llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwaid Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin
Staff (Athrawon a Staff Ategol) ysgolion cynradd y dalgylch	Llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwaid ysgolion cynradd y dalgylch
Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin	Cynghorwyr Cymuned Caerfyrddin
Cynghorwyr Cyngor Sir Lleol	Comisiynydd y Gymraeg
Aelodau y cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli yr ardal	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgol Feistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)	Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT)
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (ASCL)	Undeb y GMB
UNSAIN	Yr ysgolion Uwchradd cyfagos yn Sir Gaerfyrddin
Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth	
Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T&G)	Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol
Cyfarwyddwyr Addysg yr holl Awdurdodau Cyfagos	Y consortiwm addysg rhanbarthol - ERW
Cyngor tref Caerfyrddin	Coleg Sir Gâr
Bwrdd Gwasanaethau Lleol	Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Gweinidogion Cymru
Estyn	RHAG (rhieni dros addysg Gymraeg)
Partneriaeth Pobl Ifanc Sir Gâr	

4.3 Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd modd ichi fynegi barn rhwng Hydref yr 19eg, 2015 a Rhagfyr y 4ydd, 2015.

Gallwch fynegi barn trwy ysgrifennu llythyr neu trwy lenwi'r ffurflen ymateb a geir yn **Atodiad C**. Dylai'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant (Mr R.A.Sully) eu derbyn erbyn canol dydd ar y 4ydd o Ragfyr, 2015 fan bellach, i'r cyfeiriad canlynol:

Mr R.A.Sully, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu drwy e-bost at: aaprma@sirgar.gov.uk

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn y cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno isod.

4.4 Ymgynghori â disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin i gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir yn yr ysgol. Bydd yr wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori yn llunio rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i Fwrdd Gweithredol y Cyngor i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

4.5 Ystyried eich Sylwadau

O fewn 13 wythnos ar ôl y 4ydd o Ragfyr bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael drwy wneud cais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynnig.

Bydd y Cyngor Sir yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen gyda'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Cyngor Sir yn penderfynu mynd ymlaen gyda'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

4.6 Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i arddangos yn yr ysgolion a enwyd a'r rhai cyfagos yn yr ardal. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau staff (gall yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn cyfnod o 28 diwrnod.

4.7 Penderfynu ynghylch y Cynnig

Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu i gymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

4.8 Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

4.6 Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a'r amserlen fel a ganlyn:

Hydref 2015	Dosbarthu'r ddogfen ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.
Rhagfyr 4ydd, 2015	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn barn ar y cynnig i gael eu derbyn gan yr Adran Addysg a Phlant.
Ebrill 2016	O fewn 13 wythnos ar ôl y 4ydd o Ragfyr, 2015 bydd Adroddiad ymgynghori yn cael ei roi gerbron y Cyngor Sir a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Penderfynu mynd ymlaen i gyhoeddi'r hysbysiad statudol NEU fod y cynnig yn dod i ben. Os penderfynir mynd ymlaen yna bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol ac ysgolion cyfagos yr ardal. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i rieni, gwarchedwaid ac aelodau staff. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol. Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.
Mai 2016	Diwedd y cyfnod statudol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu i gymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth ddod i benderfyniad bydd y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law.
Gorffennaf 2016	Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu'r rhieni am y bwriad i weithredu'r cynnig. Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

5. Y Casgliad

O ystyried yr holl bwyntiau a nodwyd yn y ddogfen hon, rhaid sylweddoli bod y newid eisoes yn digwydd. Mae llawer o'r disgyblion eisoes yn astudio Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion cynradd, cam naturiol yw parhau gyda'r addysg honno yn yr Uwchradd. Nid dysgu termau trwy un iaith yn unig fydd yn cael ei wneud ond bydd y 'model dwyieithog' yn cael ei datblygu ymhellach – model y bydd pob plentyn yn elwa'n aruthrol ohono.

Dyma gyfle, felly, i Sir Gâr i arwain y ffordd yng Ngorllewin Cymru ac i Fro Myrddin i greu hanes trwy sefydlu yr ysgol Gymraeg gyntaf yn Sir Gâr.

6. Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Categori iaith yr ysgol ar hyn o bryd, fel y nodwyd eisoes yw 2A. Serch hynny, mae disgrifiad 'Iaith yr Ysgol' fel y nodir ar dudalen 56 o Gynllun Strategol Addysg Gymraeg yr Awdurdod yn ddisgrifiad o ysgol categori CC – *'Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith.*' Gwahanol iawn yw'r disgrifiad 'Iaith yr Ysgol' a nodir wrth ddisgrifio ysgol categori 2A sef: *'Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol trwy ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol.'* Yn sicr, mae Bro Myrddin eisoes yn ysgol gategori CC ar sail 'Iaith yr Ysgol.'

Mae gwersi cyfrwng Saesneg (Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg) yn cyfrannu 36% o gwricwlwm disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3, rhwng 44% a 54% yng Nghyfnod Allweddol 4 a hyd at 79% yng Nghyfnod Allweddol 5. Gall hyn danseilio gallu'r unigolyn i ddatblygu i fod yn siaradwr naturiol a hyderus ddwyieithog ar draws yr holl feysydd astudio yn ogystal â gosod cynsail ei fod yn rhy anodd ac yn anaddas astudio rhai pynciau trwy'r Gymraeg. Gellir dadlau bod hyn hefyd yn tanseilio ethos Gymreig yr ysgol.

Fe fydd symud yr ysgol ar y continiwwm iaith yn adlewyrchu dyheadau'r Cyngor a dyheadau Llywodraeth Cymru fel y maent wedi eu nodi yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Polisi Iaith Sir Gaerfyrddin a'r Strategaeth Gymunedol Integredig. Bwriad y Cyngor yn ôl Cynllun Strategol Addysg Gymraeg 2014-17 yw cynyddu y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr. Fe fyddai newid categori iaith yr ysgol yn sicrhau hynny.

7. Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyngor Sir Caerfyrddin

Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau camwahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o ddylunio polisïau a chyflwyno gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau yna gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol gan awdurdodau lleol i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu camwahaniaethu a hybu cydraddoldeb ynghylch hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu

cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd y sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o Weithredu Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn ystyried effaith bosibl ei bolisïau a'i arferion arfaethedig ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen ategu pob cynnig gyda'r Asesiad o Effaith amgaeedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol yna mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Adrodd ar asesiadau

Os yw'n amlwg o'r asesiad bod yr effaith debygol ar allu'r awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, yna bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiad Cychwynnol ac Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldebau

Mae'r asesiad cychwynnol (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisïau, swyddogaethau, gweithdrefnau a phenderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig, gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau, ar lefel gychwynnol o leiaf, a chwblhau asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldebau lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2); mae'n rhaid atodi'r asesiad gyda'r papurau cefndir a'r adroddiadau ar gyfer y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldebau **Atodiad 1**

Adran: Addysg a Phlant	**Wedi'i gwblhau gan (arweinydd):** Sharon James	**Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Mawrth 2015** **Dyddiadau adolygu: N/A**
Y maes a asesir: (h.y. enw'r *polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad ariannol)*	YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN NEWID MEWN CATEGORI IAITH O GATEGORI 2A I GATEGORI CC	
Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a ydy'n un newydd?	Cynnig i newid categori iaith – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddarparu gwybodaeth wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestr yn unig)		
• Rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif • Rhaglen Moderneiddio Addysg • Canllawiau Llywodraeth Cymru – Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 • Data CYBLD		

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad a phwy fydd yn cael budd ohonynt.	Cynnig yr Awdurdod Addysg yw newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin o gategori 2A i gategori CC		
Mae'n ofynnol fod y Cyngor yn rhoi "sylw dyledus" i'r canlynol yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:-	**2. Beth fydd yr effaith ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd?** **Nodwch uchel (U) canolig (C), isel (I),**	**3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob un o'r grwpiau/nodweddion gwarchodedig?**	**4. Os oes effaith negyddol anghymesur pa ffactorau lliniarol ydych chi wedi'u hystyried?**

Tudalen 138

(1) dileu camwahaniaethu, aflonyddu ac ymddigaeth anghyfreithlon; **(2)** hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a **(3)** meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y canllawiau)		**dim effaith (D) ar gyfer pob un.**	**Risgiau**	**Effeithiau cadarnhaol**	
Nodweddion gwarchodedig	**Oed**	C	Risg niwtral		
	Anabledd	C	Risg niwtral	Ar hyn o bryd mae 16.4% o ddisgyblion yr ysgol ac anghenion dysgu ychwanegol, fe fydd cefnogaeth ddigonol ar gael i'r disgyblion hyn trwy gyfrwng y Gymraeg.	
	Ailbennu rhywedd	D	Risg niwtral		
	Hil	D	Risg niwtral		
	Crefydd neu Gred	D	Risg niwtral		
	Beichiogrwydd a mamolaeth	D	Risg niwtral		
	Cyfeiriadedd Rhywiol	D	Risg niwtral		
	Rhyw	D	Risg niwtral		
	Yr Iaith Gymraeg	C	Risg niwtral	Fel rhan o'r cynnig fe fydd categori iaith yr ysgol yn cael ei newid i CC a fydd yn cefnogi gweledigaeth a nod y Cyngor ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg fel y'i nodir yn Cynllun Strategol yr Iaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin 2014-2017	

	Unrhyw faes arall	D	Risg niwtral		

5. A oes unrhyw ymgynghori/cysylltu wedi digwydd o ran y nodweddion gwarchodedig priodol ?	**OES x☐** **NAC OES ☐** Fe fydd ymgynghoriad anffurfiol a ffurfiol yn cael ei gynnal fel y nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013)
6. Pa gam/gamau a gymerir i leihau'r effaith negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod rhieni, staff a llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth lawn o bob cam o'r ymgynghoriad.	
7. Caffael **Ar ôl coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau caffael i'r gweithgaredd, y cynnig neu'r gwasanaeth.** **Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor pellach.** N/A	
8. Adnoddau Dynol **Ar ôl coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau Adnoddau Dynol i'r gweithgaredd, y cynnig neu'r gwasanaeth?** Dim goblygiadau staffio	

9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6 a oes angen cynnal asesiad manwl o effaith y swyddogaeth/polisi/gweithdrefn/arfer neu benderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un elfen uchel wedi'i nodi yn adran 2)	**OES ☐**	**NAC OES x☐**

Cymeradwywyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth	**Gareth Morgans**	**Dyddiad: Mehefin 2015**

Templed ar gyfer Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldebau Atodiad 2

Adran:	Gweler yr asesiad cychwynnol o'r effaith
Wedi'i gwblhau gan (arweinydd):	
Dyddiad yr asesiad manwl:	
Y maes a asesir: (*Polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad ariannol)*	Gweler yr asesiad cychwynnol o'r effaith
Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad yma yn bodoli'n barod neu a ydy'n un newydd	Gweler yr asesiad cychwynnol o'r effaith

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, neu weithdrefn a phwy fydd yn cael budd ohonynt.	Gweler yr asesiad cychwynnol o'r effaith

2. Rhestrwch unrhyw ddogfennau, tystiolaeth, ymchwil a ddefnyddiwyd i ddarparu gwybodaeth yn rhan o'r asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldeb. (Mae'n rhaid i hyn gynnwys y data perthnasol a ddefnyddiwyd yn yr asesiad hwn**)**				
3. A oes unrhyw ymgynghori/cysylltu wedi digwydd o ran y nodweddion gwarchodedig er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer yr asesiad hwn? (rhowch fanylion ynghylch y dull ymgynghori a'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw)				
4. Beth yw'r union effaith/effaith debygol?				
5. Pa gamau y bwriedir eu cymryd i ddelio â'r effaith? ***(Mae angen i'r camau gweithredu fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn seiliedig ar ganlyniadau)***	**Beth rydym yn mynd i'w wneud**	**Pwy fydd yn gyfrifol**	**Pryd fydd y gwaith yn cael ei gwblhau**	**Sut y byddwn ni'n gwybod bod ein hamcan wedi'i gyflawni**
6. Sut y caiff y camau gweithredu eu monitro?				

Cymeradwywyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth		**Dyddiad:**

Diolch ichi am gwblhau'r asesiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Asesu Effaith, cysylltwch â'r canlynol -

Y Tîm Polisi a Phartneriaeth

Adran y Prif Weithredwr

01267 22(4914) / (4676)

cydraddoldeb@sirgar.gov.uk

Ar ôl cwblhau'r asesiad a fyddech cystal â'i anfon i'r cyfeiriad e-bost uchod.

8. Atodiad C - Pro-fforma Ymateb

Darparwch eich sylwadau ar y cynnig ynghylch categori iaith y dyfodol i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Eich sylwadau:

A oes gennych unrhyw faterion eraill yr hoffech eu dwyn i'n sylw?

☐ Ticiwch y blwch os hoffech gael gwybod am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori.

Llofnod: _____

Cyfeiriad: _____

_____

_____

Dyddiad: _____

Enw: _____

Safle / Categori yr ymatebydd (e.e. rhiant) _____

Cod post: _____

Sylwch, oni bai eich bod yn nodi fel arall, bydd eich sylwadau yn agored i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.
Os wnewch chi ddadgysylltu y ffurflen hon a'i dychwelyd i: Mr. R. A. Sully, Cyfarwyddwr – Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu E-bostiwch i **aaprma@sirgar.gov.uk** erbyn **4ydd o Ragfyr 2015.**

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Atodiad A

Rhestr o'r ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori

Rhestr sylwadau Bro Myrddin a dderbyniwd

Rhif	Enw	Safle/Categori yr ymatebydd
1.1	Eleri MacRae	Aelod Staff
1.2	Tim Hayes	Aelod Staff
1.3	Cllr. Jeff Thomas	Cynghorydd
1.4	Beti-Wyn James	Rhiant/Llywodraethwr
1.5	M E Madoc-Jones	Rhiant
1.6	Cllr Peter H. Griffiths	Llywodraethwr
1.7	Meinir McLellan	Llywodraethwr
1.8	Gary Evans	Darpar Rhiant
1.9	Helen Evans	Darpar Rhiant
1.10	Robert Alun Charles	Llywodraethwr
1.11	L. Davies	Aelod Staff
1.12	Adrian Williams	Aelod Staff
1.13	Steffan Davies	Aelod Staff
1.14	Morwen Hughes	Aelod Staff
1.15	Hywel Gwyn Jones	Aelod Staff/Rhiant
1.16	James Henshaw	Aelod Staff
1.17	M. Davies	Aelod Staff
1.18	A E Roberts	Rhiant
1.19	Luned Davies	Aelod Staff
1.20	Bethan Jenkins	Aelod Staff
1.21	Judith Roberts	Aelod Staff
1.22	Meleri Llwyd-O'Leary	Rhiant
1.23	Lynwen Roberts	Rhiant
1.24	Iona Llyr	Rhiant
1.25	Cefin & Mari Campbell	Rhiant
1.26	Catrin Griffiths	Gweithiwr Ieuenctic
1.27	C S Jones	Bursor
1.28	Glesni Davies	Derbynnydd
1.29	Glenys Thomas	Llywodraethwr

1.30	Iola Wyn	Rhiant
1.31	Elaine Edwards	Dirprwy Bennaeth, Y Dderwen
1.32	Dylan Evans	Pennaeth, Y Dderwen
1.33	B. Morgan	Ysgol Y Dderwen
1.34	Sian Evans	
1.35	I R Evans	Cynorthwy-ydd Cwricwlwm
1.36	Mererid Hopwood	Hen Rhiant
1.37	Eleri Beynon	Rhiant
1.38	John Beynon	Rhiant
1.39	Ffion Page	Aelod Staff
1.40	Meinir Jones	Pennaeth, Llanddarog
1.41	W. Huw Davies	
1.42	Nia Lewis	Goruchwyliwr gwers
1.43	Angharad Lewis	Doctor
1.44	Gwenan Morgans-Free	Aelod Staff
1.45	Gwennan Jones	Darpar Rhiant
1.46	A. Baggott	
1.47	Ann Loughran	Llywodraethwr
1.48	Catrin Pritchard	Aelod Staff
1.49	Zelda Williams	Aelod Staff
1.50	Owen Rhys	
1.51	Cllr. Gareth Jones	Llywodraethwr
1.52	Llio Dyfri Jones	Rhiant
1.53	Gwlym Dyfri Jones	Rhiant
1.54	Rhiannon Mathias	Cyngor Cymunedol Abernant
1.55	Marlene Jones	Rhiant
1.56	Geraint Roberts	Hen Rhiant
1.57	Rhiannon Roberts	Hen Rhiant
1.58	Esyllt Davies	Hen Ddisgybl
1.59	Lynda Davies	Hen Rhiant
1.60	D. Elfed Davies	Hen Rhiant
1.61	Gethin Page	Hen Ddisgybl

1.62	Alwen Haf Owen	Aelod Staff
2.1	Joanna D. E. Rees	
3	Helen Proctor	Rhiant
4	Bethan Williams	Rhiant
5	Rhian Carruthers	Aelod Staff
5.1	Lonwen Bowen	Aelod Staff
5.2	Sian Thomas	Aelod Staff
5.3	Dr. Llinos Jones	Aelod Staff
5.4	Meinir Richards	Aelod Staff
5.5	Gethin Evans	Aelod Staff
5.6	Hannah McAvoy	Aelod Staff
5.7	L Griffiths	Rhiant
5.8	Tracy Jenkins	Aelod Staff
5.9	John Norgrove	Aelod Staff
6.1	Rhian Williams	Aelod Staff
7.1	Betsan & Timothy Bowen	Rhiant
7.2	Abi Thomas	Rhiant
7.3	Anonymous	
8.1	John Greville	Hen Rhiant

Atodiad B

Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori ac ymatebion yn ymwneud â'r Awdurdod Lleol

YMGYNGHORAI	SYLWADAU	YMATEB
Rhif. 1	**1.1 Newid yng nghategori iaith arfaethedig yr ysgol** Hollol gefnogol i newid categori iaith i CC	**Newid yng nghategori iaith arfaethedig yr ysgol** Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r nifer fawr o ymatebion cadarnhaol i'r newid arfaethedig i gategori iaith yr ysgol sy'n galonogol iawn.
	1.2 Croesawaf gynnir yr Awdurdod i newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Fel atrho yn yr Adran Wyddoniaeth ers yn agos i 20 mlynedd mae'r twf naturiol yn nifer y plant sy'n dilyn y Gwyddorau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg wedi bod yn amlwg ac erbyn hyn mae'r mwyafrif llethol yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg beth bynnag. Wedi dysgu sawl cenhedlaeth o wyddonwyr Cyfrwng Cymraeg gyda nifer ohonynt wedi mynd ymlaen i astudio'r Gwyddorau gan gynnwys meddygaeth a deintyddiaeth ym mhrifysgolion Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, rwy'n gwbl argyhoeddedig nad oes unrhyw anfantais i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae llawer o'r sylwadau'n canolbwyntio ar y newid naturiol sydd eisoes wedi digwydd yn raddol dros y blynyddoedd. Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r sylwadau sy'n pwysleisio bod newid yn ysgol uwchradd Iaith Gymraeg Categori 1 gyntaf Sir Gaerfyrddin yn gam pwysig a hanesyddol. Mae'r cynigion wedi cael eu llunio mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Hefyd mae'r Awdurdod wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wrth ddrafftio'r cynigion hyn.
	1.3 Rwyf wedi darllen y ddogfen ymgynghori ac yn cefnogi'n llwyr dymuniad yr ysgol i fod yr ysgol gyntaf Gyfrwng Gymraeg yn Sir Gâr. Mae'n hen bryd i'r cynnig gael ei dderbyn gan ddilyn esiampl Dwyrain Cymru. Mae'r lleihad yn y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr yn gwneud y cynnig yn amserol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymated uchod.
	1.4 Rwy'n cefnogi'n llwyr ddymuniad Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin i newid categori iaith yr ysgol er mwyn bod yn ysgol gyfan gwbl Gymraeg.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

	1.5 Rydym fel teulu yn cefnogi'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.6 Rwy'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid categori iaith yr ysgol. Dylai hyn fod wedi digwydd flynyddoedd yn ôl. Rwy'n cefnogi'n llwyr yr amserlen ar gyfer gwneud y newidiadau.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.7 Rwyf yn credu bod newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn gam naturiol i'r ysgol gan mai ychydig iawn o bynciau sydd erbyn hyn yn cael eu dysgu trwy y Saesneg.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.8 Rwy'n cefnogi'r newid. O'r hyn rwy'n deall mae'r mwyafrif o rieni sy'n danfon eu plant i Fro Myrddin yn dymuno i'w plant gael eu dysgu yn y Gymraeg ar gyfer Mathemateg a Gwyddoniaeth. Felly, mae'n gam nauriol i newid categori iaith yr ysgol yn swyddogol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.9 Dyma gyfnod hynod gyffrous i Ysgol Bro Myrddin. Fel darpar riant rwy'n llwyr gefnogi'r newid pwysig hwn. Byddai newid yr ysgol yn ysgol benodedig Gymraeg yn gam gwbl naturiol. Dyma ysgol lwyddiannus dros ben gydag ethos gwbl Gymreig. Dymunaf pob llwyddiant i'r ysgol. Gobeithiaf yn fawr mai Ysgol Bro Myrddin fydd yr ysgol benodedig Gymraeg gyntaf yn Sir Gâr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.10 Rwy'n llwyr gefnogol i'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Myrddin o 2A i ysgol CC.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

	1.11 Rwy'n cefnogi'r newid hwn yn llwyr i gynnig newid categori iaith Ysgol Bro Myrddin. Fel rhiant ac athrawes yn yr ysgol mae'n gam naturiol i fod yn ysgol gwbl Gymraeg.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.12 Rwy'n cytuno â'r newidiadau hyn.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.13 Dyma gyfle gwych i'r ysgol ddatblygu i fod yn ysgol CC. Rwy'n llwyr gefnogol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.14 Cefnogi'r newid yn llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.15 Fel rhiant i ddau ddisgybl yn yr ysgol hoffwn gadarnhau fy mod yn cefnogi'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.16 Cefnogi'r newid yn llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.17 Mae hwn yn newyddion gwych. Cefnogi'n llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.18 Rwy'n gefnogol iawn i'r syniad o newid categori iaith Bro Myrddin fel ei bod yn Ysgol Gyfun Gymraeg. Byddai'n hybu Cymreictod ac yn rhoi statws i'r iaith. Rwy'n awyddus i'm plant fynychu ysgol o'r fath.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.19 Rwy'n cefnogi'r cynnig yn llwyr i newid categori iaith Bro Myrddin.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.20 Fel teulu rydym yn hapus iawn gyda'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.21 Mae hwn yn gyfle perffaith i wneud y	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

	newidiadau hyn.	
	1.22 Rwy'n cefnogi'r newidiadau hyn yn llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.23 Mae hwn yn gam naturiol ymlaen i'r ysgol. Rwy'n cefnogi'r newidiadau hyn yn llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.24 Mae cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol yn gam cwbl naturiol ymlaen. Mae Bro Myrddin yn ysgol lwyddiannus sy'n dymuno datblygu a symud ar hyd y continiwm iaith. Yn fy marn i nid oes anfanteision i'r cynnig hwn.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.25 Rydym yn llwyr gefnogol i'r cynnig o newid categori iaith yr ysgol. Mae hwn yn gam naturiol i'r ysgol lle mai nifer fach o ddisgyblion yn dewis astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg. Bydd y newid hwn yn profi nad oes angen i chi astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg er mwyn llwyddo yn academaidd. Hoffwn longyfarch llywodraethwyr yr ysgol ar wneud y penderfyniad i newid categori iaith yr ysgol ac i'r Cyngor Sir am eu cefnogaeth.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.26 Rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig i newid y categori iaith.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.27 Cefnogi'n llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.28 Cefnogi'n llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.29 Rwy'n llwyr gefnogi'r ysgol wrth newid categori iaith yr ysgol. Bydd yn gam naturiol ac yn arbed arian i'r ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

	1.30 Rydym yn cefnogi'r cynnig yn llwyr. Credwn bod ysgol iaith Gymraeg yn ddewis doethach gan ei fod yn arbed amser ar gyfer gweinyddu ac adnoddau yn yr ysgol. Dyma rywbeth sydd angen ar yr ysgol ers blynyddoedd. Efallai mai cam bach yw hwn ond cam pwysig iawn.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.31 Rwy'n cefnogi'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol sydd yn fy marn i yn gam naturiol i'r ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.32 Mae newid categori iaith yr ysgol yn gam naturiol. Bydd hwn yn cadarnhau statws yr iaith o fewn yr ysgol ac rwy'n llwyr gefnogol i'r newid.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.33 Bydd hwn yn datblygu sgiliau iaith y disgyblion hyd yn oed ymhellach ac rwy'n cefnogi'r newid yn llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.34 Fel darpar riant, rwy'n cefnogi'r newid yn llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.35 Cefnogi'n llwyr	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.36 Mae'n bleser i weld y staff yn cefnogi'r newid hwn. Dyma'r fath o arweiniad sydd ei angen i gefnogi ac annog ein disgyblion er mwyn parhau â'r addysg o'r safon uchaf. Mae'r polisi hwn yn dangos y gwir botensial i'r ddwy iaith. Rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig hwn.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.37 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn dangos yr angen i newid categori iaith yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

	1.38 Rwy'n cefnogi cais yr ysgol i newid ei chategori iaith.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.39 Rwy'n cefnogi newid iaith yr ysgol yn llwyr ble caiff holl bynciau'r ysgol eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hwn yn annog y disgyblion i ddefnyddio mwy o Gymraeg y tu-allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hwn yn gam cywir ymlaen i'r ysgol, heb amheuaeth.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.40 Hoffwn gefnogi'r cais hwn i newid categori iaith yr ysgol. Fel cyn ddisgybl, teimlaf bod hwn yn rhywbeth ddylai fod wedi digwydd yn barod gan fod digon o ddewis yn y dref o ran addysg cyfrwng Saesneg os oes angen.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.41 Mae delwedd addysg ddwyieithog wedi datblygu dros y blynyddoedd ac yn fy marn i, nawr yw'r amser i'r newid o ran iaith ddigwydd yn yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.42 Dyma gyfle i roi Sir Gâr a Bro Myrddin ar y map. Os bydd y newid hyn yn digwydd, fe fydd y disgyblion sy'n mynychu ysgol Bro Myrddin yn gwneud hynny am y rhesymau cywir.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.43 Cefnogi'n llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.44 Rwy'n cefnogi'r newid yn llwyr. Fe fydd yn annog Cymreictod disgyblion y tu-allan i'r ystafell ddosbarth a bydd y disgyblion yn mynychu'r ysgol am y rhesymau cywir.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.45 Rwy'n credu taw dyma'r cam cywir i'r ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

	Fe fydd yn cryfhau defnydd o ddydd i ddydd yr iaith.	
	1.46 Rwy'n credu bod hwn yn gam ymlaen i'r ysgol ac rwy'n ei gefnogi'n llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.47 Rwyf yn gwbl gefnogol i'r cynnig ynghlych categori iaith Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Credaf ei fod yn hynod o bwysig fod y pynciau i gyd (arwahan i'r Saesneg) yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn yr ysgol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle gorau i'r disgyblion i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog ar draws pob maes. Fel athrawes fathemateg a ffiseg brofiadol (ond nid ym Mro Myrddin) credaf ei fod yn fantais bendant i ddisgyblion allu trin a thrafod y gwyddorau trwy gyfrwng y Gymraeg gan fod hyn yn datblygu eu gallu i ddatblygu cysyniadau gwyddonol a mathemategol cadarn.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.48 Gan fy mod yn wreiddiol o ardal ddi-Gymraeg yng nghymoedd De Cymru, rwy'n ei gweld yn fraint o'r mwyaf i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniais addysg hollol gymraeg yn y gwyddorau trwy gydol fy amser fel disgybl a ni wnaeth hwn fy atal rhag astudio cwrs gwyddonol y tu allan i Gymru.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.49 Cefnogaf yn llwyr y newid oherwydd mae data yn dangos bod dymuniad y mwyafrif o rieni a disgyblion i astudio gwyddoniaeth a mathemateg trwy'r Gymraeg yn ei wneud yn benderfyniad naturiol. Fe fydd astudio holl bynciau'r cwricwlwm trwy'r Gymraeg yn atgyfnerthu sgiliau ieithyddol y dysgwyr yn	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

	ogystal a defnydd yr iaith yn yr ysgol. Mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddatblygu siaradwyr Cymraeg ym mhob agwedd o'r gweithlu a byddai datblygu siaradwyr sy'n hyderus wrth drafod pob pwnc yn cyfrannu at hwn.	
	1.50 Rwy'n credu y dylai pob pwnc arwahan i'r Saesneg a Ieithoedd Tramor Modern cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.51 Hoffem gadarnhau fy mod yn cefnogi'r newid hwn yn llwyr.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.52 Rwy'n credu bod hwn yn gam naturiol i'r ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.53 Rwy'n cytuno'n gryf gyda'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol. Dyma gam naturiol ymlaen i'r ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.54 Ar ôl ystyriaeth ofalus i'r ddogfen ymgynghori mewn cyfarfod diweddar o'r cyngor, penderfynwyd bod Cyngor Cymuned Abernant yn cefnogi sefydlu ysgol Gyfun Gymraeg ym Mro Myrddin.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.55 Mae'n hen bryd ein bod yn cael ysgol Gymraeg yn y sir. Mae'r plant yn gallu ymdopi'n iawn, y broblem sydd gyda'r rhieni.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.56 Rwy'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid categori iaith yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.57 Rwy'n cefnogi y cynnig i newid categori iaith yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

	1.58 Fel cyn-ddisgybl o'r ysgol rwy'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid y categori iaith. Mae gormod o rieni yn y gorffennol wedi danfon eu plant di-Gymraeg i'r ysgol oherwydd yr 'adeilad newydd.' Rwy'n credu y dylai plant cael eu hanfon i'r ysgol yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn medru'r Gymraeg yn ddi-ffwdan ar lafar ac yn ysgrifenedig. Credaf ei bod hi'n well cael ysgol sydd chwarter ei maint, nac ysgol gyda thros fil o blant ynddi a thri chwarter ohonynt ddim yn siarad Cymraeg yn naturiol. Cyfrifoldeb yr ysgolion cynradd yw sicrhau bod y plant cywir yn cael eu danfon i Fro Myrddin.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.59 Rwy'n gobeithio y bydd y newid hwn yn digwydd a bod Bro Myrddin yn dod yn ysgol gategori Gymraeg.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.60 Rwy'n cadarnhau fy mod yn llwyr gefnogol i newid categori iaith yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.61 Cefnogaf yn llwyr y cynnig i newid categori iaith yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
	1.62 Mae hwn yn gam naturiol i'r ysgol a bydd yn annog Cymreictod y tu-allan i'r ystafell dosbarth.	Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.
Rhif. 2	**2 Dylai fod gan y disgybl ddewis** 2.1 Rwyf wedi addysgu yn ddwyieithog ers 2005 a hynny yw yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion galluog yn ymdopi gyda newid iaith wrth drafod, ysgrifennu – ond mae'r mwyafrif yn ei gweld yn anodd. Yn bersonol rwy'n teimlo dyle'r cynnig	**Dylai fod gan y disgybl ddewis** Nid yw'r canlyniadau arholiadau sy'n gyson uchel mewn Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cadarnhau'r farn hon yn ôl pob golwg.

	darpariaeth dwyieithog yn TGAU a Lefel UG/A. Mae deall yr iaith yn gallu meddwl 'gradd' o wahaniaeth. Dyler disgybl cael dewis iaith.	
Rhif. 3	**3 Ystyried danfon eich plentyn i ysgol arall os yw'r newid yn mynd i ddigwydd** 3.1 Rydym wastad wedi cynllunio bod ein mab yn mynd i Fro Myrddin. Ar hyn o bryd mae'n ddisgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Nantgaredig. Fodd bynnag, rydym yn dwys ystyried ysgolion eraill gan nad ydym yn dymuno iddo astudio Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sicr, os nad yw'r cynnig yn mynd yn ei flaen byddwn yn danfon ein mab i Fro Myrddin. Rydym wedi trafod gyda nifer o bobl ac mae'r mwyafrif ddim yn credu bod hyn yn beth da. Mae'r drafodaeth wedi cynnwys athrawon a ffrindiau/cydweithwyr yn y maes meddygol / gwyddorol. Rwy'n mawr obeithio na fydd hyn yn mynd yn ei flaen oherwydd ein bod yn awyddus i'n mab i fynd i Fro Myrddin.	**Ystyried anfon ein plentyn i ysgol arall os yw'r newid yn mynd i ddigwydd** Os caiff y cynnig ei roi ar waith, bydd rhieni'n gallu dewis naill ai ysgol Cyfrwng Cymraeg neu Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf â defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn ardal Caerfyrddin.
Rhif. 4	**4 Annhegwch y broses** Rhaid i mi dynnu eich sylw i annhegwch y rhifau ystadegol mae'r ysgol yn dangos. Mae'r rhifau yn dangos bod llai o blant yn dewis astudio Gwyddoniaeth yn Saesneg bob blwyddyn ac maent yn dod i'r casgliad bod hyn yn golygu bod llai o rieni yn dymuno i'w plant astudio Gwyddonaieth yn Saesneg. Y gwir yw, serch hynny, mae llai o rieni yn cael y dewis (e.e. nid oes gan rieni Ysgol y Dderwen ddewis o gwbl). Mae'r un peth yn wir am Fathemateg, nid oes	**Annhegwch y broses** Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi'n glir fod 35% o'r disgyblion CA3 yn 2000 wedi astudio Mathemateg yn Gymraeg o gymharu â 65% yn Saesneg. Yn 2015 mae 100% bellach yn astudio'r pwnc yn Gymraeg. O ran CA4 bu 28.2% yn astudio Mathemateg yn Gymraeg o gymharu â 71.8% yn Saesneg. Yn 2015 mae 96.2% yn astudio'r pwnc yn Gymraeg. Yn 2000 bu 28.1% o'r disgyblion CA3 yn astudio Gwyddoniaeth yn Gymraeg o gymharu â 71.9% yn Saesneg. Yn 2015 mae 71% yn astudio'r pwnc yn Gymraeg. O ran CA4

	dewis ei astudio yn Saesneg. Hoffem wybod sut mae'r ysgol wedi dod i'r casgliad ei bod yn 'symud yn naturiol ar hyd y continiwm iaith.' Nid yw'r rhifau yn adlewyrchu galw y rhieni o gwbl. Saesneg yw iaith y byd gwyddorol, lle bynnag yn y byd yr ydym yn byw. Pam bod yr ysgol yn ceisio gwneud pethau'n anoddach i'r disgyblion trwy astudio Gwyddoniaeth yn y Gymraeg. Oni ddylem fod yn annog y disgyblion i anelu am brifysgolion o'r safon uchaf sydd efallai yn Lloegr, yn hytrach na'u gorfodi i astudio Gwyddoniaeth yn y Gymraeg sy'n rwystr pellach iddynt. Ymhellach nid yw'r ddogfen yn dangos faint o blant sy'n cael eu colli'n flynyddol i orffen eu cyrsiau TGAU trwy gyfrwng y Saesneg. A oes ystyriaeth wedi ei roi i'r nifer o ddisgyblion a fydd yn troi at ein hysgolion Saesneg os bydd y newid yn digwydd?	bu 20.5% yn astudio Gwyddoniaeth yn Gymraeg o gymharu â 79.5% yn Saesneg. Yn 2015 mae 63.6% yn astudio'r pwnc yn Gymraeg. Er 2000 mae polisi iaith yr ysgol yn nodi'n glir fod unrhyw blentyn sydd wedi astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol gynradd hefyd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Mae hefyd yn nodi na chaniateir iddynt newid cyfrwng yr iaith addysgu yn ystod cyfnod allweddol ond bod modd gwneud hynny ar ddiwedd unrhyw gyfnod allweddol. Yr un yw'r polisi erioed, ond mae canran y plant sy'n penderfynu astudio Gwyddoniaeth a Mathemateg drwy gyfrwng y Saesneg wedi gostwng. Mae'r rhifau, felly, yn adlewyrchu gofynion y rhieni. Mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon fod y canlyniadau arholiadau yn profi fod addysgu Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gwella safonau. Mae'r ysgol yn paratoi disgyblion i fynd i brifysgolion ym mhob rhan o'r byd ac nid yw'n fwriad gan yr Awdurdod Lleol orfodi unrhyw iaith ar blentyn. Os caiff y cynnig ei roi ar waith, bydd rhieni'n gallu dewis naill ai Ysgol Cyfrwng Cymraeg neu Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf â defnydd sylweddol o Gymraeg yn ardal Caerfyrddin. Yn y ddwy flynedd diwethaf mae 0.7% o ddisgyblion CA3 a CA4 wedi symud o'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael sy'n awgrymu fod y disgyblion hyn wedi gadael er mwyn cwblhau eu harholiadau TGAU drwy gyfrwng y Saesneg.
Rhif. 5	**5.1 Manteision y newid** Fel Pennaeth yr Adran Fathemateg ers nifer o	**Manteision y newid** Nodwyd y sylw. Mae manteision y newid wedi eu nodi yn y

	flynyddoedd erbyn hyn dyma'r manteision i astudio'r pwnc yn uniaith Gymraeg (mae hyn yn wir wrth gwrs, ar gyfer Gwyddoniaeth): Mae'r disgyblion yn gallu defnyddio termau Cymraeg yn y pynciau eraill sydd wastad wedi eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, mae hyn wedyn yn atgyfnerthu'r dealltwriaeth ar draws y cwrciwlwm. Gan ein bod yn darparu'r holl dermau'n ddwyieithog mae hyn yn cyfoethogi sgiliau iaith y disgyblion. Mae nifer o dermau mathemategol yn haws ac yn gwneud mwy o synnwyr yn y Gymraeg. Oherwydd bydd pawb yn astudio yn yr un iaith bydd hi'n haws i'r adrannau setio a bydd y grwpiau, felly, yn decach i'r disgyblion a bydd yn bosibl creu grwpiau llai o faint yn ôl y galw sydd yn beth da. Wrth ddadansoddi'r data dros nifer o flynyddoedd erbyn hyn mae'n ymddangos bod cyfrwng y pwnc ddim yn amharu ar ddealltwriaeth, ac os unrhyw beth, mae'r grwpiau Cymraeg yn gwneud yn well. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn dewis astudio'r pwnc i Lefel A ac mae'r mwyafrif erbyn hyn yn penderfynu gwneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer helaeth hefyd wedi mynd ymlaen i astudio Mathemateg yn y brifysgol, rhai wedi aros yng Nghymru ond eraill wedi mynd i Loegr. Yr adborth rydym ni wedi ei dderbyn yw bod astudio'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol wedi bod o fantais iddynt ac nid yn anfantais. Bydd astudio pob pwnc ar y cwriciwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg yn atgyfnerthu Cymreictod y disgyblion sydd yn beth da hefyd i'r gymuned leol.	ddogfen ymgynghori.

	5.2 Rwyf wedi bod yn gweithio ym Mro Myrddin ers dros 25 mlynedd yn yr adran Wyddoniaeth ac mae'r cynnydd yn y disgyblion sydd nawr yn gwneud y pwnc trwy'r Gymraeg wedi bod yn fawr. Fel cyn rhiant ac aelod o staff yr ysgol rwy'n gweld hwn yn siawns rhy dda i'w golli. Fe fydd Cyngor Sir Gâr o flaen y gad a Bro Myrddin fydd yr ysgol benodedig Gymraeg gyntaf yn y Sir ac yng nghorllewin Cymru. Bydd hwn yn hybu Cymreictod yn yr ysgol tu-allan i wersi ac yn yr ardal leol. Fe fydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn lleihau llwyth gwaith i'r athrawon sydd ar hyn o bryd yn gorfod paratoi adnoddau'n ddwyieithog.	Nodwyd y sylw. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r holl athrawon Gwyddoniaeth presennol yn ysgol Bro Myrddin yn hyderus bod symud tuag at addysgu Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn cynnig llawer o fanteision.
	5.3 Fel cyn ddisgybl a bellach yn aelod o staff yn yr ysgol fe fydd hi'n braf i Fro Myrddin fod ar flaen y gad gan gael ei chydnabod fel ysgol Gymraeg gyntaf Gorllewin Cymru. Fe fydd y cynnig hwn yn cryfhau Cymreictod yr ysgol ac yn sicrhau bod disgyblion o oedran babanod yn medru datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg – sgiliau sy'n holl bwysig yn eu bywydau bob dydd. Mae cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i agor drysau iddynt.	Nodwyd y sylw. Fel y nodwyd yng nghasgliad y ddogfen ymgynghori 'mae hwn yn gyfle i arwain y ffordd yn y sir ac yng ngorllewin Cymru ac yn wir i Fro Myrddin greu hanes trwy sefydlu'r ysgol Gymraeg gyntaf yn Sir Gaerfyrddin.'
	5.4 Mae'n gyfnod cyffrous iawn yn hanes Ysgol Bro Myrddin a Sir Gâr. Rydym ar drothwy cael yr ysgol benodedig Gymraeg gyntaf yn y Sir. Byddai hyn yn rhoi Sir Gâr ar y map. Mae Bro Myrddin wedi ymateb i gynllun strategol yr iaith Sir Gâr gan geisio symud ar hyd y continiwwm iaith. Mae'r ffaith bod cyn lleied o blant yn gwneud pynciau trwy gyfrwng y Saesneg yn brawf bod y rhieni eisoes wedi gwneud y dewis.	Nodwyd y sylw. Mae manteision y cynnig wedi eu nodi'n glir yn y ddogfen ymgynghori.

	Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol eisoes. Ers hynny mae rhai rhieni wedi cysylltu gyda'r ysgol i drafod eu pryderon ac wedi gofyn am ragor o esboniad ond mae pawb wedi bod yn fonheddig ac yn bositif iawn. Mae'n braf nodi bod pob aelod o staff yn gefnogol i'r cynllun. Maent o'r farn bod y newid yn mynd i fod yn gam pwysig ymlaen i'r ysgol wrth ddatblygu Cymreictod y tu-allan i'r ystafell ddosbarth a lleihau eu baich gwaith. Mewn cyfnod o doriadau cyllid, mae newid categori iaith yr ysgol yn gwneud synnwyr.	
	5.5 Fe fydd y newidiadau hyn yn annog Cymreictod y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fe fydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn lleihau llwyth gwaith yr athrawon sydd ar hyn o bryd yn gorfod paratoi adnoddau'n ddwyieithog. Fe fydd yn rhoi Sir Gâr ar y map.	Nodwyd y sylw.
	5.6 Fe fydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn lleihau llwyth gwaith yr athrawon ac yn gwella Cymreictod.	Nodwyd y sylw.
	5.7 Fe fydd disgyblion yn dod i'r ysgol am y rhesymau cywir a bydd yn arbed arian i'r ysgol a'r Cyngor Sir.	Nodwyd y sylw.
	5.8 Fe fydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn lleihau llwyth gwaith i ni fel athrawon sydd ar hyn o bryd yn gorfod paratoi adnoddau'n ddwyieithog. Fe fydd yn annog Cymreictod y tu-allan i'r ystafell ddosbarth ac yn arbed arian.	Nodwyd y sylw.
	5.9 Fel pennaeth yr Adran Addysg Gorfforol mae	Nodwyd y sylw.

	hwn yn gam cadarnhaol iawn i'r ysgol. Fe fydd yn annog Cymreictod o gwmpas yr ysgol ac yn sicrhau bod disgyblion yn dod i'r ysgol am y rhesymau cywir. Fe fydd hefyd yn sicrhau ethos Gymreig.	
Rhif. 6	**6. Dealltwriaeth o'r pynciau** **6.1** Wedi dysgu Cemeg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ers 15 mlynedd, teimlaf mai dealltwriaeth o'r pwnc a chysyniadau gwyddonol yn y pwnc sy'n bwysig. Os yw disgybl yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg, gall esbonio'r pwnc yn y ddwy iaith.	**Dealltwriaeth o'r Pynciau** Nodwyd y sylw. Mae manteision dwyieithrwydd wedi eu nodi yn y ddogfen ymgynghori.
Rhif. 7	**7. Yn erbyn y newidiadau** **7.1** Rydym ni yn rhieni i dri o blant sy'n mynychu Ysgol Glanyfferi. Ein dewis cyntaf o ysgol Uwchradd yw Bro Myrddin. Rydym yn pryderu am y newid arfaethedig ac yn ei wrthwynebu. Rydym yn deall bod y disgyblion sy'n dymuno parhau gyda'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn medru gwneud hynny. Fodd bynnag, gyda'r disgyblion hynny sy'n penderfynu, am ba bynnag reswm, i barhau gyda'u haddysg drwy gyfrwng y Saesneg ni fydd dewis bellach. Rydym yn gwrthwynebu yn gryf ein bod yn colli y dewis hwn.	**Yn erbyn y newidiadau** Os caiff y cynnig ei roi ar waith, bydd rhieni'n gallu dewis naill ai Ysgol Cyfrwng Cymraeg neu Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf â defnydd sylweddol o Gymraeg yn ardal Caerfyrddin.
	7.2 Ar ôl mynychu'r noson ymgynghori i rieni, roeddwn yn disgwyl y byddai cyfle i gael trafodaeth o ran hyn gyda'r rhieni. Nid oedd hyn yn wir. Y gwirionedd yw bod Bro Myrddin yn	Roedd yr ymgynghori anffurfiol yn rhoi cyfle i rieni/gwarcheidwaid gyflwyno unrhyw gwestiynau. Gwahoddwyd rhieni i siarad ag amrywiaeth o bobl - swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin, y Pennaeth, Tîm yr

	dweud eu bwriad wrth y rhieni. Ni ofynnwyd i ni fel rhieni am ein barn ar p'un ai oeddem yn hapus i hyn i ddigwydd. Roedd y noson ymgynghori yn fygythiol iawn i'r rhieni. Mae angen i Fro Myrddin a'r Awdurdod lleol edrych ar sut maent yn cysylltu â rhieni. Mae gennyf bryderon dwys o ran addysg cyfrwng Cymraeg ar rieni di-Gymraeg. Dylai pob disgybl gael eu trin yr un peth. Mae gennyf bryderon bod y llywodraethwyr, aelodau o staff a phlant sy'n siarad Cymraeg iaith gyntaf yn cael mwy o gyfleoedd na phlant eraill. Mae angen i'r ysgol gydnabod yr hyn sydd orau i'r plentyn ac nad yw'n golygu ei fod orau i'r ysgol. Mae'r ystadegau a ddangosir yn y ddogfen ymgynghori yn gamarweiniol. Maent yn dangos bod y galw am addysg trwy gyfrwng y Saesneg wedi lleihau ond efallai eu bod yn cuddio'r ffaith bod ceisiadau rhai rhieni sydd eisiau i'w plant astudio'r pynciau hyn wedi cael eu gwrthod ac nid oedd cyfle yn yr ysgol i wneud hyn.	Uwch-reolwyr a staff addysgu. Yn ysgol Bro Myrddin mae pob plentyn yn cael ei drin yn deg ac mae gan bob plentyn yr un cyfleoedd. Er 2000 mae polisi iaith yr ysgol yn nodi'n glir fod unrhyw blentyn sydd wedi astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol gynradd hefyd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Mae hefyd yn nodi na chaniateir iddynt newid cyfrwng yr iaith addysgu yn ystod cyfnod allweddol ond bod modd gwneud hynny ar ddiwedd unrhyw gyfnod allweddol. Yr un yw'r polisi erioed, ond mae canran y plant sy'n penderfynu astudio Gwyddoniaeth a Mathemateg drwy gyfrwng y Saesneg wedi gostwng. Mae'r rhifau, felly, yn adlewyrchu gofynion y rhieni. Capasiti presennol (Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru) yr ysgol yw 923 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae 870 o ddisgyblion ar y gofrestr. Felly mae'r ysgol o dan gapasiti ac nid yw'n orlawn.
	7.3 Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddatgan fy siomedigaeth o fwriad yr ysgol i newid ei chategori iaith. O dan y system bresennol mae'r ysgol hon wedi bod yn llwyddiannus iawn yn academaidd sy'n cael ei arddangos yn y canlyniadau arholiad gwych. Mae'r ysgol wedi bod yr un mor llwyddiannus wrth gynghyrchu dinasyddion sy'n hyderus wrth siarad y ddwy iaith. Yn gyffredinol nid yw'r ymadrodd "os nad yw wedi torri nid oes angen ei drwsio" yn un gwael o gwbl. Ydy'r "*dewis sy'n cael ei ffafrio*	Ers 2000 mae polisi iaith yr ysgol yn nodi'n glir fod unrhyw blentyn sydd wedi astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol gynradd hefyd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Mae hefyd yn nodi na chaniateir iddynt newid cyfrwng yr iaith addysgu yn ystod cyfnod allweddol ond bod modd gwneud hynny ar ddiwedd unrhyw gyfnod allweddol. Yr un yw'r polisi erioed, ond mae canran y plant sy'n penderfynu astudio Gwyddoniaeth a Mathemateg drwy gyfrwng y Saesneg wedi gostwng. Mae'r rhifau, felly, yn adlewyrchu gofynion y rhieni.

	gan yr Awdurdod" yn ddyfais er mwyn lleihau nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgolion cynradd ac yn dymuno astudio ym Mro Myrddin? Ar hyn o bryd credaf bod yr ysgol wedi gor-dderbyn disgyblion a bod hwn yn ffordd o reoli niferoedd. Ydych chi'n gallu cadarnhau bod pob rhiant wedi cael y cyfle i roi dewis i'w plant i astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth yn Saesneg? Mae si ar led nid oes hawl gan y disgyblion fu'n astudio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wneud hynny ym Mro Myrddin neu eu bod yn cael eu perswadio i beidio â dewis opsiwn. Os yw hyn yn wir, ni fyddai'n syndod felly "bod y galw wrth rieni am ddarpariaeth o bynciau yn Saesneg wedi gostwng".	
Rhif. 8	**8. A yw'r newid hwn yn ddoeth?** **8.1** A ydyw'n synhwyrol i wneud newid sylfaenol i ysgol mor lwyddiannus a Bro Myrddin? Rwyf yn ystyried bod fy mhlant wedi cael addysg rhagorol yno yn astudio rhai pynciau yn Gymraeg ac eraill yn Saesneg, a hynny mewn awyrgylch Gymreig. Y cydbwysedd perffaith! Mi es i ysgol lle Saesneg oedd yr unig gyfrwng addysgu, heb law y pwnc Cymraeg wrth gwrs. Roedd hynny ddim yn agos i fod yn ddelfrydol. Rwyf o'r farn fod y gwrthwyneb hefyd yn drychineb i blant o ardal a theuluoedd Cymraeg eu hiaith.	**A yw'r newid hwn yn ddoeth?** Mae ysgol Bro Myrddin yn ysgol lwyddiannus ac mae'r canlyniadau rhagorol drwy gyfrwng y Gymraeg yn sail i'r llwyddiant. Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi'n glir pam y mae newid categori iaith yr ysgol yn fanteisiol.

Atodiad C

YMATEB ESTYN I'R DDOGFEN YMGYNGHORI

Ymateb Estyn i'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin o gategori 2A i gategori CC (Cyfrwng Cymraeg) o fis Medi 2016.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Gaerfyrddin. Y cynnig yw newid categori iaith Ysgol Gyfun Bro Myrddin o gategori 2A i gategori o Dymor yr Hydref 2016.

Diffiniad categori 2A yw ' *Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn unig i bob disgybl. Addysgir un neu ddau o bynciau i rai disgyblion yn Saesneg neu'r ddwy iaith.'*

Diffiniad categori CC yw *'Addysgir pob pwnc heblaw Saesneg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i bob disgybl. Gall rhai ysgolion gyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.'*

Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg Sir Gaerfyrddin i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir.
Ym marn Estyn mae'r cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol.

Disgrifiad a Manteision

Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymwaith clir ar gyfer y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig. Mae wedi rhoi amlinelliad da o'r rhesymau dros newid categori iaith yr ysgol o gategori 2a i gategori CC (Cyfrwng Cymraeg) gan edrych ar symudiad yr ysgol i'r cyfeiriad hwn dros y blynyddoedd. Mae'n nodi'n rhesymol bod dyletswydd ar yr awdurdod i ystyried a gweithredu yn unol ag argymhellion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-17, sef sicrhau cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddewisiadau eraill gan gynnwys cadw'r ysgol ar ei ffurf bresennol ond yn nodi'n gytbwys na fyddai'r opsiwn yn gydnaws gyda gweledigaeth y Cyngor Sir.
Mae'r cynigiwr yn amlinellu'n glir y gwahaniaeth rhwng y categorïau a'r goblygiadau i addysg y disgyblion. Mae'r cynigiwr hefyd yn nodi'n rhesymol bod yr ysgol eisoes yn fwy tebyg i gategori CC yn ôl diffiniad yr awdurdod lleol na diffiniad categori 2a, sef ei chategori presennol.

Mae'n nodi'n effeithiol bod rhieni a disgyblion yn cefnogi'r fath newid drwy dynnu sylw at y ffaith bod nifer gynyddol o ddisgyblion yn dewis dilyn pynciau gan gynnwys mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae hefyd yn rhestru'r manteision yn glir. Mae'r rhain yn ymddangos yn rhesymol ac yn cynnwys arbedion ariannol, defnydd mwy effeithiol o amser athrawon wrth baratoi adnoddau, yn ogystal â pharatoi disgyblion yn well ar gyfer byd gwaith cynyddol ddwyieithog, marchnad lafur leol sy'n rhoi pwyslais mawr ar fedrau iaith Gymraeg a chymuned ddwyieithog.

Mae'r cynigiwr yn ystyried yr anfanteision yn gytbwys ac yn datgan na fydd disgyblion presennol yr ysgol yn cael eu heffeithio gan y newidiadau. Bydd y cyfrwng dysgu drwy'r Gymraeg yn symud fesul blwyddyn i fyny'r ysgol.
Mae'n datgan yn rhesymol na fydd medrau Saesneg y disgyblion yn dioddef oherwydd y model arfaethedig o ddysgu dwyieithog sydd wedi profi'n llwyddiannus dros gyfnod o flynyddoedd. Mae'n cefnogi ei ddadl dros y newid yn gadarn trwy egluro buddiannau gwybyddol datblygu medrau trawsieithu i gyflwyno gwybodaeth newydd yn effeithiol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth drwyadl i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn yr ysgol.

Mae'r cynigiwr yn amlygu'n glir fod yr adran fathemateg sy'n dilyn y newidiadau hyn eisoes yn cyflawni'n uwch na chanlyniadau'r awdurdod lleol, canlyniadau'r teulu a chanlyniadau Cymru gyfan. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn ystyried yn ddigonol ganlyniadau'r ysgol o'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried goblygiadau'r newid arfaethedig ar y disgyblion yn drwyadl ac yn cynnig model o ddysgu dwyieithog sy'n cael ei weithredu yn effeithiol gan ddwy adran yn barod. Mae'r cynigiwr yn amlinellu'n briodol y bydd modd gosod disgyblion o'r un gallu mewn grwpiau. Mae'n honni y byddai'r grwpiau'n fwy effeithiol yn addysgol oherwydd y byddent yn adlewyrchu gallu'r disgybl ar draws y garfan yn hytrach nag ar draws cyfrwng y dysgu'n unig. Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o effaith y newid ar gydraddoldeb ac yn datgan na ddylai'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Mae'n haeru'n rhesymol y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddigonol ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig.

Atodiad D

Ymgynghoriad gyda'r Disgyblion

Ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y 9fed Tachwedd 2015

gan

Mrs Mari Owen

Ymgynghorydd Her Cyswllt

Cyngor Sir Gâr

Llais y Dysgwr, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Trefnwyd cyfarfod gydag ystod o ddysgwyr Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar Dachwedd 9fed 2015. Roedd saith dysgwr o flynyddoedd 7-12 yn bresennol; Elain Owen (Bl 7), Catrin Owen (Bl 8), Mabon Evans (Bl 9), Mabli Davies (Bl 10), Catrin Lewis (Bl 10), Alice Morris (Bl 10), Carwyn Bebb (Bl 12) a Greta Llŷr (Bl 12).

Trafodwyd bwriad yr Ysgol i symud ymlaen yn naturiol i newid categori iaith yr Ysgol o fis Medi 2016. Nodwyd mai dymuniad y Cyngor a'r Ysgol yw newid i gategori CC, sef Cyfrwng Cymraeg. Eglurwyd mai disgrifiad o Ysgol categori CC yw 'Addysgir pob pwnc heblaw Saesneg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i bob dysgwr. Gall rhai ysgolion gyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.' (Dyfyniad o'r Ddogfen Ymgynghori)

Roedd y dysgwyr yn ymwybodol mai, heblaw am y gwersi Saesneg, dim ond gwersi Mathemateg a Gwyddoniaeth oedd yn cael eu cynnig trwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd a bod y niferoedd a oedd yn dewis gwneud hynny wrth ymuno â'r Ysgol yn lleihau'n flynyddol.

Nododd un dysgwr ei fod ef ei hun wedi dilyn y cwrs Gwyddoniaeth a Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg oherwydd roedd wedi derbyn ei addysg Gynradd drwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Llanymddyfri cyn ymuno â Bro Myrddin. Serch hynny, nid oedd yn erbyn y syniad o wersi cyfrwng Cymraeg yn unig o Fedi 2016, oherwydd byddai'r dysgwyr newydd a'u rhieni yn ymwybodol o'r sefyllfa ymlaen llaw wrth gynllunio a dewis eu haddysg Uwchradd, ac ni fyddai unrhyw newidiaeth i'r dysgwyr sydd eisoes yn ddisgyblion yn yr Ysgol. Nododd sawl un mai er mwyn cael addysg cyfrwng Cymraeg yr oeddent wedi ymuno ag Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Cytunodd y dysgwyr yn llwyr mai newid cyfrwng i CC oedd y ffordd ymlaen i'r Ysgol hon. Nodwyd nifer o fanteision: byddai'n hwyluso'r broses o gadw at y rheol mai Cymraeg yw iaith yr Ysgol; gallai arbed arian i'r Ysgol o ran staffio ac adnoddau; byddai'n golygu bod safonau iaith Gymraeg y dysgwyr yn gwella a bod eu geirfa yn ehangu; byddai'n sicrhau parhad yn addysg Gymraeg yr holl ddysgwyr ac yn annog eu defnydd o'r Gymraeg i'r dyfodol ac ar hyd eu bywydau. Cyfeiriwyd at ambell sefyllfa yn y gorffennol lle bu dysgwyr hyderus yn y Gymraeg yn dewis dilyn y cyrsiau Gwyddoniaeth a / neu Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg am fod eu ffrindiau yn gwneud hynny. Ni fyddai hynny'n digwydd yn sgil newid categori'r Ysgol i CC.

Ystyriwyd anfanteision i'r newid categori. Y prif bryder a nodwyd oedd astudio mewn Prifysgolion lle mae'r hyfforddiant Gwyddoniaeth a Mathemateg drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl dilyn cwrs Lefel A cyfrwng Cymraeg. Er hynny cydnabuwyd os ydynt yn deall y cysyniadau a'r egwyddorion sydd ynghlwm â'r pwnc, wedi derbyn yr eirfa pwnc penodol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn yr Ysgol ac wedi llwyddo cael lefel A, ystyriwyd y byddai dysgwyr Bro Myrddin yn gallu ymdopi â'r sefyllfa. Nodwyd bod prinder gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg o gymharu â'r Saesneg yn anfantais. Cyfeiriwyd at y ffaith bod rhieni yn teimlo na fyddent yn gallu helpu eu plant gyda'u Gwaith Cartref, ond ychwanegwyd mai Gwaith Cartref y dysgwyr oedd e beth bynnag, ac nid oedd y mwyafrif o rieni yn gallu helpu gyda'r gwaith yn y pynciau eraill chwaith, yn enwedig ar frig yr Ysgol. Mewn rhai ysgolion o bosib, ni fyddai athrawon

yn hyderus i addysgu'r pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond nodwyd nad oedd hynny'n berthnasol ym Mro Myrddin.

Wrth ystyried sut allai'r Ysgol gefnogi a chynorthwyo'r dysgwyr a'u teuluoedd wrth iddynt baratoi i ymuno ag Ysgol CC, nodwyd byddai hyfforddi / rhoi arweiniad i athrawon ysgolion Cynradd ar ddysgu'r pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn enwedig yn nosbarthiadau lau'r ysgolion Cynradd yn paratoi'r dysgwyr yn dda. Rhestrwyd rhai ysgolion lle mae'r arfer dda o ddysgu Gwyddoniaeth a Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr eisoes ar waith. Byddai parhau â'r drefn o gyflwyno'r termau technegol / pynciol yn Saesneg, law yn llaw â'r rhai Cymraeg e.e. rhestrau geirfa, yn gymorth mawr. Awgrym arall i gefnogi'r dysgwyr yn gynnar yn y flwyddyn academaidd oedd trefnu Ffair Lyfrau i ddangos a gwerthu'r gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg priodol. Nodwyd bod angen annog y Gweisg Cymraeg a'r Llywodraeth i ddatblygu a chyhoeddi mwy o lyfrau cyfrwng Cymraeg i gyfateb â'r ystod eang o adnoddau cyfrwng Saesneg sydd ar gael er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn yr holl bynciau.

Holwyd am gadarnhad y byddai'r llythyron at rieni yn parhau'n ddwyieithog, ac ni fyddai newidiadau i weithdrefnau'r Ysgol tu hwnt i addysgu 'pob pwnc heblaw Saesneg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i bob dysgwr'.

Ar ddiwedd y cyfarfod nododd bob un eu bônt o blaid y newid categori i CC o Fedi 2016 ymlaen.

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côd Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin o Dwyieithog (categori 2A) i Cyfrwng Cymraeg (categori CC) o 1 Medi 2016.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.sirgar.llyw.cymru

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn 10 Mai 2016, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr Robert Sully, Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu gellir anfon neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk

Llofnod: Mr Robert Sully
Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiedig: 13eg Ebrill 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn cynyddu eglurder)

1. Bwriad yr Awdurdod yw newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin o Dwyieithog (categori 2A) i Cyfrwng Cymraeg (categori CC).

Mae diffen wybodaeth Llywodraeth Cymru "Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" yn nodi disgrifiadau a chategorïau o ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad canlynol:

http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/defining-schools-welsh-medium/?lang=cym

Bydd y newid arfaethedig yn digwydd o 1 Medi 2016.

Tudalen 235

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

County Hall, Carmarthen, SA31 1JP

Notice is hereby given in accordance with Section 42 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that Carmarthenshire County Council (the Council) having consulted such persons as required, propose to change the language category of Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin from Bilingual (category 2A) to Welsh Medium (category WM) from 1 September 2016.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposers responses and the views of Estyn is available on www.carmarthenshire.gov.wales

Within a period of 28 days after the date of publication of this proposal, that is to say by 10 May 2016, any person may object to this proposal. Objections should be sent to Mr Robert Sully, Director of Education and Children's Services, Carmarthenshire County Council, Building 2, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB or e-mail to DECMEP@carmarthenshire.gov.uk

Signed: Mr Robert Sully
Director of Education and Children's Services
For Carmarthenshire County Council

Dated: 13th of April 2016

EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

1. It is the Authority's intention to change the language category of Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin from Bilingual (category 2A) to Welsh Medium (category WM).

The Welsh Government information document "Defining schools according to Welsh medium" sets out descriptions and categories of schools according to the amount of Welsh used in teaching and learning. The document is available on the Welsh Government website at the following address:

http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/defining-schools-welsh-medium/?lang=en

The proposed change will take place from 1 September 2016.

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

ADRODDIAD YNGHYLCH Y GWRTHWYNEBIADAU

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Atodiad A

Rhestr o'r gwrthwynebiadau i'r Hysbysiad Statudol

Rhestr o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd

Rhif	Enw	Safle/Categori yr ymatebydd
1.	Llinos Thomas	
2.	Rhiannon Edwards	Darpar Riant

Atodiad B

Crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi'r Hysbysiad Stadudol ac ymatebion yn ymwneud â'r Awdurdod Lleol

Rhif	Gwrthwynebiad	Ymateb
1.	Mae'r ymgynghorai yn gwrthwynebu newid y categori iaith o ddwyieithog 2A i Gyfrwng Cymraeg.	Mae'r gwrthwynebiad wedi cael ei nodi. Mae'r cynnig wedi cael ei baratoi i ymateb i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i "***gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ymlaen drwy bob cyfnod allweddol hyd at y sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg."*** Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg argymhellwyd bod y Cyngor Sir yn ***"cynllunio ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd"*** ac yn "***cytuno ar amserlen a chynllun i gefnogi ysgolion 2A, 2B a 3 i symud ar hyd y continwwm iaith dros gyfnod o amser ac arwain at sicrhau bod pob ysgol uwchradd arall yn symud ar hyd y continwwm iaith a chreu ethos sy'n annog parch tuag at yr iaith Gymraeg."***
2.	Mae'r ymgynghorai yn gwrthwynebu newid y categori iaith o ddwyieithog 2A i Gyfrwng Cymraeg. Nid yw'r ymgynghorai yn teimlo y byddai disgyblion Cymraeg ail iaith yn cyrraedd eu potensial llawn drwy ddysgu Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddai marciau'r disgyblion yn	Mae'r gwrthwynebiad wedi cael ei nodi. Mae'r cynnig wedi cael ei baratoi i ymateb i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i "***gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin***

	adlewyrchu eu gwir allu ac mi fyddai hyn yn effeithio ar safon gyffredinol yr ysgol. Yn ogystal, byddai'r disgyblion sy'n dymuno astudio'r pynciau yma mewn prif ysgolion drwy gyfrwng y Saesneg o dan anfantais oherwydd eu bod wedi dysgu'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol. Mae'r ymgynghorai yn poeni y bydd y newid yma yn effeithio ar y nifer o ddisgyblion Cymraeg ail iaith sy'n gallu mynychu'r ysgol ac y bydd llai o ddisgyblion eisiau mynychu'r ysgol. Bydd rhai teuluoedd nawr yn ystyried danfon eu plant i ysgolion uwchradd eraill er mwyn i'r disgyblion gael dewis o ba iaith y maent yn dymuno dysgu drwyddo.	***ymlaen drwy bob cyfnod allweddol hyd at y sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg."*** Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg argymhellwyd bod y Cyngor Sir yn ***"cynllunio ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd"*** ac yn "***cytuno ar amserlen a chynllun i gefnogi ysgolion 2A, 2B a 3 i symud ar hyd y continwwm iaith dros gyfnod o amser ac arwain at sicrhau bod pob ysgol uwchradd arall yn symud ar hyd y continwwm iaith a chreu ethos sy'n annog parch tuag at yr iaith Gymraeg."*** Mae canlyniadau'r arholiadau mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyson uchel ac yn profi nad yw dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystr i'r disgyblion. Mae'r holl athrawon Gwyddoniaeth a Mathemateg bresennol yn ysgol Bro Myrddin yn hyderus bod symud tuag at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn cynnig llawer o fanteision. Mae'r ysgol yn paratoi disgyblion i fynd i brifysgolion ym mhob rhan o'r byd ac ni ddylid ystyried bod dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn anfantais i'r disgyblion. Bwriad yr Awdurdod Lleol yw i'r holl ddisgyblion presennol aros yn yr ysgol ac y bydd darpar ddisgyblion yn y dyfodol yn parhau i fynd i'r ysgol. Os caiff y cynnig ei roi ar waith, bydd rhieni'n gallu dewis naill ai ysgol Cyfrwng Cymraeg neu Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf â defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn ardal Caerfyrddin.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT 17eg O FEHEFIN 2016

Adroddiad Blynyddol (2015/16) a Chynllun Gwella (2016/17) – Drafft

- Adroddiad cynnydd cyfan y Flwyddyn 1af y Strategaeth Gorfforaethol 2015-20 (gan gynnwys Crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol (2015/16) a Chynllun Gwella (2016/17))

- Dyfyniadau perthnasol ar gyfer y Pwyllgor Craffu hwn o'r – Adroddiad Blynyddol Llawn (2015/16) a'r Cynllun Gwella (2016/17) - (ARIP)

Ystyried y materion canlynol a chyflwyno sylwadau arnynt:

- Bod y Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17 drafft Cyngor Sir Caerfyrddin, ac yn cyflwyno sylwadau arno.

Rhesymau:

1. O dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) rhaid i ni:

    - *Gyhoeddi Cynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol h.y. 1af Ebrill (mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dehongli hyn fel erbyn diwedd mis Mehefin) a*
    - *Chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiad y gorffennol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn*

2. *Rydym yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella cyfun gan ein galluogi i werthuso canlyniadau'r flwyddyn* flaenorol a chytuno ar ganlyniadau yn y dyfodol.

3. Mae'r ddogfen hon yn cael ei diweddaru wrth i ddata diwedd y flwyddyn ddod ar gael.

Angen cyfeirio'r mater at y Bwrdd Gweithredol / Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad: OES

Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Portffolio:
Cyng. Gareth Jones (Addysg a Phlant)

Y Gyfarwyddiaeth: Addysg a Phlant	**Swyddi:**	**Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-Bost:**
Enw'r Cyfarwyddwr: Robert Sully	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant	01267 246470 rasully@sirgar.gov.uk
Awdur yr Adroddiad: David Astins	Rheolwr Datblygu Strategol	01267 246426 dastins@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

EXECUTIVE SUMMARY

EDUCATION & CHILDREN SCRUTINY COMMITTEE 17th JUNE 2016

Draft Annual Report (2015/16) and Improvement Plan (2016/17)

- 1st Year's progress report on the Corporate Strategy 2015-20 (including our Summary Annual Report (2015/16) and Improvement Plan (2016/17)). **This Scrutiny Committee should focus on Pages 9, 10, 11 and 13 only**.

- Full Annual Report (2015/16) and Improvement Plan (2016/17) – (ARIP)

  Extracts relevant to the Education & Children Scrutiny Committee:
  - Introduction
  - Ensuring each child has the best start in life
  - People in Carmarthenshire fulfil their learning potential
  - Safeguarding children from abuse, victimisation, neglect and exploitation
  - Appendices

1st Year's progress report on the Corporate Strategy 2015-20 (Including our Summary Annual Report (2015/16) and Improvement Plan (2016/17))

- When we published the Corporate Strategy 2015-20 we promised to conduct an annual progress report and we set out a set 24 Outcome measures to judge our progress against
- By law we also have to publish a summary and full ARIP
- It makes sense to combine the Corporate Strategy progress and summary ARIP into one document to avoid duplication and align plans and reports
- In the recent WAO Annual Improvement Report they found the combination of a short summary and a full version – gave all the information needed.

Full Annual Report (2015/16) and Improvement Plan (2016/17) – (ARIP)

- By law we have to publish an Annual Report and an Improvement Plan – we combine the both in a single document in Carmarthenshire and this is seen as good practice by our regulators.

• On 20th April, we consulted with elected members on the Key Improvement Objective Priorities that are incorporated into this document • WAO Corporate Assessment Proposals for Improvement are incorporated into the document.

DETAILED REPORT ATTACHED?	**YES**

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.

Signed: David Astins Strategic Development Manager

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	**YES**	**YES**	**NONE**	**NONE**	**NONE**	**NONE**

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities – The Annual Report and Improvement Plan is aligned to our Integrated Community Strategy (ICS) Outcomes and Goals. The document will help inform our ICS Annual Report.
2. Legal – Our combination of Annual Reporting and Improvement Planning into a single document meets the Local Government Measure requirements and has satisfied our regulators. Other Councils in Wales have adopted this combined approach.
3. Finance – See the Making Better use of Resources theme

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

Signed: David Astins Strategic Development Manager

1. Local Member(s) – N/A

2. Community / Town Council – N/A

3. Relevant Partners – N/A

4. Staff Side Representatives and other Organisations – N/A

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW:

Title of Document	File Ref No. / Locations that the papers are available for public inspection
The Local Government Measure (Wales) 2009	Welsh Government\Final part 1 guidance
Corporate Strategy 2015 -2020	Corporate Strategy 2015-2020

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

I[st] year progress report on the Corporate Strategy for 2015/16

Including our Summary Annual Report 2015/16

and Improvement Plan for 2016/17

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Contents ….

	Page
Introduction	2
Progress at a Glance	3
Making Better Use of Resources	4
Building a Better Council	6
People in Carmarthenshire are Healthier	8
People in Carmarthenshire fulfill their learning potential	10
People who live, work and visit Carmarthenshire are safe and feel safer	12
Carmarthenshire's communities and environment are sustainable	14
Carmarthenshire has a stronger and more prosperous economy	16
You Said, We Did..	18

Introduction

When we signed up with our partners to the Integrated Community Strategy for Carmarthenshire, the Council aligned its internal plans to maximize its contribution to the agreement. The vision is for a Carmarthenshire that enables people to live healthy and fulfilled lives by working together to build strong, bilingual and sustainable communities.

In September 2015, we renewed our Corporate Strategy which set out the Council's strategic priorities and aspirations in support of the vision for Carmarthenshire. This Strategy identified key areas of focus and set out the key outcome measures by which the Council would judge its success. This document provides an annual report on progress made.

For the last five years the Council has published a combined Annual Report and Improvement Plan (ARIP), that details our progress against all of the outcomes and goals set out in the Integrated Community Strategy. The full ARIP is a detailed and lengthy document, however this document provides a summary.

Carmarthenshire County Council's Corporate Strategy 2015 - 2020

Annual Report 2015/16 and Improvement Plan 2016/17

Progress at a Glance

When we published the Corporate Strategy 2015-20 we set out the following outcome measures to judge our progress:-

Outcome	Outcome Measures	Progress
Making Better Use of Resources	Improved public satisfaction levels with the services provided by the Council	✓
	Reduction in organisational 'running costs'	✓
	Increased on line activity to address public queries and transactions	✓
Building a Better Council	Increasing public communication, consultation and engagement	✓
	Improved staff satisfaction levels	✓
	Reduced staff sickness absence levels	✗
Healthier	Reduction in referrals to adult and children's social services *(Feedback from E&CS DMT that this is not the best measure of Safeguarding - may require an alternative for the future)*	✓
	Increased availability of rented and affordable homes	✓
	Increased use of leisure facilities	✗
Learning	Improved educational attainment	✓
	Improved school attendance rates	✓
	Reduced number of young people Not in Education, Employment or Training	**Year 11** ✗ **Year 13** ✓
	Improved condition of schools	✓
Safe	Appropriate support provided to children, young people and families as required	✓
	Reduction in road casualties	**Awaiting results**
	Reduction in total recorded crime	✗
	Reduction in anti-social behaviour	✓
Environment	Increased rates of recycling	✓
	Improved digital access	✓
	Improved transport links	✓
	Increased use of renewable energy	✓
Economy	Increased employment	✓
	Reduction in working age population in receipt of out of work benefits	✓
	Increased economic activity and productivity	✓

Outcome A: Making Better Use of Resources…

The Council is facing a period of significant and continued budget cuts and it is more important than ever to ensure that we are making the best use of resources. We will ensure that the organisation is working as efficiently as possible in order to protect and maintain front line services where possible. However, it may not be possible for us to continue doing some of the things we have done in the past and we will work with our communities and stakeholders to find new ways of addressing need where appropriate.

IT Technology has arrived at school kitchens……

As part of the Transform, Innovate and Change (TIC) programme, electronic submissions make the ordering of food and kitchen supplies, timesheets, e-banking, staff newsletters, e-learning courses & on-line payments for school meals easier and accurate for kitchen staff, with significant time and efficiency savings and with better utilisation of resources for value added work.

Services Provided



Sources of Funding



Progress during 2015/16

We set ourselves a Key Improvement Priority for 2015/16 to *'deliver value for money in providing council services and directing our resources to the top priority front line services on which many local people depend'*. In its March 2016, Annual Improvement Report on the Council, the Wales Audit Office found:

'Despite increasing pressure on budgets, performance is continuing to improve across the Council's priority areas and public satisfaction with Council Services is growing'.....frontline services have been protected, as a result of budget decisions and more efficient ways of working'

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- We have a programme of office rationalisation facilitated by adapting the way we use the buildings to suit the needs of those providing services and to engender a new more agile way of working. This has further reduced the number of buildings and costs of accommodation required to deliver the Councils services.

Expected Outcomes (as identified in Corporate Strategy)

60% of our national measure results are in the top half of results for all Councils in Wales.

59% of our National measures improved last year

58% of citizens agree we provide **high quality services**

We have continued to reduce the organisational 'running costs'

2013/14	£16.7M
2014/15	£11.9M
2015/16	£12.6M

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani

YOUR COUNCIL doitonline

i-Local aims to keep residents better informed of changes to refuse collection arrangements, bad weather and other emergencies, news updates and information on events .

882,669
visitors to our website

13.5%
increase of on-line payments

165,730
visitors to iLocal

The Key Improvement Objective Priority for 2016/17

Deliver value for money in providing council services and directing our resources to the top priority front-line services on which many local people depend - taking account of central government budget cuts and their impact

More ⓘ - Annual Report 2015/16 and Improvement Plan 2016/17

Outcome B: Building a Better Council…

The Council has always worked towards building a better Carmarthenshire and has a proven track record of delivery. However, the way that public services are provided is changing and as a Council we need to respond and adapt to these changes in order to ensure we can support the needs of our residents in the future.

Shwmae!

More than 100 people started their conversation with 'Shwmae' during their visit to Llanelli Market

As part of the national *Shwmae Sumae* Day on October 15, shoppers were urged to start their conversation with *'Shwmae'* to be entered into a free raffle to win a grand hamper donated by traders.

Llanelli Market traders Wendy Lewis & Liz Thomas of AJ Meats supporting Shwmae Sumae Day

We have made further improvements in *Building a Better Council* and this progress has been independently verified by the Auditor General for Wales in his Corporate Assessment of January 2016.

"Carmarthenshire County Council is demonstrating ambition in its vision, with collective leadership and more robust and transparent governance, it is delivering improved outcomes for its citizens...."

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Progress during 2015/16

- We continue to promote local democracy and transparency with increased use of social media. For example the budget Consultation with the citizen's of Carmarthenshire involved an online survey, road show events and the use of 'question of the week' through social media.

- It is the duty of the Council to facilitate and increase the use of the Welsh language. This is a new opportunity for us to look at the Language in our workplace and in the services that we provide.

- We received 1000+ responses to our survey on rural poverty and this was brought together in a report for Grwp Cefn Gwlad. In response the LEADER programme is supporting pilot projects that aim to increase digital exploitation, access to information and advice services, as well as affordable childcare.

Expected Outcomes (as identified in Corporate Strategy)

Increased public communication, consultation and engagement

4000+

respondents to consultation on rural poverty, affordable homes, budget, tourism. Citizens Panel and 50+ Forum members

i-Local has an area dedicated to Consultation with the heading *"We want to hear what you have to say on any and all matters of interest."*

Staff Sickness Up

Unfortunately our staff sickness absence levels have increased to **10.1 days** from 9.6 days the previous year.

Improved Staff Satisfaction Levels

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

The Council has been an Investor in People since 2009, and this financial year the Council has been reviewed and its accreditation maintained.
During the review, staff interviews showed **higher levels of satisfaction** than the previously.

We were the first local authority to achieve the Welsh Government's Platinum health standard; we have now held the accreditation for 6 years.

The Key Improvement Objective Priority for 2016/17

We will continue to improve governance, decision making, openness & transparency and keep under review by the Constitutional Review Working Group

More ⓘ - Annual Report 2015/16 and Improvement Plan 2016/17

Outcome C: People in Carmarthenshire are healthier …

Our way of life is changing. People are living longer with a higher quality of life but our care needs are becoming more complex. The challenge now facing us is to prevent ill-health in the first place.

A Helping Hand

Yvonne lives with her husband who has chronic heart failure and hearing problems and she is her husband's main carer. Yvonne fell on a shop escalator and was taken to A & E but after assessment was discharged into the care of a *Rapid Response Team* by the Out of Hours Domiciliary Care Manager, thus avoiding hospital admission.

Yvonne wanted to regain her independence as soon as possible. The Rapid Response Team provided the necessary support until *Re enablement Team* support was arranged. Within three to four weeks visits were decreased and then stopped as they were no longer necessary.

Progress during 2015/16

- The Council has worked in close partnership with the Health Board to address **health inequality** issues such as obesity, diabetes, smoking and alcohol use, dementia and other chronic conditions. The Council also works closely with the 3rd Sector to develop more resilient communities, thereby improving the health and well-being of the residents of these communities.

- The expanded Flying Start programme enabled 1,832 children to benefit from this **early intervention service**; Team Around the Family (TAF) training and support programme is being implemented across Carmarthenshire. All Families First (FF) commissioned projects are using the Joint Assessment Families Framework (JAFF) to measure whether involvement has been effective. The resource panel is helping ensure **preventative services** are being fully utilised.

- There is also a strong relationship between the **quality of housing** and ill health. We have invested over £200m in improving and modernising our tenants homes through the Carmarthenshire Homes Standard.

- We have also focused on **improving the numbers of affordable homes** for rent and to buy across the county as well as increasing the number of empty properties that have been brought back into use. We have developed an Affordable Housing Delivery Plan 2015-20 after extensive consultation with the public.

Expected Outcomes (as identified in Corporate Strategy)

Reduction in referrals to adults and children's social services

Down 26% & 14%

Increased availability of rented and affordable homes

+185

Additional Affordable homes during 2015/16

Use of leisure facilities

Down1.6%

attendances were down by 20,000, although there are **still over 1¼M**

The Key Improvement Objective Priorities for 2016/17

Promoting Independence and Well Being for Older People

Increasing the availability of rented and affordable homes to support the needs of local people by implementing our affordable homes delivery plan

More ⓘ - Annual Report 2015/16 and Improvement Plan 2016/17

Outcome D: People in Carmarthenshire fulfil their learning potential…

We all want our children and young people to have the best possible start in life by supporting them to gain the skills and knowledge they need to lead happy, healthy, fulfilling lives. We want to improve outcomes for all ages through lifelong learning.

Best Ever Results for Carmarthenshire schools

Ysgol Glan-y-Mor School Achieves the Highest Possible Standards

Results of the Key Level 2 inclusive Indicator the most important performance measure has **doubled** over three years, from 30% (2012) to 60% (2015) at the Ysgol Glan-y-Mor School.

I am so pleased with my results. Thanks to all the staff in the school for their support. They were fantastic" ***Robbie Williams***

"I am extremely happy with my achievements. Thanks to Glan-y-Môr I can now continue with my chosen career path!" ***Tane Davies***

"The school was brilliant. I am really happy. Thanks to everyone at the school I achieved everything I wanted." ***Rebecca Roberts***

For the second year in succession our school pupils in Carmarthenshire achieved their ***best ever examination*** results at GCSE, achieving 61.1% against the key Level 2 Inclusive indicator (at least 5 number GCSE passes at grade A* to C including mathematics and language) with teacher assessments at all other key stages of education improving and comparing favorably with other authorities.

Progress during 2015/16

- We have established a Carmarthenshire **Youth Support Service** bringing together the Youth Service and Youth Offending Services.

- Within our **Modernising Education Programme** major school development projects were completed at Ysgol Bro Dinefwr ,Ysgol Dyffryn Aman, Burry Port Primary School and Ysgol Carreg Hirfaen, with thousands of children benefiting.

- The number of 7 year old pupils receiving **Welsh medium education** has increased. The % of learners achieving expected levels at Key Stages 2, 3 and 4 have improved.

Expected Outcomes (as identified in Corporate Strategy)

61.1%

of pupils **achieving 5 GCSE at grade A* to C** including English or Welsh first language and Mathematics

Now ranked 7th in Wales



95.2%

Attendance at **Primary Schools**

94.2%

